



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Hydref 2015



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 33 Deddf Trais Domestig,
Troseddu a Dioddefwyr 2004.

Hydref 2015



© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu anfon at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Ble'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

Victim and Criminal Proceedings Policy Team, Ministry of Justice,
102 Petty France London SW1H 9AJ. Ffôn: 020 3334 3555

E-bost: victimscodiconsultation@justice.gsi.gov.uk

ISBN Argraffiad 9781474125390

ISBN Gwefan 9781474125406

ID 21101511

10/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Reolwr
Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o
<https://www.gov.uk/moj>

Crynodeb o hawliau allweddol

Isod ceir rhestr ddangosol o'r hawliau allweddol sy'n gynwysedig ym Mhenodau 1 i 3 y Cod. Nid yw'n rhestr gyflawn ac ni fydd yn gymwys i bob diodefwyr. I gael gwybodaeth ynglŷn â pha adrannau o'r Cod sy'n gymwys i chi, darllenwch y Cyflwyniad.

Mae gennych **hawl** i:

- Dderbyn cydnabyddiaeth ysgrifenedig eich bod wedi riportio trosedd, yn cynnwys manylion elfennol am y drosedd;
- Derbyn gwasanaeth estynedig os ydych wedi dioddef trosedd ddifrifol, yn ddiodefwyr a dargedir y gyson, neu'n ddiodefwyr sy'n agored i niwed neu sy'n cael ei fygwth;
- Derbyn asesiad o anghenion er mwyn helpu i ganfod pa gymorth sydd ei angen arnoch;
- Derbyn gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol;
- Cael eich cyfeirio at sefydliadau sy'n rhoi cymorth i ddiodefwyr trosedd;
- Derbyn gwybodaeth am ymchwiliad yr heddlu, megis p'un a yw rhywun a amheuir yn cael ei arestio a'i gyhuddo, ac am unrhyw amodau mechniaeth a osodir;
- Gwneud Datganiad Personol Dioddefwyr (DPD) er mwyn egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi ;
- Darllen eich DPD ar lafar neu gael rhywun i'w ddarllen ar lafar ar eich rhan, yn ddarostyngedig i safbwynt y llys, os canfyddir bod y diffynnydd yn euog;
- Cael eich hysbysu os bydd yr unigolyn a amheuir yn cael ei erlyn neu ddim yn derbyn penderfyniad y tu allan i'r llys;
- Gofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu GEG i beidio ag erlyn yn unol â chynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Cyngor Penaethiaid yr Heddlu Cenedlaethol (CPHC) a GEG;
- Cael eich hysbysu ynglŷn ag amser, dyddiad a lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawriad llys;
- Cael eich hysbysu os bydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys, beth i'w ddisgwyl a pha help a chymorth fydd ei angen arnoch efallai gan yr Uned Gofal i Dystion;
- Trefnu ymweliad cynefino â'r llys a mynd i mewn i'r llys drwy fynedfa wahanol i'r unigolyn a amheuir ac eistedd mewn ardal aros ar wahân pan fo hynny'n bosibl;
- Cyfarfod ag eiriolwr GEG a gofyn cwestiynau iddo ef neu hi ynglŷn â phroses y llys pan fo'r amgylchiadau'n caniatáu hynny;
- Cael eich hysbysu am unrhyw apêl yn erbyn collfarn neu ddedfryd a dderbynia'r troseddwr
- Dewis bod yn rhan o Gynllun Cysylltu â Dioddefwyr (CCD) os caiff y troseddwr ddedfryd o 12 mis neu fwy am drosedd dreisgar neu rywiol benodol;
- Os byddwch yn dewis bod yn rhan o'r CCD, mae gennych hawl i:
 - wneud DPD i'r Bwrdd Parôl ei ystyried os ystyrir rhyddhau neu drosglwyddo troseddwr, a gwneud cais i'r Bwrdd Parôl i'w ddarllen yn y gwrandawriad;
 - gwneud cynrychiolaethau ynglŷn â'r amodau a atodwyd i drwydded y troseddwr pan gaiff ei ryddhau a chael eich hysbysu am unrhyw amodau trwydded sy'n gysylltiedig â chi;
- Gwneud cais am iawndal o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol;
- Derbyn gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol a sut y gallwch gymryd rhan;
- Gwneud cwyn os na fyddwch yn derbyn y wybodaeth a'r gwasanaethau y mae gennych hawl eu derbyn, a derbyn ymateb llawn gan y darparwr gwasanaeth perthnasol.

Cynnwys

Rhagarweiniad

Pa sefydliadau sy'n gorfod darparu gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr hwn?

Pa fath o gymorth ddylwn i ei gael fel dioddefwr trosedd?

Gan bwy mae'r hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr hwn?

Gwybodaeth ychwanegol i bawb sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod

Pennod 1

Hawliau Estynedig

Mesurau Arbennig

Cyfryngwyr Cofrestredig

1 Pennod 2 17

Dioddefwyr sy'n Oedolion Rhan A: Hawliau Dioddefwyr 19

2 Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu 19

3 Adran 2: Cyn y Treial - Cyhuddo a Mechnïaeth 22

Adran 3: Treial 25

4 Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfrydu 27

Adran 5: Apeliadau 27

5 Adran 6: Ar ôl y Treial 29

Adran 7: Cyfiawnder Adferol 34

Adran 8: Gwneud cais am iawndal 36

11 Adran 9: Sut i wneud cwyn 38

13 15 Dioddefwyr sy'n Oedolion Rhan B: Dyletswyddau Darparwyr 15 Gwasanaethau 40

Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu 40

Adran 2: Cyn y Treial 43

Adran 3: Treial 47

Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfrydu 49

Adran 5: Apeliadau 49

Adran 6: Ar ôl Treial 51

Adran 7: Cyfiawnder Adferol 55

Adran 8: Digolledu 57

Adran 9: Cwynion 58

Pennod 3	60	Pennod 4	79
Plant a Phobl Ifanc Rhan A: Hawliau Plant a Phobl Ifanc	62	Busnesau	81
Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu	62		
Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechnïaeth a Gwybodaeth am y treial)	64	Pennod 5	83
Adran 3: Treial	67	Dyletswyddau Darparwyr Gwasanaethau eraill	85
Adran 4: Ar ôl y Treial	67	Pa sefydliadau sy'n gorfod darparu gwasanaethau o dan y bennod hon o'r Cod?	85
Adran 5: Apeliadau	68	Gwybodaeth a chymorth	87
Adran 6: Ar ôl y ddedfryd	68	Asesiadau Unigol	89
Adran 7: Cyfiawnder Adferol	71	Cyfweliadau	89
Adran 8: Digolledu	72	Gwybodaeth	90
Adran 9: Sut i wneud cwyn	73	Hawl i Adolygiad	91
		Treuliau	91
Plant a Phobl Ifanc Rhan B: Dyletswyddau Darparwyr Gwasanaethau mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc	74	Eiddo	91
Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu	74	Mesurau Arbennig	91
Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechnïaeth a Gwybodaeth am y treial)	76	Plant a Phobl Ifanc	91
Adran 3: Treial	76	Cwynion	92
Adran 4: Ar ôl y Treial	76	Geirfa	93
Adran 5: Apeliadau	76		
Adran 6: Ar ôl y ddedfryd	77		
Adran 7: Cyfiawnder Adferol	77		
Adran 8: Digolledu	77		
Adran 9: Cwynion	77		

Rhagarweiniad

1. Mae'r Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau yn rhan allweddol o strategaeth ehangach y Llywodraeth ar gyfer trawsnewid y system cyfiawnder troseddol drwy roi blaenoriaeth i'r diodefwyr, sicrhau bod y system yn fwy ymatebol ac yn haws i lywio drwyddi. Dylid trin diodefwyr troseddau mewn modd parchus, sensitif a phroffesiynol sydd wedi'i deilwra heb unrhyw fath o wahaniaethu. Dylent dderbyn cymorth priodol i'w helpu, cyn belled â phosibl, i ymdopi a gwella a chael eu gwarchod rhag diodeff eto. Mae'n bwysig bod diodefwyr troseddau yn gwybod pa wybodaeth a chymorth sydd ar gael iddynt, o riptio trosedd ac wedi hynny, ac i bwy y dylid gofyn am help os nad ydynt yn ei gael.
2. Mae'r Cod hwn yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr eu darparu i ddiodefwyr trosedd.¹
3. Mae'r Cod yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Gall darparwyr gwasanaethau ddewis cynnig gwasanaethau ychwanegol a gall diodefwyr ddewis derbyn gwasanaethau sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion unigol nad ydynt wedi cyrraedd y safonau gofynnol.
4. At ddiben y Cod hwn, mae "diodeffwr" yn:
 - berson naturiol sydd wedi diodeff niwed, yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd²;
 - perthynas agos (gweler yr eirfa) i berson yr achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.
5. Nid yw personau cyfreithiol (e.e. Busnesau) yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ddiodeffwr. Nid oes gan fusnesau'r hawl i dderbyn y gwasanaethau o dan y Cod hwn yn unol â Phennod 4.
6. Mae hawliau estynedig yn cael eu darparu i ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr a dargedir yn gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth. Mae'r tri chategori yma yn cael eu hegluro ym mharagraffau 1.1-1.12 Pennod 1 y Cod hwn.
7. Yn ychwanegol at y Rhagarweiniad hwn, sy'n bwysig i'w ddarllen, mae'r tabl isod yn dangos pa bennod o'r Cod all fod yn berthnasol i chi. Mae pob pennod yn eich galluogi i ddilyn eich taith drwy'r broses cyfiawnder troseddol a chanfod beth y mae gennych hawl i'w dderbyn ar bob cam.

Diodeffwr trosedd sy'n oedolyn	Pennod 2 (Rhan A) neu Bennod 5
Diodeffwr o dan 18 oed	Pennod 3 (Rhan A) neu Bennod 5
Pwynt cyswllt penodol busnes sydd wedi diodeff trosedd	Pennod 4 a Phennod 2 (Rhan A)
Sefydliad a restrir ym mharagraff 8 sy'n darparu gwasanaethau i ddiodefwyr o dan y Cod hwn	Penodau 2 neu 3 (Rhan B)
Sefydliad a restrir ym mharagraff 9 sy'n darparu gwasanaethau i ddiodefwyr o dan y Cod hwn	Pennod 5

¹ Mae'r Cod hwn yn cael ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan adran 32 Deddf Trais Domestig, Troseddau a Diodefwyr 2004. Mae'n gweithredu darpariaethau perthnasol Cyfarwydddeb 2012/29/EU yr UE gan sefydlu safonau gofynnol mewn perthynas â hawliau, cymorth a gwarchodaeth diodefwyr trosedd; Cyfarwydddeb 2011/92/EU sy'n brwydro yn erbyn cam-drin ac ecsbloetio plant yn rhywiol; a Chyfarwydddeb 2011/36/EU sy'n atal ac yn brwydro yn erbyn masnachu pobl.

² At ddibenion y Cod, mae 'trosedd' yn golygu trosedd a gyflawnir, neu sy'n destun achos troseddol, yng Nghymru a Lloegr.

Pa sefydliadau sy'n gorfod darparu gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr hwn?

8. Mae'r Cod hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau canlynol ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr yn unol â'r Rhagarweiniad, hwn a Phenodau 1 i 4³:
 - Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
 - Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol
 - Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG)
 - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol)
 - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM)
 - Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi
 - Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol (NOMS)
 - Y Bwrdd Parôl
 - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
 - Pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
 - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
 - Goruchaf Lys y DU
 - Unedau Gofal i Dystion
 - Timau Troseddwy'r Ifanc.
9. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau canlynol ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr yn unol â Phenod 5 yn unig (ac, yn unol â hynny, nid yw'r Rhagarweiniad hwn na Phenodau 1 i 4 y Cod hwn yn gymwys mewn unrhyw ffordd i'r sefydliadau hynny):
 - Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
 - Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (Gorfodaeth Droseddol)
 - Asiantaeth yr Amgylchedd
 - Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
 - Y Comisiwn Hapchwarae
 - Yr Adran Gweithredol a Diogelwch
 - Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
 - Y Swyddfa Gartref (Gorfodaeth Mewnffudo)
 - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
 - Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
 - Yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd
 - Y Swyddfa Twyll Difrifol.
10. Cyfeirir at sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn o dan y Cod hwn fel **darparwyr gwasanaethau**.
11. Efallai bod sefydliadau eraill, yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector, yn darparu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr (gweler yr eirfa), ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y Cod hwn.

³ Mae'r Rhagarweiniad a 'Phenod 1 ar hawliau estynedig' yn rhan o'r Cod ac maent yn cynnwys rhwymedigaethau pwysig. Dylai pob sefydliad gynhyrchu canllawiau gweithredol ynglŷn â sut mae cyflawni'r dyletswyddau perthnasol. Anogir darparwyr gwasanaethau i drafod gyda diodefwyr y lefel gwasanaeth sydd ei angen arnynt er mwyn bodloni eu hanghenion.

12. Pan fo angen iddynt rannu gwybodaeth o dan y Cod hwn, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wneud hynny yn effeithiol ac yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth berthnasol arall.
13. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gyfeirio diodefwyr at y tudalennau perthnasol ar wefan GOV.UK ac egluro sut y gall diodefwr roi adborth.
14. Mae **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau** (PCC) yn cael eu hethol yn lleol er mwyn sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori â diodefwyr wrth bennu blaenoriaethau plismona yn eu hardal a sicrhau bod Prif Gwnstabl heddlu eu hardal yn atebol. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd gyfatebol gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i weithio mewn modd sy'n darparu system cyfiawnder troseddol leol effeithiol ac effeithlon.
15. Nid yw'r **Comisiynydd Dioddefwr a Thystion** ('Y Comisiynydd Dioddefwyr') yn cael ei restru fel darparwr gwasanaeth o dan y Cod hwn. Mae hyn oherwydd bod gan y Comisiynydd Dioddefwyr ddyletswydd statudol i adolygu'r Cod hwn yn rheolaidd. Rhan o rôl y Comisiynydd Dioddefwyr yw gwrando ar safbwyntiau diodefwyr, deall y system cyfiawnder troseddol o'u safbwynt hwy a cheisio helpu i wella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

Pa fath o gymorth ddylwn i ei gael fel diodefwr trosedd?

16. Dylai bod gan ddiodefwyr troseddau, yn cynnwys perthnasau agos mewn profedigaeth, fynediad i wybodaeth am yr ystod o wasanaethau cymorth i ddiodefwyr (gweler yr eirfa) sydd ar gael. Gall sefydliadau a gomisiynir yn lleol neu'n genedlaethol ddarparu'r gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr yma. Byddwch yn cael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr pan fo hynny'n ofynnol o dan y Cod hwn, ond nid yw hyn yn eich rhwystro rhag cael mynediad i'r gwasanaethau hynny yn uniongyrchol os ydych yn dymuno hynny. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyfathrebu â chi mewn iaith syml a hygyrch, gan gymryd camau rhesymol (e.e. EasyRead, Braille neu ddefnyddio Cyfryngwr Cofrestredig) i'ch helpu i ddeall a chael eich deall. Wrth ystyried camau priodol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried unrhyw nodweddion personol perthnasol allai effeithio ar eich gallu i ddeall neu i gael eich deall.
17. Os, o ganlyniad i effaith trosedd, bod angen cymorth arnoch i ddeall neu i gael eich deall pan fyddwch yn cysylltu â'r heddlu y tro cyntaf, mae gennych **hawl** i gael cwmni person o'ch dewis oni bai fod yr heddlu yn ystyried y byddai hynny'n gwrthdaro â'ch buddiannau neu'n niweidiol i'r ymchwiliad neu'r erlyniad.
18. Mae gennych **hawl** derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â beth ddylech ei dderbyn gan y system cyfiawnder troseddol, megis y "daflen wybodaeth i ddiodefwyr trosedd", neu fanylion am wefan sy'n cynnwys y wybodaeth honno. Yn ddarostyngedig i baragraff 19, mae'n rhaid cynnig mynediad i'r wybodaeth ganlynol i chi yn dilyn eich cysylltiad cyntaf â'r heddlu:

- o ble a sut mae cael cyngor neu gymorth, yn cynnwys mynediad i gymorth meddygol, unrhyw gymorth arbenigol arall (megis cymorth seicolegol) a chymorth arall mewn perthynas â llety;
 - beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn riportio trosedd, a phwy ddylech gysylltu â hwy petai gennych unrhyw gwestiynau am yr achos;
 - unrhyw fesurau sydd ar gael er mwyn eich gwarchod, os bydd angen hynny;
 - sut i hawlio iawndal;
 - y trefniadau sydd ar gael os nad yw'r diodefwr yn bresennol yng Nghymru a Lloegr;
 - argaeledd gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
 - sut mae cwyno am ddarparwr gwasanaeth;
 - argaeledd gwasanaethau cyfiawnder adferol;
 - sut i adennill treuliau fel tyst mewn treial troseddol.
19. Gall swm neu fanylder y wybodaeth ym mharagraff 18 amrywio yn ddibynnol ar y math o drosedd, eich amgylchiadau personol, neu ei pherthnasedd i gam penodol yr ymchwiliad neu achos troseddol.

Gan bwy mae'r hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod Diodefwyr hwn?

Diodefwyr trosedd, pan fo cyhuddiad wedi cael ei wneud

20. Mae gennych **hawl** derbyn gwasanaethau o dan y Cod os ydych wedi honni i'r heddlu eich bod wedi diodef niwed (yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd) a achoswyd yn **uniongyrchol** gan drosedd, neu fod honiad o'r fath wedi cael ei wneud ar eich rhan, neu os cysylltir â chi fel diodefwr yn ystod ymchwiliad. Os ydych wedi bod yn dyst i drosedd, ond nad ydych yn ddiodefwr, gallwch gael mynediad i wasanaethau o dan y Siarter Troseddwyr, yn hytrach na dan y Cod hwn.
21. Mae gennych hawl i dderbyn y gwasanaethau a nodir yn y Cod hwn os digwyddodd y drosedd yng Nghymru neu Loegr, neu os yw'r gwasanaethau yn gysylltiedig ag achos troseddol sy'n cael ei gynnal yng Nghymru neu Loegr.⁴
22. Mae gennych hawl cael mynediad i wasanaethau cymorth i ddiodefwyr ar unrhyw adeg, p'un a ydych wedi riportio trosedd neu beidio, ac ar ôl i'r ymchwiliad neu'r erlyniad ddod i ben. Pan na fo'r diodefwr yn bresennol yng Nghymru a Lloegr neu wedi gadael tir Cymru neu Loegr, dylai pa bynnag wlad y mae'r diodefwr yn bresennol ynddi ddarparu gwasanaeth cymorth i'r diodefwr hwnnw.

Perthnasau agos i ddiodefwr trosedd mewn profedigaeth

23. Mae gan berthnasau agos i'r ymadawedig hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod fel diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol.

⁴ Gall cymhwysedd i dderbyn iawndal gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddibynnu ar eich preswylad a'ch cenedligrwydd oni bai eich bod yn cael eich clustnodi'n bendant fel diodefwr masnachu pobl, neu wedi derbyn lloches, gwarchodaeth ddyngarol neu ganiatâd dewisol i aros.

Llefarydd ar ran teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i drosedd

24. Os bydd teulu yn dioddef profedigaeth o ganlyniad uniongyrchol i drosedd, mae gan berthnasau agos yr ymadawedig **hawl** i enwi llefarydd ar ran y teulu fydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer derbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn. Os na all y perthnasau agos ddewis llefarydd ar ran y teulu, mae'n rhaid i'r Uwch Swyddog Ymchwilio sy'n gweithio ar yr achos ddewis llefarydd ar ran y teulu.
25. Os bydd teulu yn dioddef profedigaeth yn dilyn damwain ffordd pan fo'r heddlu yn ymchwilio i p'un a gyflawnwyd trosedd neu beidio, gellir dewis llefarydd ar ran y teulu fel y nodir uchod.

Y llefarydd ar ran y teulu ar gyfer dioddefwyr troseddau sydd ag anabledd neu ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael anafiadau mor ddrwg o ganlyniad i drosedd fel nad ydynt yn gallu cyfathrebu

26. Os oes gennych anabledd, neu eich bod wedi cael anafiadau mor ddrwg o ganlyniad i drosedd fel nad ydych yn gallu cyfathrebu, mae gennych chi neu berthnasau agos i chi **hawl** i enwi llefarydd ar ran y teulu fydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer derbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn.

Rhiant neu warchodwr dioddefwr sy'n iau nag 18 oed

27. Os ydych yn ddiodefwyr trosedd sy'n iau nag 18 oed, mae gennych chi, a'ch rhiant neu warchodwr fel arfer, **hawl** i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn.⁵

Busnesau sydd wedi dioddef troseddau

28. Dim ond **hawl** i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn yn unol â Phennod 4 sydd gan fusnesau sydd wedi dioddef troseddau. Mae hyn yn cynnwys busnesau neu fentrau (megis elusennau) ond nid cyrff y sector cyhoeddus, eu hasiantaethau neu is-sefydliadau eraill.

Gwybodaeth ychwanegol i bawb sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod

29. Mae gennych **hawl** i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod heb ystyried a yw rhywun wedi'i gyhuddo neu ei gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud â'r ymddygiad troseddol a heb ystyried a ydych wedi penderfynu peidio â chydweithredu â'r ymchwiliad.⁶
30. Os penderfynir, ar ôl ymchwiliad, nad ydych wedi dioddef ymddygiad troseddol, byddwch chi, neu'r llefarydd teuluol os yw'n berthnasol, yn cael eich hysbysu gan y darparwr gwasanaeth perthnasol nad oes gennych **hawl** bellach i dderbyn gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn.

Gwybodaeth a ddarperir o dan y Cod

31. Pan fo nifer fawr o ddiodefwyr yn gysylltiedig ag achos, neu pan fo hynny'n briodol fel arall mewn achosion eithriadol, gall y darparwr gwasanaeth gyfathrebu gwybodaeth y mae gan ddiodefwyr **hawl** ei dderbyn o dan y Cod hwn drwy sianelau eraill megis gwefan y darparwr gwasanaeth.

⁵ Oni bai bod eich rhiant neu warchodwr yn destun ymchwiliad neu wedi cael ei gyhuddo gan yr heddlu mewn cysylltiad â'r drosedd, neu os ym marn resymol y darparwr gwasanaeth dan sylw nad yw er budd pennaf i chi bod eich rhiant neu warchodwr yn derbyn y cyfryw wasanaethau.

⁶ Os ydych yn ystyried gwneud cais am iawndal am anafiadau troseddol i'r Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol, mae'n bwysig cofio y caiff dyfarnaliad ei ddal yn ôl os nad ydych wedi cydweithredu i'r graddau mwyaf posibl i ddod â'r ymosodwr o flaen ei well.

32. Nid oes dim yn y Cod hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth pan allai datgelu'r wybodaeth honno:

- a. arwain at niwed i unrhyw berson;
- b. effeithio ar briodoldeb unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad, neu niweidio unrhyw achos sifil neu droseddol fel arall;
- c. gwrthdaro, ym marn y darparwr gwasanaeth, â buddiannau diogelwch cenedlaethol.

Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd

33. Os nad ydych yn deall neu'n siarad Saesneg, mae gennych hawl i ofyn am wasanaeth cyfieithu i iaith yr ydych yn ei deall:

- wrth riportio trosedd⁷;
- wrth gael eich cyfweld gan yr heddlu; ac
- wrth roi tystiolaeth fel tyst.

34. Os nad ydych yn deall neu'n siarad Saesneg, mae gennych hawl i ofyn am gyfieithiad o'r wybodaeth ganlynol:

- cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd a riportiwyd;
- pan fo'n hanfodol at ddibenion y cyfweliad neu'r achos llys i weld dogfen benodol a ddatgelir i chi, copi o rannau perthnasol o'r ddogfen honno;
- y ddogfen sy'n eich hysbysu am ddyddiad, amser a lleoliad y treial; a

- chanlyniad achos troseddol y mae gennych hawl ei dderbyn o dan y Cod hwn, a rhesymau cryno o leiaf am y penderfyniad pan fo hynny ar gael.

35. Gellir darparu cyfieithiad llafar neu grynodedb o'r wybodaeth ym mharagraff 34, oni fyddai hynny'n effeithio ar degwch yr achos. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu o'r fath ar gael. Mewn gwrandawiaadau yng Nghymru, mae gennych hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth roi tystiolaeth a bydd y llys yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol.⁸

36. Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad i beidio â darparu gwasanaethau cyfieithu, mae gennych hawl i wneud cwyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol. Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol ystyried eich cais yn unol â'r weithdrefn gwyno a geir yn Adran 9 o Bennod 2, Rhan A (ar gyfer oedolion) ac adran 9 o Bennod 3, Rhan A (ar gyfer plant a phobl ifanc).

Beth os nad wyf yn dymuno derbyn y gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn?

37. Efallai y penderfynwch nad ydych am gael rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth neu'r gwasanaethau y mae gennych hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn, neu eich bod am roi'r gorau i dderbyn y rhain yn ddiweddarach. Os felly, gallwch drafod â'r darparwr gwasanaeth beth fyddai'r ffordd orau o deilwra'r hawliau hyn i'ch anghenion chi.

38. Cewch ddewis aildddechrau derbyn y gwasanaethau'n unol â'r Cod ar unrhyw adeg tra bo'r ymchwilio i'r achos yn parhau.

⁷ Mae gennych hawl riportio trosedd mewn iaith yr ydych yn ei deall neu gyda'r cymorth ieithyddol angenrheidiol os nad ydych yn siarad Saesneg.

⁸ Mae Adran 22(1) Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu'r canlynol: "mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru gall unrhyw barti, tyst neu unrhyw berson arall sy'n dymuno ei defnyddio, ddefnyddio'r iaith Gymraeg". Nid oes angen rhybudd ymlaen llaw ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg ac eithrio mewn achosion yn Llys y Goron. Fodd bynnag, ar brydiau mae angen trefnu cyfieithydd, a bydd rhybudd yn cael ei roi ymlaen llaw i Uned yr Iaith Gymraeg fel y gellir trefnu'r darpariaethau angenrheidiol.


Beth sy'n digwydd os nad wyf yn derbyn y gwasanaethau y mae gennyf hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn?

39. Mae Adran 9 Pennod 2, Rhan A (ar gyfer oedolion) ac adran 9 Pennod 3, Rhan A (ar gyfer plant a phobl ifanc) a pharagraffau 1.49 - 1.53 Pennod 5 y Cod hwn yn egluro'r hawliau sydd gennych os ydych am wneud cwyn ynghylch y gwasanaethau yr ydych wedi'u cael.

Beth os wyf am roi adborth neu gynnig awgrymiadau am y gwasanaethau yr wyf yn eu derbyn yn unol â'r Cod hwn?

40. Bydd gwybodaeth ar wefan y darparwyr gwasanaeth perthnasol am y ffordd orau o gysylltu â nhw i roi adborth neu gynnig awgrymiadau am y gwasanaethau yr ydych wedi'u cael ganddynt. Bydd darparwyr gwasanaeth yn falch o gael adborth bob amser i'w helpu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddiodefwyr ar bob cam yn y broses.

Taith dioddefwr drwy'r System Cyfiawnder Troseddol




Allwedd

Camau allweddol o wybodaeth mewn achos

Diwedd Achos: Dioddefwr yn cael gwybod beth yw'r canlyniad

- UGD Unedau Gofal i Dystion
- YOT Timau Troseddwy'r Ifanc
- GEG Gwasanaeth Erllyn y Goron
- DPD Datganiad Personol Dioddefwr
- GLITEM Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
- CAAT Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- CCD Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr
- AA Aseiad o Anghenion
- PC Pwynt Cyswllt
- RJ Cyfiawnder Adferol



Pennod 1

**Hawliau
Estynedig**

Hawliau Estynedig

- 1.1 Mae'r Cod hwn yn rhoi hawliau estynedig i ddiodefwyr yn y categorïau canlynol gan ei bod yn fwy tebygol y bydd angen mwy o gymorth a gwasanaethau arnynt drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol:
- diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol;
 - diodefwyr a dargedir yn gyson; a
 - diodefwyr sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth.
- Sut y byddaf yn gwybod a wyf yn un o'r tri grŵp sydd â hawliau estynedig?***
- 1.2 Pwrpas y tri chategori yw sicrhau y bydd mwy o gymorth ar gael i'r diodefwyr sydd â'r angen mwyaf. Mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael gwasanaethau estynedig o dan fwy nag un categori yr un pryd. Er enghraifft, os ydych o dan 18 mlwydd oed, byddwch yn gymwys i gael gwasanaethau estynedig yn awtomatig gan eich bod yn ddiodefwr sy'n agored i niwed, heb ystyried a ydych hefyd wedi diodef un o'r troseddau mwyaf difrifol neu'n ddiodefwr sy'n cael ei dargedu'n gyson. Bydd rhywun sydd wedi diodef trais domestig yn gymwys i gael gwasanaethau estynedig gan ei fod wedi diodef un o'r troseddau mwyaf difrifol, ond gallai fod yn gymwys i gael gwasanaethau estynedig hefyd am ei fod yn ddiodefwr sy'n agored i niwed neu'n cael ei fygwth.
- 1.3 Y darparwr gwasanaeth perthnasol sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynghylch a ydych yn un neu ragor o'r tri chategori.
- 1.4 Mae gan bawb sydd wedi diodef trosedd yr hawl i gael eu hasesu gan yr heddlu er mwyn canfod unrhyw anghenion neu gymorth sydd ei angen, yn cynnwys a fuasent yn elwa o unrhyw Fesurau Arbennig, ac i ba raddau. Bydd hyd a chynnwys yr asesiad hwn yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r trosedd ac ar eich anghenion penodol chi. Bydd yr asesiad yn ystyried eich nodweddion personol, natur ac amgylchiadau'r trosedd, a'ch barn chi. Po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei rhoi yn ystod yr asesiad, mwyaf fydd y lefel o gymorth yn cael ei haddasu i'ch anghenion penodol chi.
- 1.5 Gan y gallai eich anghenion newid yn ystod yr ymchwiliad i'r ymddygiad troseddol oherwydd eich ieched, bygythiadau neu unrhyw reswm arall, rhaid i ddarparwr gwasanaeth roi cyfle i chi gael ail asesiad os tynnir eu sylw at y newid yn eich amgylchiadau.
- 1.6 Wedi i ddarparwr gwasanaeth benderfynu eich bod yn gymwys i gael hawliau estynedig o dan y Cod hwn, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hwnnw sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo yn ôl yr angen i ddarparwr gwasanaeth eraill sydd â chyfrifoldebau'n unol â'r Cod hwn, ac i wasanaethau i ddiodefwyr os yw'n briodol. Rhaid i ddarparwr gwasanaeth eich holi'n gyntaf i weld a ydych yn fodlon iddynt roi gwybodaeth amdanoch i wasanaethau i ddiodefwyr.

1.7 Os nad yw diodefwyr yn perthyn i un o'r tri chategori sydd wedi'u disgrifio isod, caiff y darparwr gwasanaeth, er nad oes rhaid iddo wneud hynny, ddefnyddio disgrisiwn a darparu hawliau estynedig yn unol ag un o'r categorïau hyn yn ôl amgylchiadau'r unigolyn dan sylw ac effaith y trosedd arno.

Diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol

1.8 Byddwch yn gymwys i gael hawliau estynedig yn unol â'r Cod hwn fel diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol os ydych yn berthynas agos i rywun sydd â hawliau estynedig a'ch bod mewn profedigaeth o ganlyniad i ymddygiad troseddol; yn ddiodefwr trais domestig, trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu pobl, ymgais i lofruddio, llathruddo, camgarcharu, cynnau tân gan fwriadu peryglu bywyd a chlwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol. Mae'r hawliau estynedig ychwanegol i berthnasau agos mewn profedigaeth wedi'u nodi ar wahân mewn gwahanol rannau o'r Cod hwn.

Diodefwyr a dargedir yn gyson

1.9 Byddwch yn gymwys i gael hawliau estynedig yn unol â'r Cod hwn fel diodefwr sy'n cael ei dargedu'n gyson os cawsoch eich targedu'n fynych fel diodefwr uniongyrchol i drosedd dros gyfnod, yn enwedig os cawsoch eich targedu'n fwriadol neu os ydych wedi diodef oherwydd ystelcio neu aflonyddu parhaus.

Diodefwyr sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth

1.10 Byddwch yn gymwys i gael hawliau estynedig yn unol â'r Cod hwn fel diodefwr sy'n **agored i niwed**⁹ os:

(a) ydych dan 18 mlwydd oed ar adeg y trosedd, neu

(b) os yw'n debygol y bydd effaith ar ansawdd eich tystiolaeth:

i) o ganlyniad i anhwylder meddyliol sydd gennych yn ôl yr ystyr a geir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983;

ii) gan fod nam sylweddol arall ar eich deallusrwydd a'ch gweithredu cymdeithasol; neu

iii) gan fod gennych anabledd corfforol neu eich bod yn diodef o anhwylder corfforol.

1.11 Byddwch yn gymwys i gael hawliau estynedig yn unol â'r Cod hwn fel **diodefwr sy'n cael ei fygwth** os yw'r darparwr gwasanaeth yn credu y bydd yr ofn neu ofid sydd arnoch ynghylch rhoi tystiolaeth yn y llys yn effeithio ar ansawdd eich tystiolaeth.¹⁰

1.12 Wrth asesu a yw **diodefwr wedi'i fygwth**, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ystyried y canlynol:

- unrhyw ymddygiad tuag at y diodefwr ar ran y sawl a gyhuddwyd, aelodau teulu neu un o gydnabod y sawl a gyhuddwyd, ac unrhyw un arall sy'n debygol o fod wedi'i gyhuddo neu o fod yn dyst mewn achos llys posibl;

- natur ac amgylchiadau honedig y trosedd y mae achos llys posibl yn berthnasol iddo. Ystyrir yn awtomatig fod diodefwyr trosedd rhywiol neu fasnachu pobl yn cael eu bygwth;

- oed y diodefwr ac, os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol y diodefwr, ei gredoau crefyddol neu safbwyntiau gwleidyddol, ei darddiad ethnig, a'i amgylchiadau o ran y cartref a chyflogaeth.

⁹ Mae hyn wedi'i seilio ar y meini prawf yn adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 y bydd y llys yn eu defnyddio i benderfynu a yw rhywun yn gymwys i gael Mesurau Arbennig (gweler paragraffau 1.13-1.15 o Bennod 1).

¹⁰ Dyma'r prawf yn adran 17 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 y bydd y llys yn ei ddefnyddio i benderfynu a yw rhywun yn gymwys i gael Mesurau Arbennig (gweler paragraffau 1.13-1.15 o Bennod 1).

Mesurau Arbennig

- 1.13 Os byddwch yn rhoi tystiolaeth mewn llys, byddwch yn gwneud hynny fel tyst. Mesurau Arbennig yw'r enw ar y mesurau y gall y llys eu gorchymyn er mwyn helpu **tystion sy'n agored i niwed neu wedi'u bygwth** i roi'r dystiolaeth orau mewn llys. Mae Mesurau Arbennig yn cael eu trafod ym Mhenodau 2, 3 a 5 o'r Cod. Pan fydd darparwr gwasanaeth perthnasol yn asesu'ch anghenion ac mae hyn yn arwain at nodi eich bod yn gymwys ar gyfer Mesurau Arbennig, bydd y darparwr gwasanaeth perthnasol yn trafod y mesurau sydd ar gael gyda chi ac yn cofnodi beth yn eich tyb chi fyddai'n eich helpu orau i roi tystiolaeth. Mae gennych **hawl** i ofyn i'r darparwr gwasanaeth perthnasol - efallai mai'r heddlu neu eich Uned Gofal i Dystion fydd hwn - am gael Mesurau Arbennig yn ystod y treial i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau. Bydd GEG yn ystyried eich barn wrth benderfynu a ddylid gwneud cais neu beidio. Mewn achosion lle mae GEG yn gwneud cais am Fesurau Arbennig, mae gennych **hawl** i gael gwybod canlyniad y cais hwn. Y llys fydd yn penderfynu a fydd yn rhoi gorchymyn am Fesurau Arbennig. Wedi i'r llys orchymyn Mesurau Arbennig, bydd gennych **hawl** i'w cael. Os ydych yn **ddiodefwyr sy'n agored i niwed neu wedi'i fygwth** (yn unol â pharagraffau 1.10-1.12 uchod) gallai'r Mesurau Arbennig canlynol fod ar gael:

- sgriniau / lleni yn ystafell y llys fel nad oes raid i'r tyst weld y diffynnydd, ac mewn rhai achosion, y galeri cyhoeddus;
- cysylltiad fideo byw sy'n galluogi'r tyst i roi tystiolaeth y tu allan i ystafell y llys. Gallai hyn fod o ystafell ar wahân yn y llys, neu o

safle cysylltiad byw penodol y tu allan i adeilad y llys;

- tystiolaeth mewn preifatrwydd - gellir clirio'r galeri cyhoeddus mewn achosion sy'n ymwneud â throedd rywiol, masnachu pobl, neu pan fo'r llys yn fodlon y gall rhywun heblaw'r cyhuddedig geisio bygwth y tyst;
- barnwyr ac eiriolwyr yr amddiffyniad a'r erlyniad yn diosg eu wigiau a'u gynau;
- recordio datganiadau ar fideo - gall y tyst ddefnyddio datganiad sydd wedi'i recordio ymlaen llaw ar fideo yn brif dystiolaeth i'r erlyniad.

- 1.14 Os ystyrir eich bod yn ddiodefwyr sy'n agored i niwed (yn unol â paragraff 1.10 uchod), yn ychwanegol at y Mesurau Arbennig uchod, gellir defnyddio cymhorthion cyfathrebu, megis byrddau wyddor neu gymorth gan Gyfryngwyr Cofrestredig (gweler paragraff 1.15 isod).

Cyfryngwyr Cofrestredig

- 1.15 Mae Cyfryngwyr Cofrestredig yn arbenigwyr sy'n helpu tystion sy'n agored i niwed, sydd ag anhawster cyfathrebu a aseswyd, i roi eu tystiolaeth orau yn y llys. Hefyd gallant helpu diodefwyr sy'n cael eu cyfweld i roi eu tystiolaeth i'r heddlu. Caiff y cyfryngwr ei gymeradwyo gan y llys ac mae'n gallu helpu i egluro'r cwestiynau a'r atebion yn ôl yr angen i helpu'r tyst ond heb newid sylwedd y dystiolaeth.

Pennod 2

Dioddefwyr sy'n Oedolion

Dioddefwyr sy'n Oedolion

Rhan A: Hawliau Dioddefwyr

Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu

(i) Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddiodefwyr ac asesiadau o anghenion

- 1.1 Mae gennych **hawl** i dderbyn y canlynol gan yr heddlu:
- cydnabyddiaeth ysgrifenedig eich bod wedi riportio trosedd, yn cynnwys manylion elfennol am y drosedd. Gallai'r gydnabyddiaeth ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr, hysbysiad electronig megis e-bost neu neges destun, neu gall fod yn neges a ysgrifennwyd â llaw. Efallai y byddwch yn gwneud cais i beidio â derbyn y cyfryw gydnabyddiaeth. Pan fo'r heddlu yn ystyried y gall anfon y gydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch arwain at risg o niwed i chi (er enghraifft, mewn achosion o drais domestig), efallai y byddant yn cytuno i beidio ag anfon un atoch;
 - eglurhad clir o'r hyn y dylech ei dderbyn gan y system cyfiawnder troseddol pan fyddwch yn riportio trosedd neu pan y cysylltir â chi fel diodefwyr yn ystod ymchwiliadau;
 - asesiad o p'un a ydych eisiau cymorth neu beidio, ac os ydych, pa help neu gymorth sydd ei angen arnoch. Bydd hyn yn helpu i bennu a ydych yn un o'r tri chategori o ddiodefwyr a all fod angen mwy o gymorth arnynt, ac i benderfynu a fydddech yn elwa o dderbyn Mesurau Arbennig ac i ba raddau. Gall gwasanaethau i ddiodefwyr wneud asesiad manylach ar ran yr heddlu;
 - cael un ai gwybodaeth ysgrifenedig (yn unol â pharagraffau 18 a 19 y **Rhagarweiniad**) am yr hyn i'w ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol, fel y daflen "gwybodaeth i ddiodefwyr troseddau", neu fanylion gwefan sy'n cynnwys yr un wybodaeth, cyn gynted â phosibl, a dim mwy na 5 diwrnod gwaith ar ôl rhoi gwybod am drosedd neu ar ôl cysylltu â chi fel tyst yn ystod ymchwiliadau;
 - cael gwybod pa mor aml y ceuwch ddiweddariadau am sefyllfa'r achos ar ôl trafod hyn â'r heddlu;
 - eglurhad, o fewn 5 diwrnod gwaith, o benderfyniad i beidio ag ymchwilio i drosedd;
 - cael gwybod pan fydd ymchwiliad i'r achos wedi'i gwblhau heb i neb gael ei gyhuddo, a chael eglurhad o'r rhesymau am hyn.;
- 1.2 Mae gwasanaethau i ddiodefwyr yn sefydliadau sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i ddiodefwyr troseddau i'w helpu i ymdopi ac ymadfer ar ôl trosedd. Bydd yr heddlu yn egluro i chi y byddant yn trosglwyddo eich manylion yn awtomatig i wasanaethau i ddiodefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl riportio'r drosedd. Mae gennych **hawl** gofyn i'r heddlu i beidio â throsglwyddo eich manylion i wasanaethau cymorth i ddiodefwyr. Os ydych wedi diodefwyr rhywiol neu drais domestig, neu os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, bydd yr heddlu'n gofyn am ganiatâd penodol gennych cyn anfon eich manylion i wasanaethau cymorth i ddiodefwyr.

- 1.3 Os ydych yn gwneud datganiad tyst, rhaid i'r heddlu egluro i chi y gall hyn arwain at yr angen i chi roi tystiolaeth mewn llys os bydd yr achos yn mynd i dreial.
- 1.4 Mae gennych **hawl** i gael gwybodaeth gan yr heddlu am wasanaethau i ddiodefwyr gan gynnwys eu manylion cyswllt fel y gallwch gael cymorth ganddynt ar unrhyw adeg.
- 1.5 Mae gennych hawl i gael y wybodaeth ganlynol gan yr heddlu ac i gael eglurhad o'r rhesymau o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i unigolyn a amheuir gael:
- ei arestio;
 - ei gyfsweld ar ôl ei rybuddio;
 - ei ryddhau heb ei gyhuddo;
 - ei ryddhau ar fechniaeth yr heddlu, neu os bydd amodau mechniaeth yr heddlu'n cael eu newid neu eu canslo.
- 1.6 Os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth, mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith.
- 1.7 Cewch drafod â'r heddlu a chytuno ar amseroedd gwahanol ar gyfer derbyn y wybodaeth a'r gwasanaethau ym mharagraffau 1.1-1.5 i weddu i'ch anghenion.
- 1.8 Os ydych yn cael eich cyfsweld gan yr heddlu, mae gennych **hawl**:
- i gael rhywun o'ch dewis gyda chi, oni bai fod penderfyniad rhesymedig wedi'i wneud i'r gwrthwyneb
 - i gynnal unrhyw gyfweiliadau â chi heb oedi anghyfiawnadwy;
 - i gyfyngu nifer y cyfweiliadau a gynhelir â chi i'r rhai sy'n gwbl angenrheidiol yn unig ar gyfer eu hymchwiliad ;
- i gyfyngu ar nifer yr archwiliadau meddygol a'u cynnal pan eu bod yn gwbl angenrheidiol yn unig at ddiben yr achos troseddol;
 - i gynnal y cyfweiliad, pan fo hynny'n angenrheidiol, mewn lleoliad a ddyluniwyd neu a addaswyd at y diben hwnnw;
 - i gael yr un person, pan fo'n bosibl, yn cynnal yr holl gyfweiliadau (oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad);
 - i gael cyfle i berson o'r un rhyw â chi gynnal y cyfweiliad pan ydych wedi dioddef trais rhywiol, trais yn seiliedig ar ryw, neu drais domestig (bydd unrhyw gais yn cael ei fodloni pan fo'n bosibl oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad).
- 1.9 Bydd yr heddlu yn sicrhau, pan fo'n bosibl, na fyddwch chi nac aelodau o'ch teulu yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn a amheuir tra byddwch ar un o safleoedd yr heddlu.
- 1.10 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, **os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth, mae gennych hawl** i gael y canlynol gan yr heddlu:
- eglurhad o wybodaeth am Fesurau Arbennig, os yw'n briodol (gweler Pennod 1, paragraffau 1.13-1.14);
 - eich cyfeirio at sefydliad arbenigol, os yw'n briodol ac os oes un ar gael;
 - gwybodaeth am therapi a chwmsela cyn treial os yw'n briodol;
 - ar ôl cael gwybod bod achos wedi'i gwblhau heb i neb gael ei gyhuddo, eich holi a ydych am gael gwybod os bydd yr ymchwiliad yn aildechrau. Rhaid i'r heddlu ystyried eich barn os bydd yr achos yn cael ei adolygu.

- 1.11 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, os ydych yn **berthynas agos i ddiodefwyr a fu farw o ganlyniad i ymddygiad troseddol**, mae gennych hawl i'r canlynol:
- cael Swyddog Cyswllt Teulu wedi'i neilltuo i chi gan yr heddlu, os yw'r Uwch Swyddog Ymchwilio yn credu bod hyn yn briodol. Bydd hyn yn digwydd yn y rhan fwyaf o achosion;
 - cael cynnig cyngor ar brofedigaeth a gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr sydd ar gael gan yr heddlu.

(ii) Datganiad Personol Dioddefwr

- 1.12 Mae Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) yn rhoi cyfle i chi i egluro yn eich geiriau eich hun sut y mae trosedd wedi effeithio arnoch, yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae hyn yn wahanol i ddatganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd ar y pryd, fel yr hyn y gwnaethoch ei weld neu ei glywed. Mae'r DPD yn rhoi **llais** i chi yn y broses cyfiawnder troseddol. Ond ni chewch fynegi eich barn am y ddedfryd neu'r gosb y dylai'r unigolyn a amheuir ei chael - mater i'r llys yw penderfynu ar hynny.
- 1.13 Mae gennych **hawl** i wneud DPD ynghylch trosedd ar yr un pryd â rhoi datganiad tyst i'r heddlu am yr hyn a ddigwyddodd. Wrth wneud eich DPD, mae gennych **hawl** i ddweud a fyddech yn hoffi i'ch DPD gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw wedi'i recordio) yn y llys os ceir y diffynnydd yn euog. Mae gennych **hawl** i ddweud hefyd a fyddech yn hoffi darllen eich DPD yn uchel eich hun neu ei gael wedi'i ddarllen yn uchel gan rywun arall (er enghraifft, aelod o'r teulu neu eiriolwr GEG). Y llys fydd yn penderfynu pwy fydd yn darllen y DPD, ond bydd bob amser yn ystyried eich dymuniadau, ac yn seilio ei benderfyniad arnynt oni bai bod yna reswm da dros beidio â gwneud hynny.
- 1.14 Os nad ydych am ddarllen eich DPD yn uchel eich hun neu ei gael wedi'i ddarllen yn uchel ar eich rhan, nid oes yn rhaid i chi ddewis hyn. Bydd eich DPD yn dal i gael ei ystyried yn rhan o'r dystiolaeth gerbron y llys cyn y dedfryd os ceir y diffynnydd yn euog. Os byddwch, i gychwyn, yn dewis cael eich DPD wedi'i ddarllen yn uchel ond yn penderfynu wedyn nad ydych am i hyn ddigwydd, cewch newid eich meddwl.
- 1.15 Er bod gennych hawl i wneud DPD, nid oes rhaid i chi wneud hynny. Os nad ydych yn sicr ar y dechrau a ydych am wneud DPD wrth roi datganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd, cewch **ddewis** gwneud DPD yn ddiweddarach - ar yr amod eich bod yn gwneud hynny cyn i'r achos ddod i'r llys neu cyn dedfryd yr unigolyn a amheuir. Rhaid cofio, os byddwch yn **dewis peidio** â gwneud DPD pan gewch y cynnig cyntaf, ei bod yn bosibl na chewch gyfle arall i wneud DPD yn ddiweddarach. Y rheswm am hyn yw y gallai'r llys ddelio â'r achos yn gyflym iawn.
- 1.16 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, os ydych wedi **dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol (neu'n berthynas agos sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i'r trosedd)**, yn **ddiodefwyr sy'n cael ei dargedu'n gyson neu'n ddiodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael ei fygwth**, mae gennych **hawl** i wneud DPD i'w roi i'r heddlu ar unrhyw adeg cyn y ddedfryd, pa un a fyddwch yn gwneud datganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd neu beidio.
- 1.17 Os na fyddwch yn rhoi datganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd ac os nad ydych yn ddiodefwyr sydd yn y tri chategori sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 1.15 uchod, caiff yr heddlu drefnu i chi wneud DPD yn ôl eu disgrisiwn.

1.18 Wedi i'r datganiad gael ei gwblhau a'i lofnodi, ni ellir addasu'r DPD na'i dynnu'n ôl (fel unrhyw ddatganiad ffurfiol arall) os ydych wedi ailystyried eich geiriau. Fodd bynnag, cewch gyflwyno DPD ychwanegol i'r heddlu i ategu neu egluro'ch DPD gwreiddiol.

(iii) Datganiad Personol Dioddefwr a'r Llys

1.19 Bydd DPD yn cael ei rannu bob amser â Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG). Os bydd yr achos yn dod i'r llys, yna bydd y DPD yn cael ei gyflwyno i'r llys ac i'r amddiffyniad os yw wedi'i gynnwys yn y dystiolaeth ar gyfer y treial, felly bydd yr unigolyn a amheuir yn gallu ei weld fel arfer.

1.20 Os ceir y diffynnydd yn euog, mae gennych **hawl** i ddweud a fyddech yn hoffi i'ch DPD gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw wedi'i recordio) yn y llys. Mae gennych **hawl** i ddweud hefyd a fyddech yn hoffi darllen eich DPD yn uchel eich hun neu ei gael wedi'i ddarllen yn uchel (gan erlynydd GEG fel arfer). Cyn penderfynu a ydych am i'r DPD gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae yn y llys, byddwch yn cael eich cyngori am y canlyniadau posibl, gan gynnwys y gallai'r cyfryngau roi sylw i'ch DPD yn eu hadroddiadau. Hefyd, gallai'r amddiffyniad ofyn cwestiynau i chi am eich DPD yn y llys.

1.21 Os byddwch yn gofyn am i'ch DPD gael ei ddarllen yn uchel neu gael ei chwarae yn y llys, y llys fydd yn penderfynu a ddylid darllen y DPD yn uchel neu ei chwarae a pha rannau ohono, a phwy fydd yn ei ddarllen, gan ystyried eich lles. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd rhan neu'r cyfan o'ch DPD yn cael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae, oni bai fod y llys yn penderfynu bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny. Fe'ch hysbysir o benderfyniad y llys.

1.22 Bydd y llys yn rhoi'r ddeddfryd y mae'n ei hystyried yn briodol, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr. Bydd hyn yn cynnwys ystyried, cyn belled ag y mae'n briodol yng ngolwg y llys, effaith y trosedd arnoch chi, fel yr ydych wedi'i disgrifio yn eich DPD. Caiff eich DPD ei ystyried yn union yr un fath, p'un a yw'n cael ei ddarllen neu ei chwarae yn y llys neu beidio.

Adran 2: Cyn Treial - Cyhuddo a Mechniaeth

(i) Cyhuddo a Mechniaeth

2.1 Mae gennych **hawl** i gael gwybod am benderfyniad:

- i erlyn yr un a amheuir;
- i wneud penderfyniad y tu allan i'r llys am yr un a amheuir, megis unrhyw rybudd a roddir gan yr heddlu; neu
- i beidio ag erlyn yr un a amheuir.

2.2 Ar ôl penderfyniad gan GEG i beidio ag erlyn, mae gennych **hawl** i gael eich hysbysu am y rhesymau dros wneud y penderfyniad hwn, sut y gallwch gael mwya o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallwch ofyn am adolygu'r penderfyniad os ydych yn anfodlon arno, yn unol â'u Cynlluniau 'Hawl Dioddefwyr i Adolygiad' (gweler y blwch testun ar dudalen 23).

2.3 Mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ganlynol gan yr heddlu o fewn 5 diwrnod gwaith wedi i'r heddlu ei chael:

- dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad llys cyntaf;
- os yw'r un a amheuir wedi'i ryddhau ar fechniaeth yr heddlu i ymddangos yn y llys, unrhyw amodau ar y fechniaeth ac unrhyw newidiadau yn yr amodau mechniaeth hyn.

- 2.4 Mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ym mharagraffau 2.1-2.4 o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cyhuddo'r un a amheuir, ar ôl dweud wrth yr un a amheuir na fydd cyhuddiad yn ei erbyn neu ar ôl gwneud penderfyniad am yr un a amheuir y tu allan i'r llys. **Os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, yn ddiodefwyr sy'n cael ei dargedu'n gyson neu'n ddiodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael ei fygwth**, mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ym mharagraffau 2.1-2.4 o fewn 1 diwrnod gwaith.
- 2.5 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mewn **achos cymwys** (gweler yr eirfa), mae gennych **hawl** i gael cynnig cwrdd â GEG cyn neu ar ôl penderfyniad gan GEG ynghylch a fydd yn cyhuddo'r un a amheuir neu beidio. Os penderfynir ei gyhuddo, bydd GEG yn egluro sut y mae'r achos yn debygol o fynd yn ei flaen, ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd GEG hefyd yn trafod eich anghenion ac yn cytuno â chi ar ba mor aml y bydd yn cysylltu â chi.
- 2.6 Mewn rhai **achosion penodedig** (gweler yr eirfa) lle y mae GEG yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad i beidio â chyhuddo, mae gennych **hawl** hefyd i gael cynnig cwrdd â GEG. Mae GEG yn gyfrifol am gynnal y cyfarfod a gall ddod i'r casgliad, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, na ddylid cael cyfarfod. Os bydd GEG yn penderfynu nad yw cyfarfod yn briodol, eglurir y penderfyniad i chi.

Cynlluniau 'Hawl Dioddefwyr i Adolygiad' Yr Heddlu a GEG

Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad yr heddlu neu'r GEG i beidio ag erlyn, mae gennych **hawl** i ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu GEG i beidio ag erlyn yn unol â chynlluniau **Hawl Dioddefwyr i Adolygiad Cyngor Penaethiaid yr Heddlu Cenedlaethol (CPHC)** a GEG.

Bu i GEG lansio eu Cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar 5 Mehefin 2013. Bu i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr fabwysiadu cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar 1 Ebrill 2015. Mae'r cynllun yn rhoi hawl i ddiodefwyr trosedd ofyn am adolygiad o benderfyniad yr heddlu neu GEG i beidio ag erlyn, neu i derfynu achos troseddol.

Pan fyddwch yn cael eich hysbysu am benderfyniad sy'n gymwys i'w adolygu o dan naill ai Gynllun y CPHC neu GEG, mae gennych **hawl** derbyn gwybodaeth ddigonol yn yr hysbysiad er mwyn eich galluogi i benderfynu a ydych eisiau i adolygiad gael ei gynnal neu beidio.

(ii) Penderfyniadau y Tu Allan i'r Llys

- 2.7 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr heddlu, GEG neu'r Tîm Troseddwy'r Ifanc (YOT) (os yw'r troseddwr o dan 18 oed) yn credu ei bod yn briodol delio â'r trosedd heb fynd i'r llys. Drwy wneud hyn, gellir delio â'r digwyddiad yn gymharol gyflym a gall fod yn fwy effeithiol o ran atal troseddau pellach. Os yw'r heddlu, GEG neu'r YOT yn ystyried gwneud penderfyniad y tu allan i'r llys, mae gennych hawl, pan fo hynny'n ymarferol, i fynegi eich safbwyntiau ac i'r safbwyntiau hynny gael eu hystyried pan wneir penderfyniad.

(iii) Ar ôl cyhuddo

- 2.8 Mae gennych **hawl** i gael gwybod am unrhyw benderfyniad gan GEG i wneud y canlynol:
- peidio â pharhau ag un cyhuddiad a symud ymlaen ar un arall;
 - newid cyhuddiad yn sylweddol;
 - peidio â pharhau â'r achos cyfan;
 - peidio â chynnig tystiolaeth yn yr achos cyfan.
- 2.9 Yn ogystal â hyn, os bydd GEG yn peidio â pharhau â'r achos cyfan neu'n peidio â chynnig tystiolaeth yn yr achos cyfan, mae gennych **hawl** hefyd i gael gwybod sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallwch geisio adolygiad o'r penderfyniad os nad ydych yn fodlon arno.
- 2.10 Mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth ym mharagraffau 2.8 a 2.9 uchod o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Os ydych wedi **dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth**, mae gennych **hawl** i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith.
- 2.11 Yn ogystal â hyn, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth mewn achos cymwys** (gweler yr eirfa), neu'n ddiodefwyr mewn **achos penodedig** (gweler yr eirfa), mae gennych **hawl** i gael cynnig cwrdd â GEG i gael eglurhad pellach o benderfyniad i beidio â pharhau â chyhuddiad neu ei newid yn sylweddol, i beidio â pharhau â'r achos cyfan neu i beidio â chynnig tystiolaeth yn yr achos cyfan. Bydd yr hawl hon gennych oni bai fod GEG yn dod i'r casgliad, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, na ddylid cael cyfarfod. Os bydd GEG yn penderfynu nad yw cyfarfod yn briodol, eglurir y penderfyniad i chi.

(iv) Cyn treial

- 2.12 Yn yr adran hon, os yw'n ofynnol bod yr Uned Gofal i Dystion (gweler yr eirfa) yn darparu rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru isod i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, yn ei lle gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Cewch wybod gan yr heddlu os hyn fydd yn digwydd.
- 2.13 Mae gennych **hawl** i:
- gael gwybod am y canlyniad i unrhyw wrandawriad mechniaeth (unrhyw amodau mechniaeth perthnasol ac unrhyw newidiadau perthnasol yn yr amodau mechniaeth hyn) ynghyd â'r rhesymau o fewn 5 diwrnod gwaith. Os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth, mae gennych hawl i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith.
 - cael gwybod am ddyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawriadau llyso troseddol yn yr achos gan yr Uned Gofal i Dystion. Bydd raid i'r Uned Gofal i Dystion ddarparu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl ei chael gan y llyso;
 - cael gwybod os rhoddir gwarant arestio ar gyfer yr un a amheuir, a chanlyniad y gwrandawriad os bydd yr un a amheuir yn cael ei ail-arestio. Os bydd un a amheuir yn cael ei ail-arestio ar ôl rhoi gwarant, bydd fel arfer yn mynychu'r llyso yn fuan wedyn. Bydd raid i'r Uned Gofal i Dystion ddarparu'r wybodaeth hon o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl ei chael gan y llyso;
 - mewn achosion pan fo'r un a amheuir yn pledio'n ddieuog, trafod unrhyw

anghenion fydd gennych gyda'r Uned Gofal i Dystion, a chael eich cyfeirio at grŵp neu asiantaeth cymorth perthnasol pan fo hynny'n briodol;

- cael gwybod gan eich Uned Gofal i Dystion os bydd angen i chi roi tystiolaeth o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl iddynt dderbyn hysbysiad gan GEG. Mae gennych hefyd hawl i gael gwybod beth i'w ddisgwyl, yn cynnwys sut i gael mynediad i'r daflen "Tyst yn y Llys";
- gweld eich datganiad er mwyn helpu i chi eich atgoffa eich hun - os ydych wedi ysgrifennu'ch datganiad, bydd ar gael i chi yn y llys ar y diwrnod; os ydych wedi recordio'ch datganiad ar fideo, trefnir i chi ei wyllo ar wahân cyn y treial.

2.14 Os bydd angen i chi roi tystiolaeth, bydd gennych **hawl** derbyn asesiad o anghenion llawn gan ein **Huned Gofal i Dystion** er mwyn sicrhau eich bod yn cael cymorth er mwyn rhoi eich tystiolaeth orau. Gall hyn gynnwys defnyddio Mesurau Arbennig (gweler Pennod 1, paragraffau 1.13-1.15). Mae gennych **hawl** hefyd i ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial er mwyn i chi allu cynefino â'r adeilad ac ystafell y llys.

2.15 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, os ydych wedi **dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth**, mae gennych **hawl** i:

- gael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod ar ôl iddynt dderbyn y wybodaeth gan y llys os caiff gwarant arestio ei rhoi ar gyfer unigolyn a amheuir, a chanlyniad y gwrandauiad os caiff yr un a amheuir ei ail-arestio;
- cael gwybod am ganlyniad unrhyw Gais am Fesurau Arbennig

2.16 Os ydych yn berthynas agos mewn profedigaeth mae gennych hawl hefyd i:

- ofyn i'r Uned Gofal i Dystion am gael ymweld â'r llys cyn dyddiad y treial er mwyn gallu cynefino â'r adeilad, p'un a oes angen i chi roi tystiolaeth neu beidio;
- gael cynnig cyfarfod â GEG neu'r eiriolwr fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Fel arfer, bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn fuan cyn y treial, ac mae'n gyfle i chi gael eich cyflwyno ac i ofyn cwestiynau.

(v) Mesurau ar gyfer gwarchod diodefwyr mewn achos o ddianc

2.17 Pe digwydd yr annhebygol a bod rhywun a amheuir yn dianc, bydd yr heddlu, wedi iddynt gael gwybod am hynny neu ar ôl i'r carchar, y Tîm Troseddwy'r Ifanc, yr Ysbyty neu'r ganolfan gadw mewn fudo, eu hysbysu, yn rhoi gwybod i chi am y digwyddiad pan fo hynny'n bosibl ac am unrhyw gamau a gymerir er mwyn eich gwarchod os asesir bod yr un a amheuir yn fygythiad sylweddol i chi.

Adran 3: Treial

(i) Bod yn bresennol yn y Llys fel Tyst

3.1 Mae gennych **hawl** i:

- ofyn i staff y llys a gewch ddod i mewn i adeilad y llys drwy fynedfa ar wahân i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau;
- os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, cwrdd ag erlynydd neu gynrychiolydd GEG a gofyn cwestiynau iddo am broses y llys. Os yw'n bosibl, bydd yn dweud wrthyhch pa mor hir y byddwch yn gorfod disgwyl cyn rhoi tystiolaeth;
- lle bynnag y bo modd, cael eglurhad gan erlynydd neu gynrychiolydd GEG am unrhyw oedi yn yr achos ar y diwrnod a pha mor hir y byddwch yn debygol o orfod disgwyl;

- cael aros a chael eistedd mewn man sydd ar wahân i'r unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd y llys yn sicrhau bod hyn yn digwydd lle bynnag y bo modd;
 - trefnu unrhyw Fesurau Arbennig ar eich cyfer sydd wedi'u gorchymyn gan y llys;
 - cael gwybod am bwynt cyswllt yn y llys fel y gallwch gael gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos wrth iddo gael ei wrando.
- 3.2 Os bydd angen i chi adael adeilad y llys ar unrhyw adeg, rhaid i chi roi'ch manylion cyswllt i staff y llys fel y gallant gysylltu â chi os bydd angen.
- 3.3 Mae rhan o broses y llys yn cynnwys croesholi tystion i brofi eu tystiolaeth. Cyfrifoldeb y llys yw sicrhau bod y treial yn cael ei gynnal mewn modd teg a chyfiawn, ac yn ystyried sylwadau gan eiriolwr yr amddiffyniad ac eiriolwr GEG sy'n cynrychioli'r Goron. Bydd GEG yn trin diodefwyr sy'n dystion yn y llys â pharch ac yn gofyn i'r llys ymyrryd, os yw'n briodol, pan ystyrir bod y croesholi gan yr eiriolwr yn amhriodol neu'n rhy ymosodol.
- 3.4 Os nad ydych yn dyst yn yr achos, mae gennych hawl i wyllo'r achos llys o'r oriel gyhoeddus.

(ii) Ar ôl y treial

- 3.5 Ar ôl y treial, os yw'n ofynnol bod yr Uned Gofal i Dystion yn darparu rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru isod i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Cewch wybod gan yr heddlu ai hyn fydd yn digwydd.
- 3.6 Ar ôl y treial, mae gennych hawl i'r canlynol:
- cael tâl am unrhyw dreuliau y mae GEG wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i chi os ydych wedi bod yn bresennol yn y llys i roi tystiolaeth ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith wedi i GEG gael ffurflen hawlio sydd wedi'i llenwi'n gywir¹¹;
 - cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion am ganlyniad y treial, yn cynnwys, pan fo hynny ar gael, crynodeb byr o'r rhesymau am y penderfyniad¹². Bydd yr Uned Gofal i Dystion yn darparu'r wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl ei chael gan y llys;
 - cael eich cyfeirio gan yr **Uned Gofal i Dystion** at wasanaethau i ddiodefwyr os yw'n briodol ac os ydynt ar gael.
- 3.7 Os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth** mewn achos cymwys, mae gennych **hawl** hefyd i gael cynnig cwrdd â GEG:
- pan fo'r troseddwr wedi cael collfarn er mwyn cadarnhau bod DPD wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfredol. Bydd y cyfarfod hwn yn y llys fel arfer;

¹¹ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Ertyn y Goron (Lwfansau Tystion ayb) 1988.

¹² Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu rhesymau yn gymwys i ganlyniad terfynol achos rheithgor.

- lle y rhoddwyd rhyddfarn neu gollfarn ar gyhuddiad llai difrifol. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnig i chi ychydig wythnosau ar ôl i'r achos ddod i ben, oni bai fod yr heddlu yn cynghori na fyddai hynny'n briodol. Bydd amseriad y cyfarfod yn seiliedig ar ddymuniadau'r teulu, felly byddwch yn cael trafod pryd y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal.

Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfryd

- 4.1 Mae'n ofynnol bod eich Uned Gofal i Dystion yn darparu rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru isod. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr a darparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt yn hytrach, pan fônt yn gweithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Cewch wybod gan yr heddlu ai hyn fydd yn digwydd.
- 4.2 Mae gennych **hawl** cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion am y ddedfryd a roddir i'r un a amheuir (os caiff ei gollfarnu) o fewn 1 diwrnod ar ôl i'r Uned Gofal i Dystion dderbyn y wybodaeth gan y llys. Mae hyn yn cynnwys eglurhad byr o ystyr ac effaith y ddedfryd.
- 4.3 Mae gennych **hawl** i gael eich cyfeirio at **GEG** fydd yn ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddedfryd nad yw'r Uned Gofal i Dystion yn gallu eu hateb.
- 4.4 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio uchod, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mewn **achos cymwys**, mae gennych **hawl** i gael cynnig cwrdd â chynrychiolydd GEG fydd yn egluro'r ddedfryd a roddwyd. Bydd y cyfarfod hwn yn y llys fel arfer.

Adran 5: Apeliadau

- 5.1 Pan fo'n ofynnol i'r Uned Gofal i Dystion darparu rhai o'r gwasanaethau sydd wedi'u rhestru isod i chi, gall yr heddlu ddarparu rhai o'r gwasanaethau hynny, neu'r cyfan ohonynt, gan weithredu fel un pwynt cyswllt i ddiodefwyr. Cewch wybod gan yr heddlu ai hyn fydd yn digwydd.
- (i) Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i'r Goruchaf Lys.**
- 5.2 Mae gennych **hawl** i gael gwybod am y canlynol gan yr Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys:
 - unrhyw hysbysiad ynglŷn ag apêl;
 - dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriad;
 - canlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y ddedfryd wreiddiol.
 - 5.3 Mae gennych hefyd **hawl** i:
 - gael aros a chael eistedd yn y llys mewn man sydd ar wahân i'r apelydd a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd y llys yn sicrhau bod hyn yn digwydd lle bynnag y bo modd;
 - cael un pwynt cyswllt yn Llys y Goron;
 - derbyn gwybodaeth am wasanaethau cymorth i ddiodefwyr pan fo hynny'n briodol ac ar gael.

(ii) Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i Oruchaf Lys y DU mewn achos troseddol ar bwynt cyfreithiol.

5.4 Mae gennych hawl i:

- gael gwybod bod yr apelydd wedi cael caniatâd i apelio o fewn 5 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys. Os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed neu wedi'ch bygwth, mae gennych hawl i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith;
- derbyn gwybodaeth am ddyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriad gan yr Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys;
- cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion os bydd yr apelydd yn cael ei ryddhau ar fechniaeth cyn yr apêl, neu os bydd amodau'r fechniaeth wedi newid, o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys;
- derbyn diweddariad gan yr Uned Gofal i Dystion ynglŷn ag unrhyw newid i ddyddiadau'r gwrandawriad o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys;
- derbyn pwynt cyswllt yn y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu ymysg staff Goruchaf Lys y DU, gan eich Uned Gofal i Dystion;
- cael gwybod am ganlyniad yr apêl o fewn 5 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys. Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r ddedfryd wreiddiol. Os ydych wedi dioddef un o'r troseddau mwyaf difrifol, neu os ydych wedi'ch targedu'n gyson neu'n agored i niwed

neu wedi'ch bygwth, mae gennych hawl i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith;

- cael aros a chael eistedd yn y llys mewn man sydd ar wahân i'r apelydd a'i deulu a'i ffrindiau. Bydd staff y llys yn sicrhau bod hyn yn digwydd lle bynnag y bo modd; Ar achlysuron prin yn unig y bydd apelydd yn mynychu gwrandawriadau yn y Goruchaf Lys. Bydd trefniadau arbennig yn cael eu gwneud ar eich cyfer os bydd yr apelydd yn bresennol ac nad ydych yn dymuno eistedd yn ystafell y llys.
- gofyn am gopi gan y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu staff Goruchaf Lys y DU o ddyfarniad y llys yn yr achos ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

- 5.5 Ar ôl rhoi caniatâd i apelio, os ydych yn **berthynas agos mewn profedigaeth**, mewn **achos cymwys**, mae gennych hawl i gael cynnig i gwrdd â GEG i gael eglurhad o natur yr apêl a phrosesau'r llys.

(iii) Y Llys Apêl a Datganiadau Personol Dioddefwr.

- 5.6 Wrth benderfynu ar apêl yn erbyn dedfryd, bydd y llys bob amser yn ystyried unrhyw Ddatganiad Personol Dioddefwr (DPD) a gyflwynwyd iddo a oedd wedi'i ddarparu i'r llys dedfrydu.
- 5.7 Fel arfer, nid oes angen darparu DPD ychwanegol i'r Llys Apêl. Fodd bynnag, os oes gwybodaeth y dylai'r llys ei chael am yr effaith y mae'r trosedd yn ei chael arnoch o hyd, gellir anfon DPD newydd neu ychwanegol i'r llys drwy law'r heddlu neu GEG. Mewn achosion prin iawn, gellir gofyn cwestiynau i chi am eich DPD yn y llys. Os defnyddir y DPD yn dystiolaeth, caiff ei ddatgelu i'r amddiffyniad a rhaid peidio â chynnwys unrhyw sylwadau am y ddedfryd a roddwyd nac ynghylch a ddylai'r apêl lwyddo neu beidio.

Adran 6: Ar ôl Treial

(i) Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

- 6.1 Ar ôl cael cais gan droseddwr, bydd y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn cynnal adolygiadau o'r collfarnau a dedfrydau a roddwyd o ganlyniad i ymddygiad troseddol y troseddwr. Caiff y Comisiwn gyfeirio collfarn neu ddedfryd ar gyfer apêl newydd os oes gwybodaeth newydd neu ddatl newydd a allai olygu bod y gollfarn yn annïogel neu fod y ddedfryd yn rhy hir. Bydd y Comisiwn yn cael tua 1000 o geisiadau gan unigolion sydd dan gollfarn bob blwyddyn a bydd yn cyfeirio tua 30-40 o achosion ar gyfer apêl newydd. Wrth adolygu achos, bydd y Comisiwn yn asesu'r effaith bosibl arnoch chi ac yn penderfynu a ddylid eich hysbysu. Bydd y Comisiwn yn cofnodi'r rhesymau dros ei benderfyniadau ynghylch sut i gysylltu â chi ac, mewn achosion priodol, bydd yn rhoi gwybod i'r heddlu am y penderfyniadau hynny.
- 6.2 Mae gennych **hawl** i gael gwybod gan y Comisiwn os yw'n tybio bod gobaith rhesymol y daw adolygiad i'ch sylw.
- 6.3 Os bydd y Comisiwn yn penderfynu ei bod yn briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i chi ei fod wedi cael cais a bod yr achos yn cael ei adolygu. Ar ôl yr adolygiad, bydd y Comisiwn yn penderfynu a fydd yn cyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, a bydd yn rhoi gwybod i chi am ei benderfyniad oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol am beidio â chael eich hysbysu.
- 6.4 Os yw'r Comisiwn yn penderfynu nad yw'n briodol cysylltu â chi yn ystod yr adolygiad, ond yn penderfynu wedyn i gyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, rhagdybir y bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i chi am y cyfeirio.

(ii) Cyswllt dieisiau gan droseddwr

- 6.5 Nid yw carcharorion yn cael ffonau symudol, a dim ond at ddibenion addysgol, cyflogaeth ac ailsefydlu y maent yn cael defnyddio'r rhyngwyd. Nid ydynt yn cael defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Os bydd carcharor yn cysylltu â chi mewn unrhyw ffordd heb fod arnoch eisiau hynny, gallwch siarad â Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (SCD, gweler yr eirfa) os oes gennych un, neu roi gwybod am hyn drwy alw Llinell Gymorth i Ddiodefwyr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol ar **0300 060 6699**.
- 6.6 Os bydd troseddwr sydd ar drwydded yn y gymuned (gweler 'amodau trwydded' yn yr eirfa) yn cysylltu â chi heb fod arnoch eisiau hynny, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yr heddlu, neu SCD os oes gennych un. Os yw'r troseddwr o dan 18 oed ac yn cael ei oruchwylio gan Dîm Troseddwr Ifanc, gallwch gysylltu â'r Tîm Troseddwr Ifanc hwnnw i roi gwybod am unrhyw gyswllt dieisiau.

(iii) Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

6.7 Mae Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (CCD) yn wasanaeth statudol sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Prawf i ddioddefwyr troseddau treisgar a rhywiol pan fo'r troseddwr wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy. Pwrpas y CCD yw darparu gwybodaeth a chyngor i ddioddefwyr cymwys am y broses cyfiawnder troseddol drwy Swyddog Cyswllt Dioddefwyr dynodedig. Mae hyn yn cynnwys hysbysu dioddefwyr am gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr, yn ôl disgrisiwn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, fel ei drosglwyddo i garchar agored neu ei ryddhau, a chyflwyno sylwadau gan ddioddefwyr am amodau sy'n ymwneud â dioddefwyr y gellir eu rhoi ar drwydded rhyddhau'r troseddwr.

6.8 Os ydych wedi dioddef o ganlyniad i drosedd treisgar neu rywiol¹³ gan droseddwr sydd wedi cael dedfryd o 12 mis o garchar neu fwy, neu wedi'i gadw mewn ysbyty i gael triniaeth yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983, mae gennych **hawl** i gael gwybod am y CCD gan yr Uned Gofal i Dystion ac i gael gwybod y bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn 20 diwrnod gwaith, oni bai eich bod wedi dweud nad ydych am iddynt gael eu trosglwyddo.

6.9 Os ydych yn dewis cymryd rhan yn y CCD, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- penderfynu a ydych am gael gwybodaeth am gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr;
- neilltuo SCD ar eich cyfer a fydd yn bwynt cyswllt i chi yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol oni bai eich bod wedi dioddef o ganlyniad i drosedd gan glaf heb fod dan gyfyngiadau (gweler isod);

- cael gwybodaeth a chyflwyno sylwadau i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am amodau sy'n ymwneud â dioddefwyr i'w cynnwys yn nhrwydded rhyddhau'r troseddwr neu am amodau rhyddhau'r troseddwr os caiff ei ryddhau. Er enghraifft, gellid cynnwys amod i atal y troseddwr rhag cysylltu â chi neu'ch teulu;

- cael gwybod gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol am unrhyw amodau ynglŷn â rhyddhau'r troseddwr sy'n ymwneud â chi neu'ch teulu;

- cael gwybod y dyddiad y bydd yr amodau hyn yn dod i ben;

- cael unrhyw wybodaeth arall y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn credu ei bod yn briodol yn ôl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys gwybodaeth am y camau allweddol yn nedfryd y troseddwr, neu driniaeth yn achos claf iechyd meddwl dan gyfyngiadau neu heb fod dan gyfyngiadau.

6.10 Os ydych yn **berthynas agos i droseddwr mewn profedigaeth** sydd wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy mewn carchar am drosedd treisgar neu rywiol neu wedi'i gadw mewn ysbyty diogel i gael triniaeth, byddwch hefyd yn cael cynnig i gymryd rhan yn y CCD. Fodd bynnag, os nad ydych yn berthynas agosaf i'r dioddefwr, bydd hyn yn dibynnu ar ddisgrisiwn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

6.11 Os ydych yn rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr i ddioddefwr sydd o dan 18 oed, i oedolyn sy'n agored i niwed neu sydd heb y gallu i gymryd rhan yn llawn yn y CCD am reswm arall, yna byddwch yn cael cynnig i gymryd rhan yn ei le fel arfer. Ond, mae'n bosib na chynigir i riant, gwarcheidwad neu ofalwr gymryd rhan os credir nad yw hyn er lles gorau'r dioddefwr.

¹³ Yn unol â'r diffiniad yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

6.12 Os yw'r troseddwr yn yr achos o dan 18 oed, bydd y **Tîm Troseddwr Ifanc** yn trosglwyddo'ch manylion i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** fel y gellir cynnig cyfle i chi gymryd rhan yn y CCD.

(iv) Mesurau ar gyfer gwarchod diodefwr mewn achos o ddianc

6.13 Pe digwydd yr annhebygol a bod troseddwr yn dianc, bydd yr heddlu, ar ôl i'r carchar, y Tîm Troseddwr Ifanc, yr Ysbyty neu'r ganolfan gadw mewn fudo, eu hysbysu, yn rhoi gwybod i chi am y digwyddiad pan fo hynny'n bosibl ac am unrhyw gamau a gymerir er mwyn eich gwarchod os asesir bod y troseddwr yn fygythiad sylweddol i chi.

Cynllun Cysylltu â Dioddefwr ar gyfer diodefwr troseddu gan rai sydd ag anhwylder meddyliol

6.14 Os ydych wedi dioddef o ganlyniad i drosedd treisgar neu rywiol penodedig¹⁴ gan droseddwr sydd wedi'i gadw mewn ysbyty i gael triniaeth am anhwylder meddyliol, bydd gennych hawl er hynny i gymryd rhan yn y CCD. Os yw'r troseddwr wedi'i gadw o dan 'gyfyngiadau' ('claf dan gyfyngiadau', gweler yr eirfa), byddwch yn cael gwybodaeth gan yr SCD. Os na roddwyd cyfyngiadau ('claf heb fod dan gyfyngiadau', gweler yr eirfa), bydd rheolwyr yr ysbyty yn rhoi gwybodaeth i chi.

6.15 Dan yr amgylchiadau hyn, gan fod y troseddwr wedi'i gyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac yn cael ei drin fel claf mewn ysbyty, bydd rhai o'r penderfyniadau ynghylch rheoli'r troseddwr yn ymwneud yn uniongyrchol â'i driniaeth feddygol, ac felly byddant yn cael eu hystyried yn wybodaeth feddygol gyfrinachol.

6.16 Mae gennych **hawl** i gyflwyno sylwadau am yr amodau ynglŷn â rhyddhau'r troseddwr, er enghraifft amodau sy'n atal y troseddwr rhag cysylltu â chi neu'ch teulu neu rhag dod i'r ardal lle'r ydych yn byw.

6.17 Mae gennych **hawl** i gael gwybod a yw'r troseddwr i gael ei ryddhau naill ai dan amodau neu'n ddiamod (mae hyn yn gymwys i gleifion dan gyfyngiadau) neu ei ryddhau dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol (mae hyn yn cymwys i gleifion heb fod dan gyfyngiadau) ac, os felly, byddwch hefyd yn cael gwybod am y canlynol:

- yr amodau, os oes rhai, sydd wedi eu gosod ar gyfer gwarchod eich teulu eich hun
- newidiadau i'r amodau hynny, a
- phan ddaw'r trefniadau hynny i ben (oherwydd bod troseddwr wedi cael ei alw yn ôl i'r ysbyty; rhyddhau'n ddiamod; neu fod y gorchymyn triniaeth gymunedol wedi cael ei godi).

¹⁴ Yn unol â'r diffiniad yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

(v) Adroddiadau Cryno i Ddiodefwyr am Drosedd Difrifol Pellach

6.18 Os bydd troseddwr yn cyflawni Trosedd Difrifol Pellach¹⁵ pan fo o dan oruchwyliaeth statudol y gwasanaeth prawf, neu'n fuan ar ôl i'r oruchwyliaeth hon ddod i ben, bydd y darparwr neu'r gwasanaeth prawf yn cynnal Adolygiad Trosedd Difrifol Pellach i ymchwilio i'r ffordd yr oedd yr achos wedi'i reoli ac i weld a oes gwersi i'w dysgu er mwyn gwella arferion yn y dyfodol. Yn achos mathau penodol o Drosedd Difrifol Pellach¹⁶ pan fu i'r troseddwr gael ei gyhuddo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2013, mae hawl gan y diodefwyr i ofyn am adroddiad cryno i ddiodefwyr am yr Adolygiad Trosedd Difrifol Pellach.

6.19 Os ydych yn ddiodefwyr neu'n berthynas agos mewn profedigaeth i ddiodefwyr Trosedd Difrifol Pellach o'r fath, mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion am eich hawl i ofyn am adroddiad cryno i ddiodefwyr. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i chi o'r ffordd yr oedd yr achos wedi'i reoli ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu er mwyn gwella arferion yn y dyfodol. Rhoddir eich manylion i'r gwasanaeth prawf er mwyn gallu cysylltu â chi am hyn;
- gofyn i'r darparwr neu'r gwasanaeth prawf baratoi Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr ar eich cyfer;
- cael anfon eich manylion i'r darparwr neu'r gwasanaeth prawf gan yr Uned Gofal i Dystion, oni bai eich bod yn gofyn iddi beidio â gwneud hynny;

- cyfarfod ag uwch reolwr y darparwr neu'r gwasanaeth prawf a fydd yn egluro'r canfyddiadau yn yr Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr ac yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

6.20 Mae gennych hawl i gael Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr hyd yn oed os ydych yn penderfynu peidio â chymryd rhan yn y CCD.

6.21 Os nad yr Uned Gofal i Dystion yw'r un pwynt cyswllt ar eich cyfer, bydd yn ofynnol bod y swyddog heddlu sydd wedi bod yn un pwynt cyswllt i chi, **Swyddog Cyswllt Teulu** er enghraifft, yn darparu'r gwasanaeth hwn i chi.

(vi) Proses Adolygu'r Gofynion Hysbysu ar gyfer Troseddwr Rhyw

6.22 Mae troseddwr rhyw cofrestredig yn gorfod cydymffurfio â 'gofynion hysbysu'. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt roi rhai o'u manylion personol i'r heddlu. Bydd y gofynion am hysbysu'n dilyn yn awtomatig ar ôl cael collfarn neu rybudd am drosedd sydd yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Y math o ddedfryd a gafodd y troseddwr fydd yn penderfynu pa wybodaeth y bydd yn gorfod ei rhoi i'r heddlu ac am ba hyd.

6.23 Os yw'r gofynion hysbysu ar gyfer y troseddwr yn parhau ar hyd ei oes, gall wneud cais i adolygu hyn ar ôl cyfnod penodedig ar ôl rhoi hysbysiad am y tro cyntaf, sef wrth gael ei ryddhau o'r carchar fel arfer. Y cyfnod penodedig yw 15 mlynedd ar gyfer oedolion a 8 mlynedd ar gyfer troseddwr ifanc. Os bydd y troseddwr yn gwneud cais o'r fath, bydd yr heddlu'n cynnal adolygiad wedyn, gan gynnwys asesiad risg, i benderfynu a ellir

¹⁵ Trosedd a restrir yn Atodiad C i Gyfarwyddyd Prawf 15/2014 'Gweithdrefnau hysbysu ac adolygu troseddau difrifol pellach' (fel y'i diwygir o dro i dro). Ar hyn o bryd mae pob un o'r rhain yn droseddau difrifol neu rywiol treisgar sy'n arwain at uchafswm o 14 blynedd o garchar neu ddedfryd amhenodol.

¹⁶ Y rhain yw llofruddiaeth, dynladdiad neu farwolaeth o ganlyniad i yrru'n beryglus; trais, ymosod drwy dreiddiad, neu drosedd rywiol yn erbyn plentyn o dan 13 oed; neu ymgais i gyflawni unrhyw un o'r uchod.

terfynu'r gofynion hysbysu ar gyfer y troseddwr. Os bydd yr asesiad yn dangos bod y troseddwr rhyw yn achosi risg o hyd, bydd yn parhau i orfod cydymffurfio â'r gofynion hysbysu a hynny am weddill ei oes os bydd angen.

6.24 Os ydych yn ddiodefwyr o ganlyniad i drosedd gan droseddwr sy'n gwneud cais o'r fath, mae gennych **hawl** i gyflwyno sylwadau i'r heddlu ar gyfer yr adolygiad. Dylech gysylltu â'r heddlu lleol i gael mwy o wybodaeth.

(vii) Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr

6.25 Mae'r Bwrdd Parôl yn gorff annibynnol sy'n cydweithio â'i bartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol i ddiogelu'r cyhoedd drwy gynnal asesiadau risg ar garcharorion penodol er mwyn penderfynu a ellir eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned. Gall roi cyfarwyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch rhyddhau mathau penodol o droseddwr, sef carcharorion a gafodd ddedfryd benagored, gan gynnwys rhai a gafodd ddedfryd am oes, a rhai carcharorion a gafodd ddedfryd am gyfnod penodol. Gall y Bwrdd Parôl roi argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ynghylch trosglwyddo'r carcharorion hyn i garchar agored. Os nad ydych yn sicr a fydd y troseddwr yn eich achos chi'n cael ei ystyried gan y Bwrdd Parôl, dylech drafod hyn â'r SCD.

6.26 Os ydych wedi dewis cymryd rhan yn y CCD a bod y Bwrdd Parôl yn bwriadu ystyried rhyddhau'r troseddwr neu ei symud i garchar agored, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- cael gwybod gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a fydd y Bwrdd Parôl yn cynnal gwrandawriad;
- cyflwyno sylwadau am amodau

trwydded (gweler yr eirfa) i'r Bwrdd Parôl;

- cael eglurhad os nad yw amod trwydded yr ydych wedi gofyn amdano wedi cael ei gynnwys ar drwydded rhyddhau'r carcharor;
- cael eglurhad am y Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) gan yr SCD, gan gynnwys y ffordd y bydd y Bwrdd Parôl yn ei ddefnyddio;
- gwneud DPD a fydd yn cael ei anfon i'r Bwrdd Parôl;
- gwneud cais i fod yn bresennol mewn gwrandawriad llafar Bwrdd Parôl i gyflwyno'ch DPD mewn achosion pan fo'r Bwrdd Parôl yn penderfynu ei bod yn briodol cynnal gwrandawriad llafar.

6.27 Mae DPD yn rhoi cyfle i chi egluro yn eich geiriau eich hun sut y mae trosedd wedi effeithio arnoch chi a'ch teulu, yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae'n bosibl y byddwch wedi gwneud DPD yn barod, yn agosach at adeg y trosedd neu cyn y treial. Cewch gyfle'n awr i wneud DPD newydd i'w ddefnyddio gan y Bwrdd Parôl i ddangos eich barn neu'ch teimladau presennol. Yr SCD fydd yn cofnodi'ch DPD. Bydd y Bwrdd Parôl yn darllen eich DPD bob tro wrth ystyried rhyddhau troseddwr neu ei symud i garchar agored.

6.28 Dylech gynnwys eich barn am:

- effaith y trosedd arnoch chi, pan ddigwyddodd y trosedd ac wedyn;
- yr effaith bosibl arnoch chi pe bai'r carcharor yn cael ei ryddhau neu ei symud i garchar agored.

6.29 Rhaid i chi beidio â rhoi'ch barn ynghylch a ddylai'r carcharor gael ei ryddhau. Y rheswm am hyn yw y bydd y Bwrdd Parôl yn seilio ei benderfyniad ar y risg y mae'r troseddwr yn ei achosi ar hyn o bryd.

- 6.30 Os ydych yn pryderu neu os oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd sy'n awgrymu y gallai'r troseddwr achosi perygl i chi ar hyn o bryd, dylech drafod hyn â'r SCD. Bydd yr SCD yn sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau risg i'r Bwrdd Parôl yn gwybod am hyn.
- 6.31 Fel arfer, bydd eich DPD yn cael ei ddatgelu i'r carcharor. Mewn achosion eithriadol, gallwch wneud cais i beidio â datgelu'ch DPD i'r carcharor os credwch y byddai ei ddatgelu'n gallu'ch rhoi chi neu'ch teulu mewn perygl o gael niwed difrifol neu y byddai'n cael effaith negyddol iawn arnoch. Y Bwrdd Parôl fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am ei ddatgelu.
- 6.32 Os ydych am fod yn bresennol yn y gwrandawriad i ddarllen eich DPD yn bersonol neu os ydych am i rywun fel yr SCD ei ddarllen ar eich rhan, mae gennych **hawl** i roi gwybod i'r Bwrdd Parôl am eich dymuniad i wneud hynny. Cadeirydd panel y Bwrdd Parôl fydd yn penderfynu a gewch fod yn bresennol. Fel arfer, fe ganiateir cais i fod yn bresennol, ond mae hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn cadeirydd panel y Bwrdd Parôl ac mae'n bosibl y bydd ganddo resymau dros beidio â chaniatáu cais o'r fath. Nid oes sicrwydd a fydd y carcharor yn bresennol neu beidio pan fyddwch yn darllen eich DPD, ond ni fydd yn bresennol os yw'r Bwrdd Parôl wedi cytuno i beidio â datgelu'ch DPD i'r carcharor. Ni fyddwch yn gallu bod yn bresennol drwy gydol gwrandawriad y Bwrdd Parôl. Gallwch hefyd ofyn am gael darllen eich DPD drwy gyswllt fideo byw neu ddarparu recordiad ohono i'w chwarae yn y gwrandawriad os bydd cyfleusterau ar gael.

(viii) Dioddefwyr troseddau wedi'u cyflawni gan rai dan 18 mlwydd oed

- 6.33 Os yw'r troseddwr yn yr achos o dan 18 oed ac os nad ydych yn gymwys i gymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, gall y Tîm Troseddwyr Ifanc gysylltu â chi'n uniongyrchol. Bydd hyn yn berthnasol mewn achosion lle y mae'r troseddwr ifanc wedi cael dedfryd o lai na 12 mis yn y ddalfa, 12 mis neu fwy am drosedd nad yw'n un rhywiol na threisgar neu orchymyn cymunedol. Mae gorchymyn cymunedol yn gosod amodau ar gyfer troseddwr sy'n cwblhau dedfryd yn y gymuned yn hytrach nag mewn carchar. Gall y Tîm Troseddwyr Ifanc ofyn am eich barn cyn y dedfryd a gweld a ydych am gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau Cyfiawnder Adferol os ydynt yn briodol ac os ydynt ar gael.
- 6.34 Mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan y Tîm Troseddwyr Ifanc:
- gwybodaeth am hynt achos y troseddwr os ydych yn gofyn amdani;
 - gwybodaeth am wasanaethau priodol i diodefwyr os ydych yn gofyn am gymorth ychwanegol.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

- 7.1 Cyfiawnder Adferol yw'r broses o ddod â diodefwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed at ei gilydd er mwyn canfod ffordd gadarnhaol o symud ymlaen.
- 7.2 Mae Cyfiawnder Adferol yn cynnig cyfle i chi ddweud eich dweud a chyfrannu weithiau at benderfyniadau ar droseddau. Gall hyn gynnwys cytuno ar weithgareddau i'w cyflawni gan y troseddwr er mwyn derbyn y cyfrifoldeb am ei weithredoedd a gwneud iawn am y niwed y mae wedi'i wneud. Gall Cyfiawnder Adferol fod yn ffordd i chi gael tawelwch meddwl a symud ymlaen, ac yn gyfle i droseddwyr wynebu canlyniadau eu gweithredoedd a deall effaith hynny ar bobl eraill.

- 7.3 Gall Cyfiawnder Adferol ddigwydd yn ystod yr achos troseddol neu ar ôl i'r achos troseddol ddod i ben fel rhan o'r ddeddfryd, neu fel rhan o benderfyniad y tu allan i'r llys. Bydd unrhyw Gyfiawnder Adferol yn cael ei arwain gan hwylusydd cyfiawnder adferol sydd wedi'i hyfforddi a fydd yn ystyried eich anghenion ac yn darparu gwasanaethau'n unol â'r safonau ansawdd cydnabyddedig.
- 7.4 Mae Cyfiawnder Adferol yn wirfoddol – **nid ydych yn gorfod cymryd rhan**, a rhaid i chi a'r troseddwr gytuno arno cyn iddo ddigwydd. Gallwch ofyn am gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol ar adeg sy'n iawn i chi, neu efallai y gofynnir i chi gymryd rhan oherwydd bod y troseddwr wedi gofyn am Gyfiawnder Adferol. Er hynny, hyd yn oed os yw'r ddau barti am gymryd rhan, efallai na fydd yn briodol, a bydd yr hwylusydd yn asesu hynny.
- 7.5 Bydd mesurau priodol ar waith i sicrhau bod unrhyw weithgareddau yr ydych yn cytuno i gymryd rhan ynddynt yn ddiogel; bydd hwylusydd hyfforddedig yn bresennol bob amser yn ystod unrhyw gyfarfod rhyngoch chi a'r troseddwr. Os yw'r troseddwr wedi cyfaddef ei fod yn euog ac yn barod i gymryd rhan mewn cyfarfod neu i gyfathrebu â chi, efallai y byddwch yn gallu egluro i'r troseddwr sut y mae'r digwyddiad wedi effeithio arnoch. Wedyn gallech benderfynu ceisio ymddiheuriad, neu gytuno ar weithgaredd i'w gyflawni gan y troseddwr er mwyn gwneud iawn am y niwed sydd wedi'i achosi.
- 7.6 Nid yr un peth yw Cyfiawnder Adferol a Phenderfyniad Cymunedol. Mae Penderfyniad Cymunedol yn benderfyniad anffurfiol gan yr heddlu sy'n eu galluogi i ddelio mewn ffordd fwy cymesur â throseddu lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol. Defnyddir

Penderfyniadau Cymunedol yn bennaf ar gyfer troseddwr tro cyntaf sydd wedi mynegi edifeirwch gwirioneddol lle y mae'r dioddefwr wedi cytuno nad yw am i'r heddlu gymryd camau ffurfiol.

(i) Dioddefwyr troseddau wedi'u cyflawni gan oedolion

- 7.7 Os yw'r troseddwr yn oedolyn, mae gennych **hawl** i gael gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol gan yr heddlu, neu unrhyw sefydliad arall sy'n darparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol i ddiodefwyr yn eich ardal, gan gynnwys sut i gymryd rhan. Mae hyn yn dibynnu ar y gwasanaethau Cyfiawnder Adferol a ddarperir yn eich ardal leol. Gallwch hefyd ofyn i'r heddlu beidio â rhannu'ch manylion â sefydliad sy'n darparu Cyfiawnder Adferol os nad ydych am gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol.
- 7.8 Bydd Cyfiawnder Adferol yn cael ei egluro i chi gan yr heddlu neu sefydliad arall sy'n darparu Cyfiawnder Adferol er mwyn i chi allu gwneud dewis doeth ynghylch a ydych am gymryd rhan. Os ydych am gymryd rhan, gofynnir i chi roi cydsyniad ysgrifenedig. Ni ddylid pwyso arnoch i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol. Bydd y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw Gyfiawnder Adferol yn ddiogel, yn cael ei ddarparu gan hwylusydd hyfforddedig a'i fod yn bodloni safonau ansawdd cydnabyddedig.

(ii) Dioddefwyr troseddau wedi'u cyflawni gan bobl ifanc

- 7.9 Os yw'r troseddwr o dan 18 oed, mae gennych **hawl** i gael cynnig cyfle gan y Tîm Troseddwr Ifanc i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol os ydynt yn briodol ac os ydynt ar gael. Gallwch ofyn i'r heddlu beidio â throsglwyddo'ch manylion i'r Tîm Troseddwr Ifanc os nad ydych am gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol.

7.10 Bydd y Tîm Troseddwy'r Ifanc yn egluro Cyfiawnder Adferol i chi, a byddwch yn cael gwybod am rôl y Tîm Troseddwy'r Ifanc er mwyn i chi allu gwneud dewis doeth ynghylch a ydych am gymryd rhan. Os ydych am gymryd rhan, gofynnir i chi roi cydsyniad ysgrifenedig. Ni ddylid pwyso arnoch i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol. Bydd y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw Gyfiawnder Adferol yn ddiogel, yn cael ei ddarparu gan hwylusydd hyfforddedig a'i fod yn bodloni safonau ansawdd cydnabyddedig.

Adran 8: Gwneud cais am lawndal

(i) Gwneud cais

8.1 Yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol sy'n prosesu'r holl geisiadau o dan y Cynllun lawndal am Anafiadau Troseddol. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth er mwyn digolledu diodefwyr troseddau sy'n ddi-fai ac mae i'w ddefnyddio dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob ffordd arall sydd ar gael o geisio digollediad. Mae'r Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol yn disgwyl i chi geisio hawlio digollediad gan yr unigolyn neu unigolion a achosodd yr anaf neu'r golled. Fodd bynnag, os nad ydych yn gwybod pwy sydd wedi'ch anafu, neu os nad oes modd gan yr ymosodwr i'ch digolledu, gallwch wneud hawliad o dan y Cynllun.

8.2 Rhaid i chi wneud cais o **fewn dwy flynedd ar ôl dyddiad y digwyddiad**. Dim ond am y rhesymau canlynol y gall yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol ymestyn y terfyn amser:

- am nad oedd yn bosibl gwneud cais yn gynharach oherwydd amgylchiadau eithriadol;
- bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod trosedd treisgar wedi digwydd a bod

swyddog hawliadau'n gallu gwneud penderfyniad heb gynnal ymholiadau helaeth ychwanegol.

8.3 Bydd y penderfyniad gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol wedi'i seilio ar bwysau tebygolrwydd. Ni fydd yr Awdurdod yn disgwyl am ganlyniad y treial os oes digon o wybodaeth ar gael eisoes i wneud penderfyniad pendant, felly peidiwch ag oedi cyn gwneud cais.

8.4 Mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol:

- gwybodaeth glir am eich cymhwyster i gael tâl o dan y Cynllun;
- cadarnhad ei fod wedi cael y cais gennych chi;
- gwybodaeth am hynt eich cais drwy'r camau allweddol ar gyfer gwneud hawliad;
- eglurhad clir o'r penderfyniad ar eich cais am iawndal;
- gwybodaeth am yr hawl i gael adolygiad o'r penderfyniad gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser ar gyfer adolygu'r penderfyniad hwnnw.

8.5 Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad ar eich cais am iawndal, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol:

- gwneud cais am adolygu'r penderfyniad;
- prosesu'r adolygiad yn effeithlon, yn deg ac o'r newydd gan swyddog hawliadau gwahanol i'r swyddog a wnaeth y penderfyniad cyntaf;
- eglurhad clir o'r penderfyniad ar ôl adolygu sy'n trafod y pwyntiau a godwyd yn y cais am adolygiad;
- gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, gan gynnwys y

weithdrefn a'r terfynau amser ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – lawndal am Anafiadau Troseddol (THG-IAT).

8.6 Yn ogystal â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraffau 8.4 ac 8.5 uchod, **os ydych yn ddiodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael ei fygwth**, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol:

- cymorth i gael gwybodaeth ar gyfer eich cais, er enghraifft tystiolaeth feddygol;
- cymorth dros y ffôn i lenwi'r ffurflen gais;
- cymorth gan sefydliad sy'n darparu gwasanaeth cymorth i lenwi'r ffurflen gais;
- gwybodaeth mewn fformat sy'n cwrdd â'ch anghenion fel Braille neu brint bras.

(ii) Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – lawndal am Anafiadau Troseddol

8.7 Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (**lawndal am Anafiadau Troseddol**) yn delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol. Mae'r Tribiwnlys ar wahân i'r Awdurdod ac yn annibynnol arno. Ceir mwya o wybodaeth am y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol) ar eu gwefan yn <https://www.gov.uk/criminal-injuries-compensation-tribunal>.

8.8 Ar ôl i chi gyflwyno apêl, mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael llythyr gan y Tribiwnlys i gydnabod ei fod wedi cael eich apêl;
- cael ymateb gan yr Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol gyda chopïau o'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'ch achos o fewn 6 wythnos. Wedi i chi gael yr ymateb hwn gan yr Awdurdod, bydd gennych gyfnod o 1 mis i gyflwyno

unrhyw ddogfennau neu ddadleuon pellach i'w hystyried gan y Tribiwnlys.

8.9 Mae gennych hefyd **hawl** i:

- gael gwybod gan y Tribiwnlys am amser, dyddiad a man cynnal y gwrandawriad apêl rhwng 4 a 6 wythnos cyn y gwrandawriad. Fel arfer bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn y lle sy'n fwyaf cyfleus i bawb a fydd yn bresennol.
- dod ag unrhyw dystion i'r gwrandawriad yr ydych yn credu y byddant yn helpu'ch achos, yn ôl disgrisiwn y llys;
- tynnu'ch apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn dechrau'r gwrandawriad drwy ysgrifennu at y Tribiwnlys.

8.10 Yn y gwrandawriad, byddwch yn cael gwybod y canlyniad fel arfer ac yn cael Hysbysiad o Benderfyniad. Bydd yr hysbysiad yn cadarnhau'r penderfyniad ond ni fydd yn rhoi rhesymau manwl.

8.11 Ar ôl y gwrandawriad, mae gennych **hawl** i wneud y canlynol:

- gwneud cais i'r Tribiwnlys am y rhesymau dros ei benderfyniad ar eich apêl. Rhaid i chi wneud y cais hwn o fewn 1 mis ar ôl y penderfyniad;
- gwneud cais i'r Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol am ailagor eich achos ar sail feddygol ar ôl penderfyniad gan y Tribiwnlys, os bu newid sylweddol yn eich cyflwr meddygol;
- gofyn caniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad terfynol y Tribiwnlys drwy wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys (Cymru a Lloegr).

8.12 Yn y llythyr cyntaf atoch oddi wrth y Tribiwnlys, gofynnir a fydd angen cymorth arnoch i gwrdd ag anghenion penodol er mwyn cyflwyno'ch apêl. Er enghraifft, gall y Tribiwnlys drefnu i gyfieithydd eich helpu yn y gwrandawriad. Dylech gysylltu â'r Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol os bydd arnoch angen unrhyw gymorth ychwanegol. Byddwch hefyd yn cael gwybod â phwy i gysylltu i wneud y trefniadau hyn.

Adran 9: Sut i wneud cwyn

- 9.1 Mae gennych hawl i gael eich trin mewn ffordd barchus, ystyriol a phroffesiynol gan ddarparwyr gwasanaeth heb unrhyw fath o wahaniaethu. Os byddant yn methu â gwneud hyn, neu'n methu â darparu gwasanaethau'n unol â'r Cod hwn, mae gennych hawl i wneud cwyn ac i'r gwyn honno gael ei thrafod yn gyflym ac yn llawn.
- 9.2 Yn y lle cyntaf, os byddwch yn teimlo nad yw'ch hawliau wedi'u gwireddu neu fod darparwr gwasanaeth heb gyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r Cod, dylech drafod eich cwyn, os ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, â'r unigolyn yr ydych wedi bod yn ymwneud ag ef yn sefydliad y darparwr gwasanaeth.
- 9.3 Os byddwch yn parhau'n anfodlon ar ôl gwneud hynny, neu os nad ydych yn teimlo'n esmwyth yn trafod y gwyn â'r unigolyn yr ydych wedi bod yn ymwneud ag ef yn sefydliad y darparwr gwasanaeth perthnasol, gallwch ddod â chwyn drwy weithdrefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth hwnnw. Os byddwch yn anfon eich cwyn at y darparwr gwasanaeth anghywir, bydd y darparwr hwnnw'n ailgyfeirio'ch cwyn at y darparwr gwasanaeth perthnasol ac yn rhoi gwybod i chi ei fod wedi gwneud hynny.

9.4 Mae gennych hawl i:

- gael gwybodaeth gan y darparwr gwasanaeth ynghylch sut i wneud cwyn, gan gynnwys manylion cyswllt, a'r broses ar gyfer delio â chwynion;
- gwneud cwyn os ydych yn teimlo nad yw darparwyr gwasanaeth wedi gwireddu'r hawliau sydd gennych o dan y Cod;
- cael naill ai gydnabyddiaeth neu ymateb llawn i'ch cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y gwyn;
- os cewch gydnabyddiaeth o'ch cwyn, cael gwybodaeth am broses gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth yr ydych yn cwyno wrtho, gan gynnwys amserlen ar gyfer cael ymateb o sylwedd lle y bo yn briodol;
- cael ymateb llawn gan y darparwr gwasanaeth perthnasol o fewn cyfnod penodedig, mewn iaith a fformat hawdd ei ddeall;
- cael gwybodaeth yn yr ymateb i'ch cwyn gan y darparwr/darparwyr gwasanaeth sy'n delio â'ch cwyn ynghylch sut i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd;
- cyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy law'ch Aelod Seneddol os ydych yn parhau'n anfodlon.

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

- 9.5 Os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb yr ydych wedi'i gael i'ch cwyn drwy weithdrefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth, gallwch gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy law'ch Aelod Seneddol. Bydd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn ystyried unrhyw gwyn sy'n cael ei chyfeirio ato drwy law Aelod Seneddol oddi wrth ddiodefwyr ac yn cynnal ymchwiliad annibynnol os yw'n briodol.
- 9.6 Mae gwybodaeth ar gael ar-lein am sut i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Dioddefwyr sy'n Oedolion

Rhan B: Dyletswyddau

Darparwyr Gwasanaethau

Yn yr adran hon rydym yn disgrifio'r wybodaeth, y cymorth a'r gwasanaethau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ym mharagraff 8 y rhagarweiniad eu darparu i ddioddefwyr sy'n oedolion a pherthnasau agos mewn profedigaeth er mwyn gwireddu'r hawliau sydd wedi'u nodi mewn adrannau cynharach. Fel na fydd amheuaeth, rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol wireddu'r hawliau sydd wedi'u nodi ym Mhennod 2, Rhan A, a chyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn y Rhagarweiniad ac ym Mhennod 1 y Cod hwn. Mae gan fusnesau hawl i gael gwasanaethau o dan y Cod hefyd, yn unol â'r hawliau sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan A, ar yr amod eu bod yn rhoi enw ar gyfer cysylltu i'r darparwr gwasanaeth perthnasol..

Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gofio hefyd fod diodefwyr troseddau mewn rhai achosion yn ddioddefwyr oherwydd argyfwng ehangach hefyd. Mae gwybodaeth ar gael am ddarparu cymorth dyngarol cyffredinol mewn argyfwng yn: <https://www.gov.uk/government/publications/humanitarian-assistance-in-emergencies>

Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu

(i) Gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau i ddioddefwyr ac asesiadau o anghenion

1.1 Rhaid i'r heddlu wneud y canlynol:

- darparu ar gyfer yr hawliau sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan A, Adran 1(i) a (ii), paragraffau 1.1 i 1.18 lle nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol yn y dyletswyddau isod;
- darparu cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd a riportwyd ganddynt i bob diodefwyr, yn cynnwys manylion sylfaenol am y drosedd. Gallai'r gydnabyddiaeth ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr, hysbysiad electronig megis e-bost neu neges destun, neu gall fod yn neges a ysgrifennwyd â llaw. Efallai y bydd y diodefwyr yn gwneud cais i beidio â derbyn y cyfryw gydnabyddiaeth. Pan fo'r heddlu yn ystyried y gall anfon y gydnabyddiaeth ysgrifenedig at y diodefwyr arwain at risg o niwed i chi (er enghraifft, mewn achosion o drais domestig), efallai y byddant yn cytuno i beidio ag anfon un at y diodefwyr;

- cynnal asesiad o anghenion yn gynnar i benderfynu a yw diodefwyr yn un o'r tri chategori â blaenoriaeth: **diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson, a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth**, ar sail y meini prawf ym Mhennod 1;
 - egluro Mesurau Arbennig lle y bo yn briodol i ddiodefwyr yn y tri chategori â blaenoriaeth a gweld pa fesurau, os o gwbl, y mae'r diodefwyr yn teimlo bod eu hangen arnynt a fyddai'n cynnig y ffordd orau iddynt roi eu tystiolaeth;
 - cofnodi canlyniad yr asesiad o anghenion a gwneud cais am fesurau arbennig a rhannu'r wybodaeth hon ag Unedau Gofal i Dystion a GEG;
 - rhoi'r daflen "gwybodaeth i ddiodefwyr troseddau" i bob diodefwr (yn unol â pharagraffau 18 ac 19 y rhagarweiniad) neu gyfeirio'r diodefwr at wefan sy'n cynnwys yr un wybodaeth cyn gynted â phosibl ac o fewn 5 diwrnod gwaith wedi i'r diodefwr riportio trosedd neu y cysylltwyd ag ef fel diodefwr yn ystod ymchwiliadau;
 - rhoi gwybod i bob diodefwr am y Cod i Ddiodefwyr Troseddau a sut i gael gwybod mwy amdano;
 - egluro i bob diodefwr y bydd ei fanylion yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau i ddiodefwyr oni bai ei fod yn gofyn i'r heddlu beidio â gwneud hynny;
 - gofyn am ganiatâd penodol gan ddiodefwyr troseddau rhywiol neu drais domestig, neu berthnasau agos mewn profedigaeth, cyn anfon eu manylion i wasanaethau i ddiodefwyr;
 - cyfeirio pob diodefwr yn awtomatig at wasanaethau priodol i ddiodefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl rhoi gwybod am yr honiad oni bai ei fod yn gofyn am beidio â chael ei gyfeirio;
 - rhoi gwybod i bob diodefwr y gall ddewis ei gyfeirio ei hun at wasanaethau i ddiodefwyr yn ddiweddarach a darparu gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr, gan gynnwys manylion cyswllt;
 - egluro ei bod yn bosibl, os bydd y diodefwr yn rhoi datganiad tyst, y bydd yn gorfod rhoi tystiolaeth mewn llys rywbryd yn y dyfodol;
 - egluro, o fewn 5 diwrnod gwaith, penderfyniad i beidio ag ymchwilio i drosedd;
 - hysbysu'r diodefwr pan fydd ymchwiliad i'r achos wedi'i gwblhau heb i neb gael ei gyhuddo, a chael eglurhad o'r rhesymau am hyn.
- 1.2 Mae'n ofynnol bod yr **heddlu** neu unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall sy'n gweithredu fel un pwynt cyswllt yn yr achos, yn rhoi gwybod i'r diodefwr fod therapi cyn y treial ar gael ac, os gofynnir am hynny, bydd yn cael ei hwyluso. Hefyd rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol gyfeirio diodefwyr yn y tri chategori â blaenoriaeth at sefydliadau arbenigol os yw'n briodol ac os ydynt ar gael.
- 1.3 Rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i ddiodefwyr am y canlynol ac egluro'r rhesymau drosto o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r unigolyn a amheuir gael:
- ei arestio;
 - ei gyfweld ar ôl ei rybuddio;
 - ei ryddhau heb ei gyhuddo;
 - ei ryddhau ar fechniaeth yr heddlu, neu os bydd ei amodau mechniaeth yn cael eu newid neu eu canslo.

- 1.4 Mae'n ofynnol bod y wybodaeth ym mharagraff 1.3 uchod yn cael ei darparu o fewn 1 diwrnod gwaith i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth.**
- 1.5 Os bydd angen i'r **heddlu** gyfwrdd â diodefwr, rhaid iddynt ystyried y canllawiau yn "Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol" a sicrhau bod gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant addas yn cynnal y cyfweiliad mewn ffordd sy'n ystyriol o farn ac anghenion y diodefwr er mwyn achosi cyn lleied â phosibl o straen iddo. Dylid cynllunio hyn ymlaen llaw gan ystyried ffactorau fel:
- yr angen am Gyfryngwr Cofrestredig i helpu'r diodefwr i gyfleu ei dystiolaeth yn effeithiol;;
 - unrhyw anabledau neu anghenion arbennig sydd gan y diodefwr;
 - amseriad a lleoliad y cyfweiliad;
 - rhyw'r cyfwelydd a'r diodefwr;
 - yr angen i oedolyn addas fod yn bresennol i roi cefnogaeth emosiynol.
- 1.6 Rhaid i'r **heddlu** wneud y canlynol:
- caniatáu i'r diodefwr gael rhywun o'i ddewis gydag ef, oni bai fod penderfyniad rhesymedig wedi'i wneud i'r gwrthwyneb;
 - cynnal y cyfweiliad heb oedi anghyfiawnadwy ar ôl cael gwybod am y ffeithiau;
 - cyfyngu nifer y cyfweiliadau os yw'n bosibl a chynnal dim ond y cyfweiliadau hynny sy'n gwbl angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad;
 - cyfyngu ar nifer yr archwiliadau meddygol a'u cynnal pan eu bod yn gwbl angenrheidiol yn unig at ddiben yr achos troseddol;
- cynnal y cyfweiliad, pan fo hynny'n angenrheidiol, mewn lleoliad a ddyluniwyd neu a addaswyd at y diben hwnnw;
 - sicrhau bod un person, pan fo'n bosibl, yn cynnal yr holl gyfweiliadau (oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad);
 - cynnig i bob diodefwr trais rhywiol, trais yn seiliedig ar ryw, neu drais domestig i gael person o'r un rhyw â nhw i gynnal y cyfweiliad. Dylid cytuno â chais o'r fath os yn bosibl, oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad.
- (ii) Datganiad Personol Diodefwr**
- 1.7 Rhaid i'r **heddlu** gynnig cyfle i wneud DPD i'r bobl ganlynol:
- unrhyw ddiodefwr ar yr adeg y mae'n cwblhau datganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd;
 - **diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol** (gan gynnwys perthnasau agos mewn profedigaeth), **diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson, a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth**, pa un a ydynt wedi rhoi datganiad tyst am yr hyn a ddigwyddodd neu beidio;
 - rhiant neu ofalwr i oedolyn sy'n agored i niwed neu ddiodefwr ifanc o dan 18 oed oni bai fod hynny'n cael ei ystyried yn groes i fudd pennaf y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed.
- 1.8 Yn ogystal â hyn, caiff yr **heddlu** gynnig cyfle i'r diodefwr wneud DPD mewn unrhyw achos arall lle y mae hynny'n ymddangos yn briodol. Caiff yr heddlu wneud trefniadau ar gyfer cyflwyno'r DPD ar-lein.

- 1.9 Gall yr **heddlu** drefnu i DPD neu DPD ychwanegol gael ei gymryd gan sefydliad sy'n cynnig gwasanaethau i ddiodefwyr neu ddarparwr gwasanaeth arall, ond rhaid cymryd pob datganiad yn unol ag adran 9 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967.
- 1.10 Wrth gymryd y DPD, rhaid i'r **heddlu** neu **ddarparwr gwasanaeth** arall ofyn i'r diodefwyr a yw'n dymuno i'w DPD gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw wedi'i recordio) yn y llys. Rhaid i'r heddlu ofyn i'r diodefwyr hefyd a fyddai'n well ganddo ddarllen y datganiad yn uchel ei hun neu a fyddai'n hoffi i rywun arall (er enghraifft, aelod o'r teulu neu eiriolwr GEG) wneud hyn ar ei ran. Rhaid i'r heddlu egluro i'r diodefwyr:
- nad oes yn rhaid i'w DPD gael ei ddarllen yn uchel os nad yw'n dymuno hynny. Dylid egluro i'r diodefwyr ei fod yn gallu newid ei feddwl a dewis wedyn i beidio â chael ei DPD wedi'i ddarllen yn uchel;
 - y gellir holi'r diodefwyr am y DPD yn y llys;
 - y perygl i breifatrwydd y diodefwyr;
 - y gall y cyfryngau roi sylw i gynnwys y DPD; a
 - mai mater o ddisgresiwn barnwrol yn y pen draw yw a fydd y datganiad cyfan neu rannau ohono yn cael ei ddarllen yn uchel (a chan bwy) neu ei chwarae, (os yw wedi'i recordio) yn y llys.
- 1.11 Rhaid i'r **heddlu** neu **ddarparwr gwasanaeth** arall sy'n cymryd y datganiad sicrhau ei fod yn cael anfon ymlaen at GEG a rhaid dweud mewn da bryd wrth GEG am yr hyn a fyddai orau gan y diodefwyr (darllen ei DPD, cael rhywun i'w ddarllen yn uchel ar ei ran, neu ei chwarae yn y llys neu beidio).
- 1.12 Rhaid i **GEG** sicrhau bod y DPD a gwybodaeth am yr hyn a fyddai orau gan y diodefwyr (fel uchod) yn cael ei gyflwyno i'r llys mewn da bryd er mwyn i'r llys ystyried a ddylid darllen y DPD yn uchel neu ei chwarae, a pha rannau ohono, a phwy ddylai ei ddarllen. Rhaid gwneud hyn ac eithrio pan nad yw'r achos yn bwrw ymlaen ar sail y cyhuddiadau y mae'r DPD yn berthnasol iddynt.
- 1.13 Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau lle y bo'n bosibl bod yr heddlu neu **Uned Gofal i Dystion** berthnasol yn cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith am benderfyniad y llys ynghylch a ddylid darllen y DPD yn uchel neu ei chwarae, pa rannau ohono a phwy fydd yn ei ddarllen.
- 1.14 Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** (neu'r **heddlu** os ydynt yn brif bwynt cyswllt yn yr achos) lle bynnag y bo'n bosibl roi gwybod mewn da bryd i'r diodefwyr am benderfyniad y llys ynghylch a ddylid darllen y DPD yn uchel neu ei chwarae, pa rannau ohono a phwy fydd yn ei ddarllen er mwyn i'r diodefwyr gael gwneud trefniadau i fynd i'r llys os bydd angen.

Adran 2: Cyn Treial

Cyhuddo a Mechnïaeth

Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol isod yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 2 o Bennod 2 sy'n gyfrifoldeb iddynt.

- 2.1 Rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i ddiodefwyr am bob penderfyniad i erlyn neu i wneud penderfyniad y tu allan i'r llys am yr un a amheuir, gan gynnwys pob rhybudd gan yr heddlu.

- 2.2 Rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i ddiodefwyr am bob penderfyniad gan yr heddlu i beidio ag erlyn unigolyn a amheuir. Mae'n rhaid iddynt roi rhesymau am y penderfyniad i'r diodefwyr, gwybodaeth am sut y gallant gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gallant ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydynt yn fodlon ag ef yn unol â 'Chynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad'. Mae'n rhaid darparu digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r diodefwyr i benderfynu a yw'n dymuno i adolygiad gael ei gynnal neu beidio.
- 2.3 Os bydd **GEG** yn penderfynu peidio ag erlyn yn ystod ymgynghoriad ar gyhuddo¹⁸ rhaid i'r heddlu roi gwybod i'r diodefwyr am y penderfyniad, y rheswm dros y penderfyniad (tystiolaeth annigonol neu er lles y cyhoedd), sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad gan **GEG** a sut i geisio adolygiad o'r penderfyniad os nad yw'n fodlon arno yn unol â 'Chynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad'. Os yw'r penderfyniad yn 'benderfyniad cymwys' o dan y cynllun hwnnw, mae'n rhaid i'r hysbysiad am y penderfyniad gynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r diodefwyr i benderfynu a yw'n dymuno i adolygiad gael ei gynnal neu beidio.
- 2.4 Mae'n ofynnol bod y wybodaeth ym mharagraffau 2.1-2.3 uchod yn cael ei darparu i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth** o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cyhuddo'r un a amheuir, dweud wrth yr un a amheuir na fydd cyhuddiad yn ei erbyn, neu roi gwybod iddo y bydd penderfyniad yn cael ei wneud amdano y tu allan i'r llys. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwyr arall o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 2.5 Rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i ddiodefwyr am y canlynol:
- dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad llys cyntaf;
 - os yw'r un a amheuir wedi'i ryddhau ar fechniaeth yr heddlu, unrhyw amodau ar y fechniaeth ac unrhyw newidiadau yn yr amodau mechniaeth hyn ynghyd â'r rhesymau.
- 2.6 Rhaid i'r **heddlu** ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff 2.5 i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth** o fewn 1 diwrnod gwaith. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwyr arall o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 2.7 Rhaid i **GEG** ddarparu gwybodaeth i'r heddlu am benderfyniadau i erlyn gan **GEG**, fel y gall yr heddlu roi gwybod i ddiodefwyr am y penderfyniad.

¹⁸ Cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ymgynghoriad ardal, ymgynghoriad ffôn a digidol, a wneir yn unol â chanllaw gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

- 2.8 Os na fydd **GEG** yn ymgynghori ynghylch cyhuddo¹⁹, **GEG** fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r diodefwyr am unrhyw benderfyniad i beidio ag erlyn, a sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad gan **GEG** a sut i geisio adolygiad o'r penderfyniad os nad yw'n fodlon arno yn unol â 'Chynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad' **GEG**. Os yw'r penderfyniad yn 'benderfyniad cymwys' o dan y cynllun hwnnw, mae'n rhaid i'r hysbysiad am y penderfyniad gynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r diodefwyr i benderfynu a yw'n dymuno i adolygiad gael ei gynnal neu beidio. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed** neu'n cael eu bygwth o fewn 1 diwrnod gwaith. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwyr arall o fewn 5 diwrnod gwaith..
- 2.9 Rhaid i **GEG** gynnig cwrdd â pherthnasau agos mewn profedigaeth mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa) cyn neu ar ôl penderfyniad gan **GEG** i gyhuddo neu beidio â chyhuddo'r un a amheuir. Os penderfynir ei gyhuddo, rhaid i **GEG** egluro sut y mae'r achos yn debygol o fynd yn ei flaen, ateb unrhyw gwestiynau, trafod anghenion y diodefwyr a chytuno â'r diodefwyr ar ba mor aml y bydd yn cysylltu ag ef.
- 2.10 Pan fo **GEG** yn gyfrifol am roi gwybod i'r diodefwyr am benderfyniad i beidio ag erlyn o dan baragraff 2.8 uchod mewn achosion penodedig (gweler yr eirfa), rhaid i **GEG** hefyd gynnig cwrdd â'r diodefwyr i roi mwy o eglurhad am y penderfyniad oni bai fod yr erlynydd yn dod i'r casgliad, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, na ddylid cael cyfarfod. Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i beidio â chynnig cyfarfod ac esbonio hynny i'r diodefwyr.
- 2.11 Os yw'r **heddlu, GEG neu Dîm Troseddwyr Ifanc** yn ystyried delio â throedd drwy benderfyniad y tu allan i'r llys, rhaid i'r heddlu lle y bo'n ymarferol holi'r diodefwyr(wyr) am eu barn ac ystyried eu barn wrth wneud penderfyniad.

Ar ôl Cyhuddo

2.12 Rhaid i **GEG** roi gwybod i ddiodefwyr am y penderfyniadau canlynol a'r rhesymau drostynt:

- peidio â pharhau ag un cyhuddiad a symud ymlaen ar un arall;
- newid cyhuddiad yn sylweddol;
- peidio â pharhau â'r achos cyfan; neu
- beidio â chynnig tystiolaeth yn yr achos cyfan.

2.13 Pan fo **GEG** yn peidio â pharhau â'r achos cyfan neu'n peidio â chynnig tystiolaeth yn yr achos cyfan, mae gan y diodefwyr hawl hefyd i gael gwybod sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut y gall geisio adolygiad o'r penderfyniad os nad ydyw'n fodlon arno, yn unol â Chynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad **GEG**. Os yw'r penderfyniad yn 'benderfyniad cymwys' o dan y cynllun hwnnw, mae'n rhaid i'r hysbysiad am y penderfyniad gynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r diodefwyr i benderfynu a yw'n dymuno i adolygiad gael ei gynnal neu beidio.

2.14 Rhaid darparu'r wybodaeth ym mharagraffau 2.12 a 2.13 i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed** neu'n cael eu bygwth o fewn 1 diwrnod gwaith. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwyr arall o fewn 5 diwrnod gwaith.

¹⁹ Cynnwys pob cyfarfod wyneb yn wyneb, ymgynghoriad ardal, ymgynghoriad ffôn a digidol, a wneir yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

2.15 Pan fo **GEG** yn gwneud un o'r penderfyniadau ym mharagraff 2.12 uchod, mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa) ac achosion penodedig (gweler yr eirfa) eraill, rhaid i **GEG** hefyd cynnig cwrdd â'r diodefwr i roi mwy o eglurhad am y penderfyniad oni bai fod **GEG** yn dod i'r casgliad, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, na ddylid cael cyfarfod. Rhaid cofnodi unrhyw benderfyniad i beidio â chynnig cyfarfod ac esbonio hynny i'r diodefwr.

Cyn Treial

2.16 Yn y paragraff hwn rydym yn disgrifio'r dyletswyddau sydd gan yr **Uned Gofal i Dystion** berthnasol tuag at ddiodefwyr. Mewn rhai achosion, gall yr **heddlu** weithredu fel un pwynt cyswllt i'r diodefwr a darparu'r wybodaeth yn y paragraff hwn i'r diodefwr yn ei lle. Rhaid i'r heddlu roi gwybod i ddiodefwyr os ydynt yn gweithredu fel hyn a chytuno â'r **Uned Gofal i Dystion** ar y gwasanaethau y byddant yn eu darparu o blith y rhai isod. Mae'n ofynnol bod yr **Uned Gofal i Dystion** berthnasol:

- yn rhoi gwybod i ddiodefwyr am ganlyniad unrhyw wrandawriad am fechnïaeth (unrhyw amodau mechnïaeth perthnasol ac unrhyw newidiadau perthnasol yn yr amodau mechnïaeth hyn) ynghyd â'r rhesymau o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybodaeth gan y llys yn achos **dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed** neu'n cael eu bygwth. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwr arall o fewn 5 diwrnod gwaith;

- yn rhoi gwybod i ddiodefwyr am amser, dyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawriad llys troseddol ddim hwyrach nag 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth hon gan y llys;
- yn rhoi gwybod i bob diodefwr o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth ac o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl ei chael yn achos diodefwyr yn y tri chategori sydd â blaenoriaeth, os yw gwarant arestio wedi'i chyhoeddi ar gyfer unigolyn a amheuir a fethodd â dod i'r llys ac am ganlyniad y gwrandawriad os yw'r un a amheuir wedi cael ei ail-arestio;
- os yw'r diffynnydd wedi pledio'n ddieuog, yn trafod unrhyw anghenion sydd gan y diodefwr a chyfeirio'r diodefwr at wasanaethau i ddiodefwyr os yw'n briodol ;
- os oes angen i ddiodefwyr ddod i'r llys i roi tystiolaeth, yn rhoi gwybod iddynt am hynny o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael yr hysbysiad gan GEG a rhoi gwybod iddynt beth i'w ddisgwyl, gan gynnwys sut i gael y daflen "Tyst yn y Llys";
- yn cynnig asesiad llawn o anghenion i'r diodefwyr y mae angen iddynt ddod i'r llys i roi tystiolaeth er mwyn asesu eu hangen am gymorth;
- yn rhoi gwybod i ddiodefwyr am ganlyniad ceisiadau am Fesurau Arbennig;
- yn trefnu bod perthnasau agos mewn profedigaeth, mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa), nad ydynt yn dystion yn yr achos yn ymweld â'r llys cyn y treial os ydynt yn dymuno.

2.17 Os bydd yr un a amheuir yn cael ei arestio am dorri ei amodau mechniaeth cyn ei wrandawriad, rhaid i'r **heddlu** roi gwybod i'r diodefwr am hynny os yw'n bosibl. Os bydd y diodefwr yn honni bod yr un a amheuir wedi torri ei amodau mechniaeth, a'r heddlu'n penderfynu peidio â dod â'r un a amheuir o flaen y llys, rhaid i'r heddlu roi gwybod i'r diodefwr am hynny ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad..

2.18 Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau lle bynnag y bo modd fod yr heddlu neu'r **Uned Gofal i Dystion** berthnasol yn cael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith am y penderfyniadau canlynol ar gyfer **dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth** (mewn achosion pan fo staff llys wedi cael gwybod bod diodefwyr yn y categorïau hyn yn gysylltiedig), ac o fewn 3 diwrnod gwaith mewn achosion sy'n ymwneud â diodefwyr eraill:

- dyddiadau llys ar gyfer yr holl wrandawriadau;
- canlyniad gwrandawriadau am fechniaeth a newid mewn statws remandio a cheisiadau gweinyddol am Fesurau Arbennig;
- gohirio gwrandawriadau sydd wedi'u trefnu cyn neu ar ôl eu cychwyn.

2.19 Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau hefyd fod yr heddlu, neu'r Uned Gofal i Dystion berthnasol, yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ail-arestio unigolyn a amheuir ar ôl cyhoeddi gwarant.

2.20 Rhaid i **GEG** wneud y canlynol:

- darparu rhestr o'r tystion a fydd yn y llys i'r **Unedau Gofal i Dystion** cyn gynted ag y bydd wedi'i chwblhau fel bod yr **Unedau Gofal i Dystion** neu, mewn rhai achosion, yr heddlu os ydynt yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwr, yn gallu rhoi gwybod i ddiodefwyr y mae angen iddynt roi tystiolaeth;
- os yw'n briodol, ystyried gwneud cais i'r llys am Fesurau Arbennig gan ystyried unrhyw farn a roddir gan y diodefwr a chofnodi canlyniad yr ystyriaeth honno;
- cynnig cyfle i berthnasau agos mewn profedigaeth mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa) i gwrdd â'r erlynydd neu'r bargyfreithiwr a fydd yn cyflwyno'r achos yn y llys. Fel arfer bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ychydig cyn dechrau'r treial.

Adran 3: Treial

Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol isod yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 3 o Bennod 2, Rhan A sy'n gyfrifoldeb iddynt.

3.1 Rhaid i **GEG** wneud y canlynol:

- os yw'r amgylchiadau'n caniatáu, eu cyflwyno eu hunain i'r diodefwyr, ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am broses y llys ac, os yw'n bosibl, nodi pa mor hir y bydd yn rhaid i ddiodefwyr aros cyn rhoi tystiolaeth;
- lle bynnag y bo modd, egluro unrhyw oedi yn yr achos a dweud wrth y diodefwr pa mor hir y bydd yn debygol o orfod aros.

3.2 Bydd **GEG** yn trin diodefwyr sy'n dystion yn y llys â pharch ac yn gofyn i'r llys ymyrryd, os yw'n briodol, pan ystyrir bod y croesholi gan yr eiriolwr yn amhriodol neu'n rhy ymosodol o ystyried holl amgylchiadau'r achos.

3.3 Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau:

- bod unrhyw Fesurau Arbennig y mae ar y diodefwyr eu hangen wedi'u darparu os yw'r llys wedi'u gorchymyn;
- bod diodefwyr yn gallu dod i mewn i'r llys drwy fynedfa wahanol a'u bod yn cael lle i eistedd mewn man aros ar wahân i'r un a amheuir os yw'n bosibl;
- bod pwynt cyswllt ar gyfer diodefwyr fel y gallant gael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hachos wrth ei wrando yn y llys.

3.4 Rhaid i **staff llys GLITEM** sicrhau hefyd lle bynnag y bo modd:

- nad yw diodefwyr sy'n rhoi tystiolaeth yn gorfod aros mwy na dwy awr;
- bod manylion cyswllt yr holl ddiodefwyr sy'n rhoi tystiolaeth yn cael eu cymryd fel y gallant adael cyffiniau'r llys ac fel y gellir cysylltu â nhw wedyn pan fo angen.

Ar ôl y Treial

3.5 Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** roi gwybod i ddiodefwyr am ganlyniad gwrandawriad y treial o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y llys a rhaid iddynt gyfeirio diodefwyr at wasanaethau i ddiodefwyr os yw'n briodol ac os ydynt ar gael. Os yw'r heddlu yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwyr ac yn cytuno â'r **Uned Gofal i Dystion** i ddarparu'r wybodaeth hon i ddiodefwyr yn ei lle, rhaid iddynt ddweud wrth ddiodefwyr y byddant yn gwneud hynny. Mae'n rhaid i'r hysbysiad am y canlyniad gynnwys, pan fo hynny ar gael, crynodeb byr o'r rhesymau dros y penderfyniad dan sylw²⁰.

3.6 Rhaid i **GEG** dalu unrhyw dreuliau y mae **GEG** wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i'r diodefwyr ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl cael ffurflen hawlio sydd wedi'i llenwi'n gywir.²¹

3.7 Rhaid i **GEG** gynnig cwrdd â pherthnasau agos mewn profedigaeth mewn achosion cymwys (gweler yr eirfa):

- pan fo'r troseddwr wedi cael collfarn er mwyn cadarnhau bod DPD wedi'i wneud neu i gadarnhau ei fod yn gyfredol. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn y llys fel arfer;
- lle y rhoddwyd rhyddfarn neu gollfarn ar gyhuddiad llai difrifol. Bydd y cynnig i gael cyfarfod yn cael ei gynnal ychydig o wythnosau wedi i'r achos ddod i ben. Os bydd cyfarfod yn cael ei gynnal, bydd **GEG** yn cysylltu â'r teulu, drwy'r heddlu fel y bo'n briodol, er mwyn cytuno ar ba bryd y dylid cynnal y cyfarfod.

²⁰ Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu rhesymau yn gymwys i ganlyniad terfynol achos rheithgor.

²¹ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erllyn y Coron (Lwfansau Tystion ayb) 1988.

Adran 4: Gwybodaeth am Ddedfrydu

- 4.1 Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** a **GEG** sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 4 o Bennod 2, Adran A sy'n gyfrifoldeb iddynt. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr a chytuno â'r **Uned Gofal i Dystion** i ddarparu'r wybodaeth yn yr adran hon i ddiodefwyr yn ei lle. Rhaid i'r **heddlu** ddweud wrth ddiodefwyr os yw'n gweithredu fel hyn.
- 4.2 Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** roi gwybod i ddiodefwyr am ddedfryd yr unigolyn a amheuir, os cafodd gollfarn, o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth hon gan y llys. Mae'n rhaid i hyn gynnwys eglurhad byr o ystyr ac effaith y ddedfryd.
- 4.3 Os na fydd **Unedau Gofal i Dystion** yn gallu ateb cwestiynau gan y dioddefwr, dylent gyfeirio'r dioddefwr at **GEG**.
- 4.4 Os yw'r un a amheuir wedi cael collfarn, rhaid i **GEG** ateb unrhyw gwestiynau gan y dioddefwr am y ddedfryd os yw'r dioddefwr wedi cael ei gyfeirio at **GEG** gan yr **Uned Gofal i Dystion**.
- 4.5 Hefyd rhaid i **GEG** gynnig cwrdd â pherthnasau agos mewn profedigaeth mewn **achosion cymwys** (gweler yr eirfa) ar ôl y gwrandawriad dedfrydu, i egluro'r ddedfryd a roddwyd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn y llys fel arfer..

Adran 5: Apeliadau

- 5.1 Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol isod yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 5 o Bennod 2, Adran A sy'n gyfrifoldeb iddynt. Mewn rhai achosion, gall yr **heddlu** weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr a chytuno â'r **Uned Gofal i Dystion** i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ddiodefwyr yn ei lle. Rhaid i'r **heddlu** ddweud wrth ddiodefwyr os yw'n gweithredu fel hyn.
- (i)Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i'r Goruchaf Lys.**
- 5.2 Rhaid i **staff Llys y Goron** sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i **Unedau Gofal i Dystion** o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael apêl yn erbyn collfarn neu ddedfryd, ac o fewn 1 diwrnod gwaith am ganlyniad yr apêl. Wedyn rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** roi gwybod i'r dioddefwr am y datblygiadau hyn o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth, gan gynnwys:
 - dyddiad, amser a lleoliad unrhyw wrandawriadau; a
 - chanlyniad yr apêl, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y ddedfryd wreiddiol.
 - 5.3 Rhaid i **staff Llys y Goron** sicrhau hefyd lle bynnag y bo modd eu bod:
 - yn darparu pwynt cyswllt i'r dioddefwr yn ystod oriau gwaith arferol;
 - yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer aros ac eistedd yn unol â Phennod 2, Rhan A, Adran 5(i), paragraff 5.3, gan gynnwys cyfleusterau ar wahân i ddiodefwyr a'u teulu a'u ffrindiau os ydynt ar gael.

(ii) Os gwneir cais i apelio yn erbyn collfarn neu ddedfryd i'r Llys Apêl, neu os gwneir cais neu apêl i Oruchaf Lys y DU mewn Achos Troseddol ar bwynt cyfreithiol.

- 5.4 Rhaid i **GEG** sicrhau lle bynnag y bo modd ei fod yn enwi'r Uned Gofal i Dystion gywir i'r Swyddfa Apeliadau Troseddol o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael cais i wneud hynny.
- 5.5 Ar ôl cael hysbysiad bod yr apelydd wedi cael caniatâd i apelio, rhaid i **GEG** gynnig cwrdd â pherthnasau agos mewn profedigaeth yn yr holl achosion cymwys (gweler yr eirfa) i egluro natur yr apêl a phrosesau'r llys.
- 5.6 Rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol a Goruchaf Lys y DU** sicrhau lle bynnag y bo modd eu bod yn hysbysu'r Uned Gofal i Dystion yr un pryd ag y maent yn hysbysu'r apelydd pan roddir caniatâd i apelio, pan fydd dyddiad ac amser wedi'u pennu ar gyfer gwrandawriad neu pan fydd dyddiad gwrandawriad wedi'i newid a phan fydd canlyniad yr apêl yn hysbys.
- 5.7 Hefyd rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol** hysbysu'r Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith am benderfyniad i ryddhau apelydd ar fechnïaeth cyn yr apêl.
- 5.8 Ar ôl cael gwybod gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol fod apelydd i'w ryddhau ar fechnïaeth cyn yr apêl neu fod amodau mechnïaeth wedi'u hamrywio, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** roi gwybod i bob un o'r diodefwyr ac i dîm cysylltu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn 1 diwrnod gwaith.
- 5.9 Ar ôl cael y wybodaeth berthnasol gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** roi'r wybodaeth ganlynol i ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol:
- bod y caniatâd i apelio wedi'i roi ac y cynhelir gwrandawriad ar ffurf benodedig;
 - pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwr yn ystod oriau gwaith arferol yn ystod y gwrandawriad;
 - canlyniad yr apêl gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y ddedfryd wreiddiol.
- 5.10 Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** ddarparu'r wybodaeth ym mharagraff 5.9 i **ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a diodefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth** ac i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y Swyddfa Apeliadau. Rhaid darparu'r wybodaeth hon i bob diodefwr arall o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl ei chael.
- 5.11 Ar ôl cael gwybodaeth gan staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU am amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad neu am unrhyw newid yn nyddiadau gwrandawriadau, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** roi gwybod i ddiodefwyr ac i dîm cysylltu â diodefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan y llys.
- 5.12 Rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol a Goruchaf Lys y DU** sicrhau hefyd eu bod:
- yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer aros ac eistedd yn unol â Phennod 2, Rhan A, paragraff 5.3, gan gynnwys cyfleusterau ar wahân i ddiodefwyr a'u perthnasau agos os ydynt ar gael;
 - yn darparu copi o ddyfarniad y llys ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi i ddiodefwr yn yr achos neu lefarydd ar ran ei deulu os gwneir cais.

- 5.13 Rhaid i **Unedau Gofal i Dystion** ddarparu eu manylion cyswllt i GEG a'r heddlu neu roi gwybod iddynt am y man ar gyfer derbyn hysbysiadau sy'n ymwneud â'r Uned Gofal i Dystion. Yn ogystal â hyn, rhaid iddynt hysbysu GEG a'r heddlu am unrhyw newid yn y wybodaeth hon.
- 5.14 Os bydd **Uned Gofal i Dystion** yn cael ei hysbysu am apêl ynghylch achos nad yw'n gyfrifol amdano, rhaid iddi hysbysu'r llys perthnasol: **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU**. Rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU** gydgyssylltu â GEG i bennu'r Uned Gofal i Dystion gywir. Ar ôl ei phennu, rhaid i **staff y Swyddfa Apeliadau Troseddol neu Oruchaf Lys y DU** anfon yr hysbysiad i'r Uned Gofal i Dystion gywir o fewn 1 diwrnod gwaith ar gyfer **dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol, dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson a dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth**. Ar gyfer pob dioddefwr arall, rhaid anfon yr hysbysiad i'r Uned Gofal i Dystion gywir o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 5.15 Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** roi gwybod i'r dioddefwr am y cyfle i wneud DPD newydd neu ychwanegol mewn amgylchiadau penodedig.

Adran 6: Ar ôl Treial

Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol isod yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 6 o Bennod 2 sy'n gyfrifoldeb iddynt.

(i) Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

- 6.1 Wrth gynnal adolygiad, rhaid i **Gomisiwn Adolygu Achosion Troseddol** asesu'r effaith bosibl ar y dioddefwr a phenderfynu a ddylid ei hysbysu am yr adolygiad hwnnw. Rhaid i'r **Comisiwn** gofnodi'r rhesymau am ei benderfyniadau ynghylch sut i gysylltu â'r dioddefwr a hysbysu'r heddlu am y penderfyniadau hynny mewn achosion priodol.
- 6.2 Rhaid i'r **Comisiwn** roi gwybod i'r dioddefwr os yw'n tybio bod gobaith rhesymol y daw adolygiad i sylw'r dioddefwr.
- 6.3 Os bydd y **Comisiwn** yn penderfynu ei bod yn briodol cysylltu â'r dioddefwr yn ystod yr adolygiad, rhaid i'r **Comisiwn** roi gwybod i'r dioddefwr ei fod wedi cael cais a bod yr achos yn cael ei adolygu. Ar ôl yr adolygiad, bydd y **Comisiwn** yn penderfynu a fydd yn cyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, a bydd yn rhoi gwybod i'r dioddefwr am ei benderfyniad oni bai ei fod wedi gofyn yn benodol am beidio â chael ei hysbysu.
- 6.4 Os yw'r **Comisiwn** yn penderfynu nad yw'n briodol cysylltu â'r dioddefwr yn ystod yr adolygiad, ond yn penderfynu wedyn i gyfeirio'r gollfarn neu'r ddedfryd i'r llysoedd, rhagdybir y bydd y **Comisiwn** yn rhoi gwybod i'r dioddefwr am y cyfeirio.

(ii) Cyswllt dieisiau gan droseddwyr

- 6.5 Rhaid i'r **Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol** gynnal llinell gymorth (Llinell Gymorth i Ddiodefwyr) i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu ffonio os byddant yn cael cyswllt dieisiau gan garcharor.
- 6.6 Os rhoddir gwybod am gyswllt dieisiau gan droseddwr i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**, rhaid iddo wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwy Cenedlaethol os yw carcharor wedi cysylltu fel hyn drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol, gan nodi'r cyfeiriad gwe ar gyfer proffil defnyddiwr y troseddwr;
 - rhoi gwybod i'r carchar lle y mae'r troseddwr yn cael ei gadw os cafwyd unrhyw gyswllt â diodefwyr gan garcharor, fel bod y carchar yn gallu ymchwilio i hynny.
- 6.7 Rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** ystyried hefyd a yw'r troseddwr wedi torri amodau ei drwydded os cafwyd unrhyw gyswllt â diodefwyr gan droseddwr tra oedd y troseddwr ar drwydded.
- 6.8 Os rhoddir gwybod am gyswllt dieisiau i **Dim Troseddwy Ifanc**, rhaid iddo wneud y canlynol:
- rhoi gwybod i'r carchar lle y mae'r troseddwr yn cael ei gadw os cafwyd unrhyw gyswllt â diodefwyr gan garcharor, fel bod y carchar yn gallu ymchwilio i hynny;
 - ystyried a yw'r troseddwr wedi torri amodau ei drwydded os cafwyd unrhyw gyswllt â diodefwyr gan droseddwr tra oedd y troseddwr ar drwydded.
- (iii) Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (CCD)²²**
- 6.9 O fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl cael y wybodaeth gan lys, mae'n ofynnol bod yr **Uned Gofal i Dystion neu Dimau Troseddwy Ifanc** (os yw'r troseddwr dan 18 oed) yn hysbysu diodefwyr troseddau gan rai sydd wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy am drosedd treisgar neu rywiol²³, neu wedi'u cadw mewn ysbyty i gael triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, am y CCD.
- 6.10 Oni bai fod y diodefwyr yn rhoi gwybod i'r **Uned Gofal i Dystion** o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael ei hysbysu am ei hawl i gymryd rhan yn y CCD nad yw'n dymuno i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gysylltu ag ef o dan y CCD, rhaid i'r **heddlu neu'r Uned Gofal i Dystion** drosglwyddo manylion diodefwyr cymwys i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** fel y gellir cynnig lle iddynt yn y CCD. Rhaid i'r **heddlu neu'r Uned Gofal i Dystion** wneud yr atgyfeiriad hwn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd y cyfnod hwn.
- 6.11 Felly rhaid cwblhau'r camau ym mharagraffau 6.9 a 6.10 o fewn 21 o ddiwrnodau gwaith ar ôl hysbysu'r Uned Gofal i Dystion am ddedfryd y llys. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwyr a chytuno â'r Uned Gofal i Dystion i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i ddiodefwyr yn ei lle. Rhaid i'r heddlu ddweud wrth ddiodefwyr os yw'n gweithredu fel hyn.
- 6.12 Rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:
- cysylltu â diodefwyr troseddau gan rai sydd wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy, neu eu cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ar ôl cael collfarn am drosedd treisgar neu rywiol²⁴, i gynnig eu cynnwys yn y CCD, oni bai eu bod wedi dweud yn benodol wrth yr Uned Gofal i Dystion nad ydynt yn dymuno i'w manylion gael eu trosglwyddo;

22 Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol fel yr amlinellir hynny yn adrannau 35-45 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

23 Yn unol â'r diffiniad yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

24 Yn unol â'r diffiniad yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

- neilltuo SCD ar gyfer diodefwyr sy'n dewis cymryd rhan yn y CCD, oni bai fod y diodefwr yn ddiodefwr trosedd gan droseddwr a gafodd ei gadw mewn ysbyty fel claf heb fod dan gyfyngiadau;
 - darparu gwybodaeth i ddiodefwyr am gamau allweddol penodol yn nedfryd y troseddwr os ydynt wedi penderfynu cymryd rhan yn y CCD ac yn dymuno cael y wybodaeth hon, ac os credir ei bod yn briodol darparu'r wybodaeth hon yn ôl disgrisiwn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
 - cael gwybod a yw'r diodefwr yn dymuno cael gwybodaeth a/neu gyflwyno sylwadau ynghylch amodau trwydded neu amodau rhyddhau, a throsglwyddo eu barn i'r rheini sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad;
 - rhoi gwybod i'r diodefwr am amodau trwydded neu amodau rhyddhau sy'n berthnasol i'r diodefwr a'i deulu;
 - cynnig y gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio uchod i berthnasau agosaf y diodefwr a pherthnasau agos eraill mewn profedigaeth os yw'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn credu bod hyn yn briodol;
 - cynnig y gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio uchod i riant, gwarcheidwad neu ofalwr i ddiodefwr sydd o dan 18 oed, neu'n oedolyn sy'n agored i niwed, neu heb y gallu i gymryd rhan yn y CCD am reswm arall oni bai fod hynny'n cael ei ystyried yn groes i'r budd pennaf i'r diodefwr;
 - mewn achosion sy'n ymwneud â Throseddwy'r sy'n Wladolion Tramor, cydweithio â'r awdurdodau mewnfudo i sicrhau hyd y gellir fod gwybodaeth am statws mewnfudo'r carcharor ac unrhyw wybodaeth am allgludo yn cael ei rhoi i ddiodefwyr.
- 6.13 Os yw'r troseddwr wedi'i gadw mewn ysbyty, rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** gydymffurfio â'u dyletswyddau yn unol ag adrannau 36-45 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004. Er enghraifft, os yw'r troseddwr yn glaf heb fod dan gyfyngiadau, rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** wneud y canlynol:
- rhoi gwybod i'r diodefwr y bydd gwybodaeth am y troseddwr yn cael ei darparu gan reolwr yr ysbyty yn y dyfodol, nid gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
 - gofyn i'r diodefwr a yw'n dymuno i'w fanylion gael eu trosglwyddo i'r rheolwr ysbyty perthnasol, fel y gellir darparu'r wybodaeth hon yn y dyfodol;
 - ranfon manylion y diodefwr i'r ysbyty perthnasol lle y mae'r troseddwr yn cael ei gadw, os yw'r diodefwr yn gofyn am wneud hynny.
- 6.14 Rhaid i'r **gwasanaeth carchardai** sicrhau bod unrhyw amodau a gymeradwywyd sy'n ymwneud â diodefwyr wedi'u cynnwys yn nhrwydded rhyddhau'r troseddwr a sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.
- (iv) Adroddiadau Cryno i Ddiodefwyr am Drosedd Difrifol Pellach**
- 6.15 Os yw'r troseddwr wedi cael collfarn am Drosedd Difrifol Pellach a fyddai'n galw am Adolygiad Trosedd Difrifol Pellach gorfodol²⁵, ac os cafodd y troseddwr ei gyhuddo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2013, rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** wneud y canlynol:
- rhoi gwybod i'r diodefwr ar ôl rhoi'r ddeddfryd am ei hawl i ofyn am gael Adroddiad Cryno i Ddiodefwr sy'n nodi canfyddiadau'r Adolygiad Trosedd Difrifol Pellach;

²⁵ Llofruddiaeth, dynladdiad neu farwolaeth o ganlyniad i yrru'n beryglus; trais, ymosod drwy dreiddiad, neu drosedd rywiol yn erbyn plentyn o dan 13 oed; neu geisio un o'r uchod.

- egluro bod ganddo hawl i gael yr adroddiad hwn hyd yn oed os yw'n dewis peidio â chymryd rhan yn y CCD;
 - trosglwyddo'i fanylion i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, oni bai fod y diodefwyr yn dweud nad yw'n dymuno i hynny ddigwydd;
 - cyfeirio'r diodefwyr at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i gael mwy o wybodaeth;
 - hysbysu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a yw'r diodefwyr wedi cael gwybod am yr Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr ac a fyddai'n hoffi cael un, hyd yn oed os nad yw'n dymuno cymryd rhan yn y CCD.
- 6.16 Os cafodd y troseddwr ei gyhuddo o gyflawni Trosedd Difrifol Pellach ar ôl 1 Ebrill 2013 ac os byddai'r trosedd yn galw am Adolygiad Trosedd Difrifol Pellach gorfodol, rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** wneud y canlynol:
- cysylltu â'r Uned Gofal i Dystion ar ôl cael ei hysbysu bod y troseddwr wedi'i gyhuddo o gyflawni Trosedd Difrifol Pellach, a rhoi gwybod i'r Uned Gofal i Dystion y dylid hysbysu'r diodefwyr, ar ôl rhoi collfarn, am ei hawl i gael Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr;
 - ar ôl rhoi'r ddedfryd ac ar ôl cael manylion cyswllt gan yr Uned Gofal i Dystion, cysylltu â diodefwyr y Trosedd Difrifol Pellach i gynnig gwybodaeth iddo am Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr oni bai fod y diodefwyr wedi datgan yn benodol nad yw'n dymuno i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gysylltu ag ef;
 - cynnig cyfle i'r diodefwyr gael cyfarfod wyneb yn wyneb ag uwch-reolwr i egluro'r Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr a cheisio ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddo am yr adroddiad.
- 6.17 Os nad yr Uned Gofal i Dystion oedd yr un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwyr, mae'n ofynnol bod y swyddog heddlu sydd wedi gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwyr yn darparu'r wybodaeth hon i'r diodefwyr. Er enghraifft, gallai fod yn Swyddog Cyswllt Teulu neu'n swyddog arbenigol arall.
- (v) Proses Adolygu'r Gofynion Hysbysu ar gyfer Troseddwr Rhyw**
- 6.18 Rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** wneud y canlynol:
- egluro i ddiodefwyr troseddau rhywiol sydd wedi dewis cymryd rhan yn y CCD fod troseddwr sy'n gorfod cydymffurfio â gofynion hysbysu drwy gydol eu hoes yn gallu gwneud cais am eu dileu, a'r cyfnodau ar gyfer gwneud hynny;
 - egluro bod diodefwyr yn gallu cyflwyno sylwadau i'r heddlu yn ystod y broses adolygu, a'u cyfeirio at yr heddlu i gael mwy o wybodaeth.
- 6.19 Rhaid i'r **heddlu** wneud y canlynol:
- cysylltu â diodefwyr sydd wedi darparu eu manylion cyswllt os gwneir cais am adolygiad;
 - os yw'n briodol, darparu gwybodaeth i ddiodefwyr am y ffordd y mae'r broses ar gyfer adolygu gofynion hysbysu yn gweithio;
 - os yw'n briodol, ystyried sylwadau gan y diodefwyr wrth adolygu cais y troseddwr.

(vi) Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr

6.20 Os yw'r Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau neu drosglwyddo'r troseddwr perthnasol a'r dioddefwr wedi dewis cymryd rhan yn y CCD, rhaid i'r **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'r dioddefwr ar ôl cael ei hysbysu (a) y bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau neu drosglwyddo'r troseddwr, (b) y bydd gwrandawriad llafar yn cael ei gynnal ac (c) pa bryd y cynhelir y gwrandawriad;
- darparu gwybodaeth i ddiodefwyr am y DPD, y Bwrdd Parôl a'u hawl i wneud cais i fod yn bresennol mewn gwrandawriad yn ôl disgrisiwn cadeirydd panel y Bwrdd Parôl, a chymryd pob cam rhesymol i gael gwybod a yw dioddefwr am wneud DPD;
- anfon y DPD ymlaen mewn pryd i banel y Bwrdd Parôl i'w ystyried;
- anfon ymlaen unrhyw geisiadau i beidio â datgelu'r DPD i Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol;
- anfon ymlaen unrhyw sylwadau y mae'r dioddefwr yn eu gwneud am amodau trwydded mewn pryd i banel y Bwrdd Parôl eu hystyried.

6.21 Rhaid i'r **Bwrdd Parôl** wneud y canlynol:

- ystyried yr holl sylwadau y mae diodefwyr wedi'u gwneud am amodau trwydded;
- os yw dioddefwr wedi gofyn am amod trwydded nad yw wedi'i gynnwys, egluro pam nad yw wedi'i gynnwys;
- darllen DPD os cyflwynwyd un;
- ystyried unrhyw geisiadau gan y dioddefwr i fod yn bresennol yn y gwrandawriad llafar;

- cydsynio i gais gan y dioddefwr i fod yn bresennol oni bai fod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

(vii) Dioddefwyr troseddau wedi'u cyflawni gan rai dan 18 mlwydd oed

6.22 Mewn achosion lle nad yw'r dioddefwr yn gymwys i gael gwasanaethau dan y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, rhaid i'r Tîm Troseddwr Ifanc wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i'r dioddefwr am hynt achos y troseddwr, os yw'r dioddefwr yn cytuno ar hynny;
- darparu gwybodaeth am wasanaethau priodol i ddiodefwyr os yw'r dioddefwr yn gofyn am gymorth ychwanegol.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

7.1 Caiff Cyfiawnder Adferol ei ddarparu, ei ariannu a'i gomisiynu gan nifer o ddarparwyr gwasanaeth, yn cynnwys **heddluoedd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Carchardai EM, Timau Troseddwr Ifanc a Chomisiynwyr Troseddu**. Er y gall y darparwr gwasanaeth amrywio yn ddibynnol ar p'un a yw'r cais am Gyfiawnder Adferol yn cael ei wneud gan y dioddefwr neu'r troseddwr, mae'n rhaid i unrhyw ddarparwr gwasanaeth a restrir ym mharagraff 8 Rhagarweiniad y Cod hwn sy'n darparu Cyfiawnder Troseddol fodloni gofynion yr adran hon. Pan fo darparwr gwasanaeth yn ariannu neu'n comisiynu sefydliad i ddarparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol ar eu rhan, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y sefydliad hwnnw yn bodloni gofynion yr adran hon..

7.2 Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 7 o Bennod 2, Rhan A sy'n gyfrifoldeb iddynt.

- 7.3 I ddechrau, rhaid i'r **heddlu** drosglwyddo manylion cyswllt y diodefwr i'r sefydliad fydd yn darparu'r gwasanaethau Cyfiawnder Adferol i droseddwr i alluogi'r diodefwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cyfiawnder Adferol, oni bai fod y diodefwr wedi gofyn iddynt beidio â gwneud hynny.
- 7.4 Yn ddibynnol ar p'un a yw Cyfiawnder Adferol ar gael yn yr ardal berthnasol, mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n darparu Cyfiawnder Adferol wneud y canlynol:
- darparu gwybodaeth lawn a diduedd am Gyfiawnder Adferol i ddiodefwyr ac egluro sut y gallant gymryd rhan. Mae'n rhaid i hynny gynnwys gwybodaeth am broses Cyfiawnder Adferol, y canlyniadau posibl, a'r gweithdrefnau ar gyfer goruchwyllo gweithredu unrhyw beth y cytunir arno gan y diodefwr a'r troseddwr o ganlyniad i'w cyfranogiad;
 - cadarnhau bod y troseddwr wedi cydnabod ffeithiau sylfaenol yr achos a'i fod yn barod i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol;
 - cael caniatâd ysgrifenedig diodefwr sy'n fodlon cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol. Mae'n rhaid i ganiatâd o'r fath fod yn wirfoddol ac yn seiliedig ar wybodaeth, a gall y diodefwr ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Mae'n bwysig nad yw neb yn teimlo dan bwysau i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol;
 - bod yn fodlon bod Cyfiawnder Adferol er budd i'r diodefwr, gan roi ystyriaeth benodol i sensitifrwydd yr achos dan sylw a/ neu ba mor agored i niwed yw'r diodefwr, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â thrais rhywiol neu ddomestig, masnachu pobl, ystelcio a manteisio'n rhywiol ar blant;
- sicrhau diogelwch diodefwyr drwy roi mesurau diogelwch priodol ar waith ac ystyried anghenion y diodefwr fel na chaiff y diodefwr ei erlid eto, yn enwedig yn y mathau o achosion sydd wedi'u rhestru uchod;
 - Pan fo diodefwyr yn gofyn am gael cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol, ni ddylent gael eu rhwystro yn awtomatig yn seiliedig ar y drosedd a gyflawnwyd yn eu herbyn. Fodd bynnag, bydd yr hwylusydd yn ystyried amryw o faterion, yn cynnwys y risg o ddiodefwr o droseddu eto, a gall benderfynu na fyddai'n briodol i Gyfiawnder Adferol ddigwydd. Pan fo troseddwr yn gwneud cais i gymryd rhan, yn arbennig troseddwr a gollfarnwyd am un o'r troseddau a restrir uchod, bydd cymhelliad y troseddwr yn cael ei archwilio'n ofalus, ac mae'n eithriadol annhebygol y byddai cais o'r fath yn cael ei ganiatáu.
 - sicrhau bod unrhyw Gyfiawnder Adferol yn cael ei ddarparu gan hwylusydd hyfforddedig a'i fod yn bodloni safonau ansawdd cydnabyddedig.
 - Sicrhau bod mesurau diogelu wedi eu sefydlu er mwyn gwarchod cyfrinachedd pob trafodaeth mewn perthynas â'r broses Cyfiawnder Troseddol, neu drafodaethau sy'n rhan o hynny. Efallai na fydd trafodaethau o'r fath yn cael eu datgelu heb gytundeb yr holl bartion, oni bai fod yna fudd cyhoeddus tra phwysig neu ofyniad cyfreithiol i wneud hynny;
 - cadw data personol diodefwyr yn ddiogel ac ar wahân i ddata sy'n ymwneud â throseddwr;

- sicrhau bod unrhyw ganlyniad y cytunir arno gan y diodefwyr a'r troseddwr o ganlyniad i Gyfiawnder Troseddol yn cael ei wneud yn wirfoddol, a bod y diodefwyr yn cael gwybod am hynt y troseddwr mewn perthynas â bodloni'r canlyniad cytunedig.

Adran 8: Iawndal

Mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol isod yn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 8 o Bennod 2, Rhan A sy'n gyfrifoldeb iddynt.

(i) Gwneud cais

8.1 Rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wneud y canlynol:

- darparu ar gyfer yr hawliau sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan A, paragraffau 8.4-8.6;
- ymateb i'r holl ohebiaeth ysgrifenedig ynghylch cais o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith ar ôl ei chael;
- darparu ymateb i apel i'r apelydd ac i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol o fewn 42 o ddiwrnodau wedi i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf hysbysu'r Awdurdod fod apel wedi'i chofnodi.

(ii) Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf - digolledu am anafiadau troseddol

8.2 Rhaid i staff gweinyddol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol) wneud y canlynol:

- anfon llythyr at yr apelydd yn cydnabod eu bod wedi cael y cais a chyfeirio'r apelydd at wefan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol) i gael mwy o wybodaeth;

- trefnu i wybodaeth berthnasol fod ar gael i apelwyr ynghylch y weithdrefn apelio drwy lunio a diweddarau canllawiau, gan gynnwys eu gwefan;
- ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gais, fel trefnu i gyfieithydd fod ar gael yn y gwrandawriad, a rhoi gwybod â phwy i gysylltu i wneud trefniadau o'r fath;
- ymateb i'r holl ohebiaeth oddi wrth hawlwyd ynghylch achosion apel dan y Cynllun y mae angen ei hateb ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cafodd y Tribiwnlys yr ohebiaeth;
- hysbysu'r holl hawlwyd am amser, dyddiad a lleoliad eu gwrandawriad apel rhwng pedair a chwe wythnos cyn y gwrandawriad. Ceir mwy o wybodaeth am y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Digolledu am Anafiadau Troseddol). Ar eu gwefan yn <https://www.gov.uk/criminal-injuries-compensation-tribunal>;
- os yw'n briodol, darparu hysbysiad o benderfyniad i'r hawlwyd ar ddyddiad y gwrandawriad;;
- ymateb i'r holl geisiadau am resymau manwl y Tribiwnlys dros wneud y penderfyniad o fewn 1 mis ar ôl cael ceisiadau o'r fath.

8.3 Rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol anfon llythyr at yr apelydd gan amgáu copïau o'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'w achos o fewn chwe wythnos. Hefyd rhaid iddo ystyried unrhyw geisiadau am ailagor yr achos ar sail feddygol wedi i'r Tribiwnlys wneud ei benderfyniad, os oes newid sylweddol yng nghyflwr meddygol y diodefwyr.

(iii) Ceisiadau gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol)

8.4 Rhaid i'r **heddlu** ymateb i'r ceisiadau cychwynnol (TB1) o fewn 30 o ddiwrnodau ar ôl cael y ceisiadau oddi wrth yr Awdurdod neu'r Tribiwnlys. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cywir ar gael ar y pryd i asesu hawliad y diodefwyr am ddiogollediad. Rhaid ymateb i geisiadau a geir wedyn oddi wrth yr Awdurdod (TB2) o fewn 60 o ddiwrnodau ar ôl i'r heddlu eu cael.

Adran 9: Cwynion

9.1 Rhaid i **ddarparwyr gwasanaeth** sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau yn Adran 9 o Bennod 2, Rhan A pan fyddant yn cael cwyn, gan gydnabod diodefwyr a'u trin mewn ffordd barchus, ystyriol a phroffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.

9.2 Rhaid i **ddarparwyr gwasanaeth** fod â phroses gwyno glir y gall diodefwyr ei defnyddio i wneud cwyn os nad yw'r hawliau sydd wedi'u disgrifio yn y cod wedi cael eu gwireddu.

9.3 Rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** ddarparu naill ai gydnabyddiaeth neu ymateb i'r diodefwyr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael ei gwyn. Os rhoddir cydnabyddiaeth, rhaid iddi nodi'n glir beth yw proses gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer anfon ymateb o sylwedd i'r gwyn lle y bo yn briodol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu manylion cyswllt clir i ddiodefwyr ar lefel leol a hefyd, os yw'n briodol, ar lefel genedlaethol fel y gallant wneud ymholiadau neu gwynion a rhaid iddynt eu rhoi i'r diodefwyr ar ei gais.

9.4 Os bydd **darparwr gwasanaeth** (y darparwr cychwynnol) yn cael cwyn a ddylai fod wedi'i hanfon at ddarparwr gwasanaeth gwahanol, bydd y darparwr cychwynnol yn gyfrifol am sicrhau bod y gwyn yn cael ei chyfeirio at y darparwr gwasanaeth priodol er mwyn cael ymateb. Bydd y darparwr cychwynnol yn parhau'n gyfrifol am y gwyn nes bydd y darparwr gwasanaeth priodol wedi cymryd cyfrifoldeb dros y gwyn.

9.5 Rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** ddarparu ymateb llawn ac amserol sy'n hysbysu diodefwyr am y canlyniad i'w cwyn, ac yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gall y diodefwyr godi ei gwyn ar lefel uwch gyda'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd os yw'n dymuno. Rhaid darparu'r ymateb mewn iaith a fformat hawdd eu deall.

Pennod 3

**Plant a
Phobl Ifanc**

Plant a Phobl Ifanc Rhan A: Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Mae'r adran hon yn egluro pa wybodaeth, cymorth a gwasanaethau y dylech eu cael gan y system cyfiawnder troseddol os ydych o dan 18 oed ac yn ddiodefwyr trosedd.

Gall eich rhiant neu warcheidwad gael cymorth hefyd oni bai ei fod yn unigolyn a amheuir mewn cysylltiad â'r trosedd neu os credir nad yw hynny er y budd pennaf i chi. Unigolyn a amheuir yw rhywun y mae'r heddlu'n credu y gallai fod yn gysylltiedig â'r trosedd.

Sut y dylwn ddarllen y rhan hon o'r Cod?

Gallwch ddefnyddio'r adran hon i'ch helpu i ddilyn eich taith drwy'r system cyfiawnder troseddol a chael gwybod pa gymorth sydd ar gael ar bob cam. Mae dwy ran i'r rhan hon. Mae'r rhan gyntaf wedi'i hysgrifennu ar eich cyfer chi ac mae'n dangos pa wybodaeth, cymorth a gwasanaethau a ddylai fod ar gael i chi. Yr enw ar y rhain yw 'hawliau'. Mae'r ail ran wedi'i hysgrifennu ar gyfer sefydliadau a restrir ym mharagraff o'r Rhagarweiniad, sy'n gweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol, fel yr heddlu, a ddylai roi'r cymorth hwn i chi.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r eirfa yng nghefn y Cod hwn sy'n egluro ystyr rhai o'r geiriau ac ymadroddion.

Mae taflen ar gael hefyd sy'n rhoi arweiniad byrrach ar y Cod ac yn egluro beth y gallwch ei ddisgwyl yn ystod y broses cyfiawnder troseddol. Gellir gweld hyn ar- lein.²⁶

Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu

Gwybodaeth a roddir i chi pan fyddwch yn rhoi gwybod am drosedd

- 1.1 Pan fyddwch yn rhoi gwybod am drosedd i'r heddlu, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi riportio trosedd, yn cynnwys manylion elfennol am y drosedd. Gallai'r gydnabyddiaeth ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr, hysbysiad electronig megis e-bost neu neges destun, neu gall fod yn neges a ysgrifennwyd â llaw. Efallai y byddwch yn gwneud cais i beidio â derbyn y cyfryw gydnabyddiaeth. Pan fo'r heddlu yn ystyried y gall anfon y gydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch arwain at risg o niwed i chi, efallai y byddant yn cytuno i beidio ag anfon un atoch;
 - cael eglurhad clir o'r hyn a fydd yn digwydd nesaf;
 - taflen leol neu genedlaethol neu gyfeiriad gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth i ddiodefwyr troseddau, o fewn 5 diwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) wedi i'r diodefwyr riportio trosedd neu y cysylltwyd ag ef fel diodefwyr yn ystod ymchwiliadau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am bobl y gallwch siarad â nhw os ydych yn anhapus a bod angen cymorth arnoch, a sut i gysylltu â nhw;

²⁶ www.gov.uk

- siarad â'r heddlu i'ch helpu i weld pa gymorth sydd ei angen arnoch. Yr enw ar hyn yw "asesiad o anghenion";
- bod eich manylion cyswllt yn cael eu hanfon i sefydliadau sy'n helpu diodefwyr o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl rhoi gwybod am y trosedd oni bai eich bod yn gofyn i'r heddlu beidio â gwneud hynny. Yr enw ar y sefydliadau hyn yn y Cod hwn yw "gwasanaethau i ddiodefwyr". Byddant yn cysylltu â chi i ddweud pa gymorth sydd ar gael i chi.
- cael recordio'ch datganiad ar fideo i'w gwneud yn haws i chi ddweud wrth yr heddlu beth a ddigwyddodd. Os byddwch yn gwneud hyn, mae'n bosibl hefyd na fydd yn rhaid i chi ei ailadrodd yn y llys. Gallwch ddewis rhoi tystiolaeth yn y llys eich hun os byddai'n well gennych beidio â gwneud datganiad ar fideo;
- cael gwybod am Fesurau Arbennig os yw'n bosibl y byddwch yn gorfod rhoi tystiolaeth yn y llys. Mesurau Arbennig yw pethau y mae'r llys yn eu gorchymyn er mwyn ei gwneud yn haws i chi roi tystiolaeth yn y llys. Gall y rhain gynnwys rhoi tystiolaeth mewn ystafell wahanol drwy gyswllt fideo neu farnwyr yn diosg eu wigiau a'u gynau. Mae rhestr o'r holl Fesurau Arbennig ym mharagraffau 1.13-1.15 o Bennod 1.

Ymchwiliad yr Heddlu

- 1.2 Ymchwiliad heddlu yw'r gwaith y mae'r heddlu'n ei wneud i chwilio am dystiolaeth am y trosedd yr ydych wedi rhoi gwybod iddynt amdano, ac am rai sydd dan amheuaeth o gyflawni'r trosedd hwnnw. Os bydd yr heddlu'n penderfynu peidio ag ymchwilio, byddant yn rhoi gwybod i chi o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu hynny.
- 1.3 Pan fyddwch yn dweud wrth yr heddlu fod trosedd wedi digwydd, gall yr heddlu ofyn i chi ddweud wrthynt mewn cyfweiliad beth a ddigwyddodd. Gelwir hyn yn ddatganiad tyst. Os byddwch yn rhoi datganiad tyst i'r heddlu, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
 - cael rhywun gyda chi oni bai fod yr heddlu'n penderfynu na chaniateir hynny ac yn egluro i chi pam. Gallai fod yn rhiant neu'n ffrind i'r teulu ond fel arfer rhaid iddo fod dros 18 mlwydd oed;
 - gofyn am rywun i'ch helpu i ddeall y cwestiynau sy'n cael eu gofyn i chi;
- 1.4 Mae gennych hefyd **hawl** i:
 - Mae Datganiad Personol Dioddefwr yn gyfle i chi egluro yn eich geiriau'ch hun sut y mae'r trosedd wedi effeithio arnoch. Mae hyn yn wahanol i'r datganiad tyst sy'n ymwneud â'r pethau yr oeddech wedi'u gweld a'u clywed. Gellir recordio'ch datganiad tyst a'ch Datganiad Personol Dioddefwr ar fideo os yw'n briodol. Nid oes rhaid i chi wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Os byddwch yn penderfynu peidio â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ar y dechrau, fe allwch ei wneud yn ddiweddarach ond rhaid ei wneud cyn y dedfrydu. Dedfrydu yw'r gorchymyn gan y llys am gosbi'r troseddwr. Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi mewn Datganiad Personol Dioddefwr yn cael ei rhannu â'r amddiffyniad (sy'n cynrychioli'r unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o'r trosedd) os caiff ei ddefnyddio yn y llys. Mewn rhai achosion prin, gallai'r amddiffyniad ofyn cwestiynau i chi am eich Datganiad Personol Dioddefwr.

1.5 Os bydd y diffynnydd wedi'i gael yn euog, bydd gennych **hawl** i ddweud wrth y llys os byddech yn hoffi i'ch DPD gael ei ddarllen yn uchel neu ei chwarae (os yw wedi'i recordio) yn y llys cyn dedfrydu'r diffynnydd. Pan fydd yr heddlu'n cymryd eich DPD, mae gennych **hawl** i ddweud a ydych am ddarllen eich DPD yn uchel, bod rhywun arall yn ei ddarllen yn uchel neu ei fod yn cael ei chwarae yn y llys ac yn dweud wrthy ch beth y mae hyn yn ei olygu.

1.6 Pan fo'r heddlu'n ymchwilio i'ch achos, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- cael gwybodaeth am beth sy'n digwydd a thrafod â'r heddlu pa mor aml y byddant yn cysylltu â chi;
- cael gwybod os nad oes neb wedi'i amau, neu os caiff yr achos ei gau a chael gwybod y rheswm am hyn o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu hynny;
- cael gwybod os caiff unigolyn a amheuir ei arestio, ei gyfweld neu ei ryddhau gan yr heddlu mewn cysylltiad â'ch achos a chael eglurhad o'r rhesymau o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i hynny ddigwydd;
- cael gwybod os bydd unigolyn a amheuir mewn cysylltiad â'r achos yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth yr heddlu neu os bydd newid yn amodau mechnïaeth yr heddlu o fewn 1 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad. Mae mechnïaeth yr heddlu yn cael ei rhoi pan fydd yr heddlu'n gadael i unigolyn a amheuir adael gorsaf yr heddlu ar yr amod ei fod yn dychwelyd i orsaf yr heddlu neu'r llys ar ddiwrnod arall;
- dweud os ydych am gael gwybod a yw achos a gaewyd wedi cael ei ailagor, er mwyn i'r heddlu ystyried eich dymuniadau.

1.7 Mae gennych **hawl** ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad a'r treial i siarad â rhywun sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i wrando arnoch a'ch helpu i ymdopi â'r trosedd. Rhai enwau posibl ar hyn yw therapi neu gwnsela a bydd yn cael ei ddarparu'n aml gan sefydliad arbenigol.

Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechnïaeth a Gwybodaeth am y treial)

Cyhuddo a Mechnïaeth

2.1 Yn yr adran hon rydym yn egluro beth sy'n digwydd pan fydd yr unigolyn a amheuir yn cael ei gyhuddo o'r trosedd. Caiff ei gyhuddo os oes digon o dystiolaeth (neu brawf) ac os yw ei gyhuddo'n ffurfiol er budd i'r cyhoedd.

2.2 Mae gennych **hawl** i gael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith am y digwyddiadau canlynol:

- os yw'r unigolyn a amheuir wedi cael ei gyhuddo neu beidio ac am unrhyw benderfyniad gan yr heddlu i beidio â'i erlyn (mynd ag ef i'r llys) a chael gwybod y rhesymau am hynny. Gallwch ofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn os nad ydych yn hapus â hynny, a dylech gael digon o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau gwneud hynny neu beidio;
- penderfyniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron i erlyn yr unigolyn a amheuir (mynd ag ef i'r llys) neu beidio â'i erlyn. Mae gennych **hawl** i gael gwybod sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio ag erlyn yr unigolyn a amheuir. Gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydych yn hapus â hynny, a dylech gael digon o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau gwneud hynny neu beidio. Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n erlyn

mewn achosion troseddol (mynd â nhw i'r llys) y mae'r heddlu wedi ymchwilio iddynt yng Nghymru a Lloegr;

- penderfyniad i ddelio â'r unigolyn a amheuir heb fynd ag ef i'r llys. Yr enw ar hyn yw 'penderfyniad y tu allan i'r llys' (gweler yr eirfa). Gellir gofyn i chi neu'ch rhieni neu warcheidwaid roi'ch barn am hyn. Bydd eich barn chi o gymorth wrth benderfynu a yw hyn yn briodol;
- os bydd yr heddlu'n penderfynu gwneud cais am gadw'r unigolyn a amheuir yn y ddalfa. Mae hyn yn golygu cadw'r un a amheuir yn y carchar neu yn un o gelloedd yr heddlu;
- pennu dyddiad ar gyfer unrhyw wrandawriad a chanlyniad y gwrandawriad cyntaf;
- os yw'r unigolyn a amheuir wedi'i ryddhau dan amodau mechnïaeth a chael gwybod y rhesymau am hyn. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn;
- os caiff mechnïaeth ei newid neu ei chanslo a chael gwybod y rhesymau am hyn.

Cwrdd â Gwasanaeth Erlyn y Goron

2.3 Mae gennych **hawl** i gael cynnig cyfle i gwrdd â Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn "achosion penodedig" (gweler yr eirfa) fel y gallant egluro'r penderfyniadau canlynol i chi:

- peidio ag erlyn yn yr achos (mynd ag ef i'r llys);
- gwneud newidiadau mawr yn y cyhuddiadau yn erbyn yr unigolyn a amheuir;
- atal yr achos.

Mae'n bosibl na fydd GEG yn cynnig cyfarfod o'r fath i chi os bydd yr erlynydd yn penderfynu na ddylid cynnal cyfarfod

neu na fyddai hynny o gymorth i chi. Bydd GEG yn esbonio eu rhesymau os byddant yn penderfynu na ddylid cynnal y cyfarfod hwn.

Paratoi am y Treial

2.4 Os bydd yr unigolyn a amheuir wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd, mae gennych **hawl** i gael gwybod o fewn 1 diwrnod gwaith am benderfyniad gan Wasanaeth Erlyn y Goron i wneud newidiadau mawr yn y cyhuddiadau yn erbyn yr un a amheuir, i atal yr achos, i gyhuddo'r un a amheuir o gyflawni trosedd arall neu i beidio â chynnig tystiolaeth i'r llys (h.y. dod â'r achos i ben).

2.5 Os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu atal yr achos neu beidio â chynnig tystiolaeth, mae gennych **hawl** i gael gwybod sut i gael mwy o wybodaeth am y penderfyniad a sut i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad os nad ydych yn fodlon arno. Mae gennych **hawl** cael digon o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu a ydych eisiau gofyn am adolygiad neu beidio.

2.6 Ym mharagraffau 2.7 - 2.9 mae gwybodaeth am y gwasanaethau y mae gennych **hawl** i'w cael gan yr Uned Gofal i Dystion. Mae'r Uned Gofal i Dystion yn grŵp o bobl sy'n gyfrifol am gynorthwyo diodefwyr a thystion mewn achosion sy'n mynd i'r llys. Weithiau gall yr heddlu ddarparu'r cymorth a'r wybodaeth hon i chi yn lle'r Uned Gofal i Dystion os mai nhw yw'ch prif bwynt cyswllt. Bydd yr heddlu yn dweud wrthyf os mai nhw yw'ch prif bwynt cyswllt.

2.7 Mae gennych **hawl** i gael gwybod y canlynol gan yr Uned Gofal i Dystion o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys:

- y dyddiad, yr amser a'r lle ar gyfer unrhyw wrandawiaidau llys, penderfyniad y llys a beth fydd yn digwydd nesaf. Byddwch hefyd yn cael gwybod beth y mae hyn yn ei olygu i chi a beth i'w wneud;
- a yw'r unigolyn a amheuir wedi'i ryddhau ar fechniaeth neu ei gadw yn y ddalfa a beth y mae hyn yn ei olygu i chi;
- os na fydd yr unigolyn a amheuir yn dod i'r llys pan ofynnwyd iddo wneud hynny, gellir cyhoeddi gwarant arestio. Gwarant arestio yw gorchymyn y mae'r llys yn ei wneud i arestio'r un a amheuir. Os bydd yr un a amheuir yn cael ei ail-arestio, bydd yn gorfod ymddangos yn y llys yn fuan wedyn fel arfer.
- Os yw'n bosibl, dylai'r heddlu roi gwybod i chi os caiff yr un a amheuir ei arestio am dorri amodau ei fechniaeth cyn y gwrandawriad. Os bydd yr heddlu yn penderfynu peidio â dod â'r un a amheuir o flaen y llys, rhaid i'r heddlu roi gwybod i chi a dweud beth yw'r rhesymau.

2.8 Os bydd yr unigolyn a amheuir yn pledio'n ddiheuog, mae gennych **hawl** i siarad â'r Uned Gofal i Dystion am unrhyw angen am gymorth sydd gennych. Gallwch ofyn am anfon eich manylion cyswllt i wasanaethau i ddiodefwyr fel y gallant gysylltu â chi i drafod unrhyw gymorth ychwanegol y gallent ei gynnig i chi.

2.9 Mae gennych **hawl** i gael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion a fydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth o fewn 1 diwrnod gwaith wedi iddynt gael y wybodaeth hon gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

2.10 Os gofynnir i chi fynd i'r llys i roi tystiolaeth yn y treial, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- gweld y datganiad yr ydych wedi'i recordio ar fideo neu ei ysgrifennu ychydig cyn y treial i'ch helpu i gofio beth yr oeddech wedi'i ddweud wrth yr heddlu am yr hyn a ddigwyddodd i chi. Bydd yr heddlu'n trefnu i chi gael gwneud hyn.
- os ydych wedi ysgrifennu'ch datganiad, bydd ar gael i chi yn y llys ar y diwrnod Os ydych wedi recordio'ch datganiad ar fideo, trefnir i chi ei wyllo ar wahân cyn y treial;
- cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion beth fydd yn digwydd ar y diwrnod. Bydd yr Uned Gofal i Dystion yn gofalu hefyd eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch wrth roi tystiolaeth ac yn egluro'r Mesurau Arbennig sydd ar gael i'ch helpu (gweler Pennod 1, paragraffau 1.13- 1.15);
- cael gwybod gan yr Uned Gofal i Dystion sut i gael y Pecyn Tystion Ifanc a fydd yn eich helpu i ddeall beth fydd yn digwydd pan ewch i'r llys;
- ymweld â'r llys cyn y treial i gael golwg arno. Dylech fynd i weld yr ystafell llys a dod i arfer â defnyddio offer Mesurau Arbennig fel cysylltiadau fideo neu sgriniau o gwmpas y llwyfan tystio, yn ôl yr hyn y mae'r llys wedi'i orchymyn. Os yw'n bosibl, byddwch yn cael cwrdd â'r staff a fydd yn eich helpu ar y diwrnod.

Adran 3: Treial

3.1 Yn y treial, os ydych wedi recordio'ch datganiad tyst o flaen llaw, bydd y recordiad ohono'n cael ei chwarae i'r llys fel arfer fel na fyddwch yn gorfod rhoi'r dystiolaeth hon eto. Wedyn gofynnir cwestiynau i chi am eich tystiolaeth. Gelwir hyn yn groesholi. Fel arfer bydd hyn yn digwydd mewn ystafell wahanol drwy ddefnyddio cyswllt fideo. Cyfrifoldeb y llys yw sicrhau bod y treial yn cael ei gynnal mewn modd teg, ac yn ystyried yr hyn a ddywedir gan yr amddiffyniad ac eiriolwr GEG. Bydd GEG yn trin diodefwyr sy'n dystion yn y llys â pharch ac yn gofyn i'r llys ymyrryd, os yw'n briodol, pan ystyrir bod y croesholi gan yr eiriolwr yn amhriodol neu'n rhy ymosodol.

3.2 Os byddwch yn mynd i'r llys i roi tystiolaeth yn y treial, mae gennych **hawl** i'r canlynol:

- os yw'n bosibl, cael cwrdd ag eiriolwr Gwasanaeth Erlyn y Goron (y cyfreithiwr a fydd yn cyflwyno'r achos yn erbyn yr unigolyn a amheuir) neu rywun sy'n ei gynrychioli a gofyn cwestiynau iddo am yr hyn a fydd yn digwydd yn y llys, pa mor hir y byddwch yn debygol o aros cyn rhoi tystiolaeth, a chael gwybod am unrhyw oedi;
- gofyn i staff y llys am gael defnyddio mynedfa i'r llys sy'n wahanol i'r un ar gyfer yr unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i chi weld yr un a amheuir na'i deulu na'i ffrindiau pan ewch i'r llys;
- aros mewn rhan o'r llys sydd ar wahân i'r un ar gyfer yr unigolyn a amheuir a'i deulu a'i ffrindiau;
- cael gwybod am bwynt cyswllt yn y llys lle y gallwch gael gwybod beth sy'n digwydd wrth aros i roi'ch tystiolaeth;

- cael trefnu unrhyw Fesurau Arbennig ar eich cyfer gan staff y llys os yw'r llys wedi'u gorchymyn;
- cael rhoi'ch manylion cyswllt i staff y llys fel y gallant eich galw'n ôl yn fuan os ydych wedi gadael adeilad y llys am ychydig;
- gwyllo'r treial o'r oriel gyhoeddus os nad ydych yn rhoi tystiolaeth fel tyst.

Adran 4: Ar ôl y Treial

4.1 Mae gennych **hawl** i gael tâl am unrhyw dreuliau y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi penderfynu eu bod yn ddyledus i chi os ydych wedi rhoi tystiolaeth yn y llys ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith wedi i Wasanaeth Erlyn y Goron gael ffurflen hawlio sydd wedi'i llenwi'n gywir.²⁷

4.2 Ym mharagraffau 4.3 - 4.4 mae gwybodaeth am y gwasanaethau y mae gennych **hawl** i'w cael gan yr Uned Gofal i Dystion. Weithiau gall yr heddlu ddarparu'r cymorth a'r wybodaeth hon i chi yn lle'r Uned Gofal i Dystion os mai nhw yw'ch prif bwynt cyswllt. Bydd yr heddlu yn dweud wrthy'ch os mai nhw yw'ch prif bwynt cyswllt. Mae gennych hawl i gael y wybodaeth hon o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth gan y llys.

²⁷ Yn unol â Rheoliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron (Lwfansau Tystion ayb) 1988.

- 4.3 Mae gennych **hawl** i gael gwybod am benderfyniad y llys a derbyn crynodeb byr o'r rhesymau am y penderfyniad, pan fo hynny ar gael²⁸. Os canfuwyd bod y diffynnydd yn euog, mae gennych **hawl** cael gwybod beth oedd y ddedfryd a roddwyd iddo ef neu hi. Y ddedfryd yw'r gosb y mae'r llys wedi'i gorchymyn. Bydd hyn yn cynnwys eglurhad byr o beth yw'r ddedfryd a beth y mae'n ei olygu. Os na fydd yr Uned Gofal i Dystion yn gallu ateb eich cwestiynau am y ddedfryd, bydd yn eich cyfeirio at **Wasanaeth Erlyn y Goron**. Wedyn bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn helpu i ateb eich cwestiynau.
- 4.4 Mae gennych **hawl** i gael eich rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau i ddiodefwyr gan yr Uned Gofal i Dystion os yw gwasanaethau ar gael ac os ydynt yn briodol.

Adran 5: Apeliadau

- 5.1 Weithiau bydd y troseddwr yn gofyn i'r llys ailedrych ar yr achos neu'r ddedfryd. Gelwir hyn yn apêl. Os bydd y troseddwr yn apelio, mae gennych **hawl** i gael y canlynol o fewn 1 diwrnod gwaith wedi i'r Uned Gofal i Dystion gael y wybodaeth hon gan y llys:
- cael gwybod a fydd y llys yn gadael i'r apêl fynd ymlaen;
 - cael gwybod a fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau ar fechniaeth cyn yr apêl neu os bydd newid yn yr amodau mechniaeth;
 - cael gwybod am y dyddiadau, amseroedd a lleoliadau ar gyfer unrhyw wrandawiaidau pellach ac am unrhyw newid yn y dyddiadau os bydd yr apelydd yn cael apelio;
 - cael gwybod am ganlyniad yr apêl neu os bydd unrhyw newid yn y ddedfryd a roddodd y llys yn wreiddiol;

- cael gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr sy'n gallu'ch helpu os ydynt ar gael.

- 5.2 Os bydd apêl yn mynd i'r Llys Apêl neu ei bod yn achos Goruchaf Lys y DU, gallwch ofyn am gael copi o'r penderfyniad gan y llys perthnasol (Dyfarniad yw'r enw ar hyn) ar ôl ei gyhoeddi.

- 5.3 Os cynhelir gwrandawriad apêl, mae'n bosibl y byddwch yn gallu gwneud Datganiad Personol Dioddefwr newydd neu ychwanegol (gweler paragraff 1.4). Drwy wneud hyn byddwch yn gallu egluro beth yw effeithiau tymor hir y trosedd arnoch chi. Bydd yr Uned Gofal i Dystion yn rhoi gwybod i chi a yw'n bosibl i chi wneud Datganiad Personol Dioddefwr o'r math hwn.

Adran 6: Ar ôl y ddedfryd

Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

- 6.1 Mae'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (CCD) yn wasanaeth i ddiodefwyr troseddau treisgar a rhywiol lle y mae'r troseddwr wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy. Yn yr achosion hyn, mae diodefwyr sy'n cymryd rhan yn y CCD yn gallu cael cyngor a gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol gan Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys hysbysu diodefwyr am gamau allweddol yn nedfryd y troseddwr.

²⁸ Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu rhesymau yn gymwys i ganlyniad terfynol achos rheithgor.

- 6.2 Os yw'r unigolyn a amheuir wedi'i gael yn euog o gyflawni trosedd treisgar neu rywiol²⁹ ac wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy mewn carchar, neu wedi cael ei gadw mewn ysbyty i gael triniaeth am fod salwch meddwl arno, mae gennych **hawl** i gymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Wrth gymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, mae gennych **hawl** i'r canlynol:
- gofyn am osod amodau ar y troseddwr os caiff ei ryddhau. Er enghraifft, gellid gosod amod na fydd y troseddwr yn cysylltu â chi mewn unrhyw ffordd;
 - cael gwybod pryd y mae'r troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar neu'r ysbyty ac unrhyw amodau sydd wedi'u gosod arno sy'n berthnasol i chi;
 - cael gwybod eich bod yn gallu dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ar unrhyw adeg;
 - cael gwybod eich bod yn gallu dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ar unrhyw adeg.
- 6.3 Os byddwch yn dewis cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, bydd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (SCD) yn cael ei ddarparu ar eich cyfer a fydd yn bwynt cyswllt rhyngoch chi a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Bydd yr SCD yn gweithio gyda dioddefwyr sydd yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (gweler isod). Bydd yn rhoi gwybod i ddiodefwyr am gamau pwysig yn nedfryd y troseddwr. Hefyd gall sicrhau bod barn a phryderon y diodefwyr yn cael eu rhannu â'r carchar neu'r Bwrdd Parôl pan fyddant yn trafod y posibilrwydd o ryddhau'r troseddwr. Mae'r Bwrdd Parôl yn sefydliad sy'n penderfynu ar sail diogelwch a ellir rhyddhau troseddwr penodol o'r carchar.
- 6.4 Os yw'r troseddwr yn eich achos o dan 18 oed, bydd y Tîm Troseddwr Ifanc sy'n delio â'r troseddwr yn trosglwyddo'ch manylion i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn iddynt gysylltu â chi ynghylch y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.
- 6.5 Fel arfer, eich rhiant neu warcheidwad fydd yn cael y wybodaeth am y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn hytrach na'i rhoi i chi'n uniongyrchol. Os byddai hynny'n well gennych chi a'ch rhiant neu warcheidwad, gellir rhoi'r wybodaeth i chi ac i'ch rhiant neu warcheidwad yr un pryd. Wedi i chi droi'n 18 oed, bydd y wybodaeth yn cael ei rhoi i chi'n uniongyrchol.
- 6.6 Os ydych o dan 18 oed, rhaid i'ch rhiant neu warcheidwad gael gwybod y canlynol os yw'n berthnasol:
- a oes gennych hawl i gael Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr am fod y trosedd yn fath penodol o Drosedd Difrifol Pellach ac am nad hwn oedd trosedd difrifol cyntaf y troseddwr. Bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal i Dystion yn dweud wrthyfych a yw hyn yn berthnasol i chi. Os yw'n berthnasol i chi, gall y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol roi mwy o wybodaeth i chi am hyn;
 - os bydd y troseddwr yn gofyn am gael tynnu ei enw oddi ar y 'gofrestr troseddwr rhyw'. Os bydd yn gwneud hyn, gall yr heddlu roi mwy o wybodaeth i chi am hynny.

Cyswllt dieisiau

- 6.7 Os bydd carcharor yn cysylltu â chi heb fod arnoch eisau hynny (gan gynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol, neu drwy'r post), gallwch roi gwybod am hyn drwy alw Llinell Gymorth i Ddiodefwyr y Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol ar **0300 060 6699**. Hefyd gallwch siarad â'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (SCD), os oes un ar eich cyfer.

²⁹ Yn unol â'r diffiniad yn adran 45(2) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

- 6.8 Os bydd troseddwr sydd wedi'i ryddhau o'r carchar ac sydd ar drwydded (sy'n golygu nad yw yn y carchar bellach ond bod rhaid iddo gydymffurfio ag amodau penodol) yn cysylltu â chi heb fod arnoch eisiau hynny, gallwch gysylltu â'r heddlu, neu SCD os oes un ar eich cyfer. Os yw'r troseddwr o dan 18 oed ac yn cael ei oruchwyllo gan Dîm Troseddwr Ifanc, gallwch gysylltu â'r Tîm Troseddwr Ifanc hwnnw i roi gwybod am unrhyw gyswllt dieisiau. Mae YOT yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n mynd i drafferthion gyda'r gyfraith.
- 6.9 Mae'n annhebygol iawn y bydd unigolyn a amheuir neu droseddwr yn dianc o garchar, ond pe digwydd hyn, a bod yr heddlu yn credu bod y troseddwr yn fygythiad sylweddol i chi, byddant yn rhoi gwybod i chi (neu eich rhiant/gwarchodwr), pryd bynnag fo hynny'n bosibl, ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gamau maent yn eu cymryd i sicrhau eich bod yn ddiogel.

Y Bwrdd Parôl a Datganiadau Personol Dioddefwyr

- 6.10 Mae'r Bwrdd Parôl yn sefydliad sy'n penderfynu a yw'n ddiogel rhyddhau troseddwr penodol, gan gynnwys y rheini sydd wedi cael dedfryd o garchar am oes am drosedd arbennig o ddifrifol, o'r carchar neu eu symud i garchar agored. Mae'r carchar agored ar gyfer troseddwr sy'n achosi llai o risg ac yn rhai y gellir dibynnu arnynt yn rhesymol i gwblhau eu dedfryd dan amodau agored fel nad oes angen eu cadw dan glo mewn cell carchar. Gall hyn ddigwydd tua diwedd y cyfnod byrraf y caiff y troseddwr ei dreulio yn y carchar yn ôl dedfryd y barnwr neu ar ôl hynny. Bydd y Bwrdd Parôl yn gwneud penderfyniadau drwy gydweithio ag asiantaethau, gan gynnwys y carchar a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, i ddeall maint y risg y mae'r troseddwr yn ei achosi i'r cyhoedd ac i weld a yw'n ddiogel rhyddhau'r troseddwr o dan oruchwyliaeth. Dim ond rhai mathau o achosion y mae'r Bwrdd Parôl yn eu hystyried, felly dylech ofyn i'ch rhiant neu warcheidwad, neu SCD, a yw hyn yn berthnasol i chi.
- 6.11 Os ydych yn pryderu neu os oes gennych unrhyw dystiolaeth newydd sy'n dangos y gall y troseddwr fod yn berygl i chi ar hyn o bryd, dylech drafod hyn â'r SCD. Bydd yr SCD yn sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am baratoi adroddiadau risg i'r Bwrdd Parôl yn gwybod am hyn.

6.12 Gofynnir i chi a ydych am wneud Datganiad Personol Dioddefwr i'w ystyried gan y Bwrdd Parôl pan fydd yn penderfynu a ddylid rhyddhau'r troseddwr neu ei symud i garchar agored. Os nad ydych am wneud datganiad ysgrifenedig, gallwch ddweud wrth yr SCD sut y mae'r trosedd wedi'ch brifo chi neu'ch teulu, a sôn am effaith y trosedd arnoch yn awr, a sut y byddech yn teimlo pe byddai'r troseddwr yn cael ei ryddhau. Bydd yr SCD yn sicrhau bod y Bwrdd Parôl yn ymwybodol o hyn wrth ystyried achos y troseddwr. Os byddai'n well gennych, gallwch wneud hyn drwy'ch rhiant neu warcheidwad, a bydd eich rhiant neu warcheidwad yn gallu gwneud Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) ei hun hefyd.

6.13 Os byddai'ch rhiant neu warcheidwad yn hoffi bod yn bresennol yn y gwrandawriad i ddarllen ei DPD, neu i ddarllen eich DPD chi a'i DPD ei hun, neu i gael rhywun arall i ddarllen y naill ddatganiad neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn uchel, mae ganddo hawl i roi gwybod i'r Bwrdd Parôl am ei ddymuniad i wneud hynny. Cadeirydd panel y Bwrdd Parôl fydd yn penderfynu a gaiff fod yn bresennol. Fel arfer, bydd cais i fod yn bresennol yn cael ei ganiatáu, ond mae hyn yn fater i gadeirydd panel y Bwrdd Parôl, ac mae'n bosibl y bydd ganddo reswm dros beidio â chaniatáu cais o'r fath. Ni fydd eich rhiant neu warcheidwad yn gallu bod yn bresennol drwy gydol y gwrandawriad. Byddwch chi a'ch rhiant neu warcheidwad yn gallu gofyn hefyd i gadeirydd panel y Bwrdd Parôl am gael darllen eich DPD drwy Live-Link neu ei recordio fel y gellir ei chwarae yn y gwrandawriad os oes cyfleusterau ar gyfer hynny.

Dioddefwyr troseddau wedi'u cyflawni gan rai dan 18 mlwydd oed

6.14 Os yw'r troseddwr yn yr achos o dan 18 oed ac yn cael ei oruchwylio gan Dîm Troseddwr Ifanc, bydd y Tîm Troseddwr Ifanc yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os nad ydych yn cael cymorth eisoes drwy'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan y Tîm Troseddwr Ifanc:

- gwybodaeth am hynt achos y troseddwr;
- gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr os ydych am gael unrhyw gymorth ychwanegol;
- cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol (os yw'n addas). Mae mwy o wybodaeth am hyn yn Adran 7 isod.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

7.1 Os ydych wedi dioddef trosedd, mae Cyfiawnder Adferol yn eich caniatáu i siarad â'r troseddwr am yr hyn sydd wedi digwydd - y person a gyflawnodd y drosedd. Byddwch chi neu'ch perthnasau agos a'r troseddwr yn gallu ceisio dod o hyd i ffyrdd o ymdopi â'r niwed a achoswyd. Bydd hyn yn gallu'ch helpu chi, y diodefwr, i symud ymlaen yn eich bywyd ac yn helpu'r troseddwr i ddeall beth a wnaeth a sut yr oeddech chi'n teimlo amdano.

- 7.2 Mae Cyfiawnder Adferol yn wirfoddol - nid ydych yn gorfod cymryd rhan. Os ydych am gymryd rhan, gofynnir i chi roi cydsyniad ysgrifenedig. Rhaid i chi a'r troseddwr gytuno arno cyn iddo ddigwydd. Gallwch ofyn am gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol ar unrhyw adeg y byddwch chi'n credu y byddai hynny o gymorth i chi, neu efallai y gofynnir i chi gymryd rhan oherwydd bod y troseddwr wedi gofyn am Gyfiawnder Adferol. Hyd yn oed os ydych chi a'r troseddwr eisiau cymryd rhan, bydd hynny ond yn digwydd os bydd rhywun sydd wedi cael ei hyfforddi'n benodol ym maes Cyfiawnder Adferol yn penderfynu ei bod yn ddiogel i chi gymryd rhan. Bydd y person hwnnw'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod â'r troseddwr.
- 7.3 Os yw'r troseddwr yn oedolyn, mae'n rhaid i'r heddlu neu unrhyw sefydliad arall sy'n darparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol i ddiodefwyr yn eich ardal ddweud wrthych chi, eich rhieni neu warchodwyr am Gyfiawnder Adferol, gan gynnwys sut y gallwch chi, eich rhieni neu warchodwyr gymryd rhan. Mae hyn yn dibynnu ar y gwasanaethau Cyfiawnder Adferol a ddarperir yn eich ardal leol.
- 7.4 Os yw'r troseddwr o dan 18 oed, mae'n rhaid i'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn eich ardal gynnig i chi a'ch rhieni neu warcheidwaid i gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol os yw ar gael. Gallwch ofyn i'r heddlu beidio â throsglwyddo'ch manylion i'r Tîm Troseddwyr Ifanc os nad ydych am gymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol.
- 8.2 Os oeddech o dan 18 oed ar adeg y digwyddiad, y peth gorau fydd i oedolyn cyfrifol wneud cais ar eich rhan, ond rhaid gwneud hyn o fewn 2 flynedd i'r digwyddiad. Y rheswm am hyn yw y gallai fod yn fwy anodd i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eich bod wedi cael anaf o ganlyniad i'r trosedd os byddwch yn aros yn hirach.
- 8.3 Os cafodd yr heddlu wybod am y digwyddiad neu ddigwyddiadau cyn i chi droi'n 18 oed a neb wedi gwneud cais ar eich rhan, bydd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn ystyried eich cais ar yr amod eich bod yn ei wneud cyn i chi droi'n 20 oed.
- 8.4 Os cyflawnwyd y digwyddiad neu ddigwyddiadau cyn i chi droi 18 oed, ond bod yr heddlu heb gael gwybod ar y pryd, bydd yr Awdurdod yn ystyried eich cais os caiff ei wneud o fewn dwy flynedd ar ôl rhoi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu am y tro cyntaf.
- 8.5 Os byddwch yn gwneud cais o dan yr amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraffau 8.3 neu 8.4 uchod, ni fydd yn cael ei ystyried os yw'r dystiolaeth a roddwyd yn golygu bod angen gwneud llawer o ymholiadau ychwanegol.
- 8.6 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Awdurdod yn ymestyn y terfyn amser, lle nad oedd yn bosibl gwneud cais yn gynharach.
- 8.7 Mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod:

- gwybodaeth sy'n dangos yn glir a allwch gael tâl drwy'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol;
- cael gwybod bod yr Awdurdod wedi cael eich cais

Adran 8: lawndal

- 8.1 Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (ADAT) yn sefydliad sy'n delio â cheisiadau sy'n cael eu gwneud drwy'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol. Mae'r Llywodraeth yn talu am y Cynllun hwn sy'n rhoi taliadau i ddiodefwyr troseddau treisgar sydd heb fod ar fai.

- cael gwybodaeth am y ffordd y mae'ch cais yn symud ymlaen ar gamau pwysig yn y broses hawlio tâl mewn ffordd o'ch dewis (er enghraifft, drwy lythyr neu dros y ffôn);
- eglurhad clir o benderfyniad yr Awdurdod ar eich cais am ddigollediad;
- gwybodaeth am eich hawl i gael yr Awdurdod i ailedrych ar y penderfyniad.

8.8 Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad ar eich cais am iawndal, mae gennych **hawl** i gael y canlynol gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol:

- cael gwneud cais i ailedrych ar y penderfyniad (adolygiad);
- cael swyddog hawliadau gwahanol i'r un gwreiddiol i edrych ar eich hawliad am ddigollediad;
- cael eglurhad clir o'r rhesymau dros ei benderfyniad ac atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd pan wnaethoch gais am adolygu'r penderfyniad;
- gwybodaeth am sut i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf – Digolledu am Anafiadau Troseddol (THG-DAT) ac am y terfynau amser.

Adran 9: Sut i wneud cwyn

- 9.1 Mae gennych **hawl** i gael eich trin mewn ffordd barchus, ystyriol a phroffesiynol gan ddarparwyr gwasanaeth heb unrhyw fath o wahaniaethu. Os ydych yn credu nad ydych wedi cael y gwasanaethau a'r cymorth y mae gennych hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn, gallwch wneud cwyn.
- 9.2 Os byddech yn teimlo'n esmwyth wrth wneud hynny, dylech drafod eich cwyn yn gyntaf â'r person yr ydych wedi bod yn ymwneud ag ef yn sefydliad y darparwr gwasanaeth.

9.3 Os na fydd hyn yn helpu i ateb eich cwyn, gallwch wneud cwyn drwy system gwyno swyddogol y sefydliad. Os byddwch yn anfon eich cwyn at y darparwr gwasanaeth anghywir, bydd hwnnw'n anfon eich cwyn at y darparwr gwasanaeth cywir ac yn dweud wrthy ch ei fod wedi gwneud hyn.

9.4 Mae gennych **hawl** i:

- gael gwybodaeth gan y sefydliad ynghylch sut i wneud cwyn, gan gynnwys manylion cyswllt, a'r broses ar gyfer delio â chwynion;
 - cael cydnabyddiaeth yn dweud bod y sefydliad wedi cael eich cwyn a'i fod yn delio â'r gwyn, neu
 - ymateb llawn i'ch cwyn, o fewn 10 diwrnod gwaith;
 - os cewch gydnabyddiaeth, gwybodaeth am sut mae'r sefydliad yn delio â chwynion gan gynnwys pa mor hir y gall gymryd i gael ymateb llawn lle y bo yn briodol;
 - cael cadarnhad gan y sefydliad yr ydych wedi anfon y gwyn iddo sy'n dweud eu bod wedi cael eich cwyn a pha bryd y gallwch ddisgwyl cael ateb;
 - cael ymateb llawn gan y sefydliad o fewn y cyfnod y mae wedi'i nodi, gan gynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn bellach wrth yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd os nad ydych yn fodlon ar yr ymateb;
 - gwneud cwyn wrth yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy ei hanfon at eich Aelod Seneddol lleol. Mae gwybodaeth ar gael ar-lein ynglŷn â'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.³⁰

³⁰ www.ombudsman.org.uk

Plant a Phobl Ifanc Rhan B: Dyletswyddau Darparwyr Gwasanaethau mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc

Mae'r Bennod hon yn gymwys i'r darparwyr gwasanaeth a restrir ym mharagraff 8 y Rhagarweiniad. Pwrpas y Bennod hon yw darparu gwybodaeth hawdd ei deall i bobl ifanc. Oherwydd hyn, nid yw mor fanwl mewn rhai manau â Phennod 2. Fodd bynnag, mae pob plentyn sy'n ddiodefwyr trosedd yn gymwys yn awtomatig i gael y gwasanaethau estynedig sy'n cael eu darparu i ddiodefwyr troseddau sy'n agored i niwed. Felly rhaid i bob darparwr gwasanaeth sicrhau ei fod yn darparu'r un lefel uchel o wasanaeth i ddiodefwyr sy'n blant ac yn dal sylw ar ei ddyletswyddau yn y Rhagarweiniad ac ym Mhenodau 1 a 2 o'r Cod hwn.

Fel na fydd ansicrwydd, mae'n ofynnol bod y darparwyr gwasanaeth perthnasol yn sicrhau hefyd eu bod yn darparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A.

Rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth i ddarparwyr gwasanaeth bob amser.

Os oes ansicrwydd ynghylch oed y diodefwyr a bod lle i gredu bod yr unigolyn o dan 18 mlwydd oed, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gymryd bod yr unigolyn o dan 18 oed ac felly fod ganddo hawl i gael yr hawliau estynedig sydd wedi'u disgrifio mewn adran ar wahân yn y Cod hwn ar gyfer diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed (Pennod 3)

Mae'r adran hon yn cynnwys dyletswyddau y mae'n rhaid i'r Uned Gofal i Dystion berthnasol eu cyflawni er mwyn diodefwyr. Mewn rhai achosion, gall yr heddlu weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diodefwyr a darparu'r wybodaeth sydd yn yr adran hon i ddiodefwyr yn lle'r Uned Gofal i Dystion. Rhaid i'r heddlu roi gwybod i ddiodefwyr os ydynt yn gweithredu fel hyn a chytuno â'r Uned Gofal i Dystion ar y gwasanaethau y byddant yn eu darparu o blith y rhai isod.

Adran 1: Ymchwiliad yr Heddlu

- 1.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 1 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 1 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).
- 1.2 Rhaid i'r **heddlu** wneud y canlynol:
 - darparu ar gyfer yr hawliau perthnasol sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio yn Adran 1 o Bennod 2, Rhan A ac Adran 1 o Bennod 3, Rhan A;

- darparu cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd a riportiwyd gan y dioddefwr, yn cynnwys manylion sylfaenol am y drosedd. Gallai'r gydnabyddiaeth ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr, hysbysiad electronig megis e-bost neu neges destun, neu gall fod yn neges a ysgrifennwyd â llaw. Efallai y bydd y dioddefwr yn gwneud cais i beidio â derbyn y cyfryw gydnabyddiaeth. Pan fo'r heddlu yn ystyried y gall anfon y gydnabyddiaeth ysgrifenedig at y dioddefwr arwain at risg o niwed i chi (er enghraifft, mewn achosion o drais domestig), efallai y byddant yn cytuno i beidio ag anfon un at y dioddefwr;
 - trafod a chytuno â'r dioddefwr, neu ei rieni neu warcheidwaid, ynghylch pa mor aml y byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr achos;
 - rhoi gwybod i'r dioddefwr os bydd yr heddlu'n penderfynu peidio ag ymchwilio o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl penderfynu hynny;
 - cynnig cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr, y gellir ei recordio ar fideo hefyd, a sicrhau ei fod yn cael ei anfon ymlaen i GEG. Rhaid i'r heddlu wneud trefniadau hefyd i'r dioddefwr wneud datganiad ysgrifenedig os yw'n well ganddo hynny;
 - gofyn i'r dioddefwr a fyddai'n well ganddo ddarllen y datganiad yn uchel ei hun, cael eiriolwr **GEG** i wneud hyn ar ei ran, neu ei gael wedi'i chwarae (os wedi'i recordio) yn y llys a sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei hanfon ymlaen at GEG;
 - egluro canlyniadau posibl i'r dioddefwr os bydd ei DPD yn cael ei ddarllen yn uchel, megis y risg i breifatrwydd y dioddefwr, cael ei holi am ei DPD yn y llys a'r cyfryngau yn rhoi sylw iddo;
 - egluro i'r dioddefwr nad oes yn rhaid i'w DPD gael ei ddarllen yn uchel os nad yw'n dymuno hynny. Dylid egluro i'r dioddefwr ei fod yn gallu newid ei feddwl a dewis wedyn i beidio â chael ei DPD wedi'i ddarllen yn uchel;
 - egluro pa Fesurau Arbennig a allai fod ar gael i'r dioddefwr i'w helpu i roi ei dystiolaeth orau os oes rhaid iddo fynd i'r llys a chofnodi unrhyw sylwadau y mae'r dioddefwr yn eu gwneud ynghylch mynd i'r llys.
- 1.3 Mae'n ofynnol bod yr **heddlu** neu unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall sy'n gweithredu fel un pwynt cyswllt yn yr achos, yn rhoi gwybod i'r dioddefwr fod therapi cyn y treial ar gael ac, os gofynnir am hynny, bydd yn cael ei hwyluso. Hefyd rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol gyfeirio'r dioddefwr at sefydliadau arbenigol os yw hynny'n briodol ac os ydynt ar gael.
- 1.4 Wrth gofnodi tystiolaeth y dioddefwr, rhaid i'r **heddlu** ddal sylw ar Adran 21 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 sy'n datgan mai'r brif reol ar gyfer tystion sy'n blant (yn amodol ar gyfyngiadau penodedig) yw bod rhaid i'r Llys ddarparu (drwy roi cyfarwyddyd) ar gyfer derbyn unrhyw recordiad perthnasol yn unol ag adran 27 (tystiolaeth wedi'i recordio ar fideo yn bennaf); a bod rhaid iddo ddarparu ar gyfer rhoi unrhyw dystiolaeth y mae'r tyst yn ei rhoi yn yr achos heblaw drwy'r dull hwnnw drwy ddefnyddio cyswllt byw.
- 1.5 Os bydd angen i'r **heddlu** gyfweld plentyn, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u disgrifio yn Adran 1 o Bennod 2, Rhan B, paragraffau 1.5 i 1.6. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i'r plentyn gael oedolyn o'i ddewis gydag ef i helpu i roi cefnogaeth emosiynol iddo, oni bai nad yw er y budd pennaf i'r plentyn gael yr unigolyn hwn gydag ef.

Adran 2: Cyn y treial (Cyhuddo, Mechnïaeth a Gwybodaeth am y treial)

- 2.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 2 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 2 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).

Paratoi am y Treial

- 2.2 Rhaid i'r **Uned Gofal i Dystion** wneud y canlynol:
- cynnig asesiad llawn o anghenion i ddiodefwyr y mae angen iddynt roi tystiolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth i gyrraedd y llys a rhoi eu tystiolaeth orau. Rhaid rhoi gwybod i ddiodefwyr am yr hyn i'w ddisgwyl a hynny'n cynnwys egluro sut i gael y Pecyn Tystion Ifanc;
 - os yw'n briodol, egluro'r Mesurau Arbennig a all fod ar gael i helpu'r diodefwyr i roi ei dystiolaeth orau.
 - fel rhan o'r asesiad o anghenion, cynnig cyfle i'r diodefwyr ymweld â'r llys cyn y treial i ymgynffwrdd â'r ystafell llys a dod i arfer â defnyddio offer Mesurau Arbennig.
- 2.3 Rhaid i'r **heddlu** drefnu i'r diodefwyr gael gweld ei ddatganiad ar fideo neu ei ddatganiad ysgrifenedig ychydig cyn y treial i'w atgoffa ei hun o'i gynnwys. Os yw'r diodefwyr wedi gwneud datganiad ysgrifenedig, rhaid iddo fod ar gael i'r diodefwyr yn y llys ar y diwrnod. Os yw'r diodefwyr wedi gwneud datganiad ar fideo, rhaid i'r heddlu drefnu i'r diodefwyr ei wyllo ar wahân cyn y treial.

Adran 3: Treial

- 3.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 3 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 3 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).

Adran 4: Ar ôl y Treial

- 4.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 4 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 4 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).

Adran 5: Apeliadau

- 5.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 5 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 5 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).

Adran 6: Ar ôl y ddedfryd

- 6.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol ddarparu ar gyfer yr hawliau sydd gan ddiodefwyr sy'n blant neu eu rhieni neu warcheidwaid sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 3, Rhan A, Adran 6 a chyflawni'r dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 6 (gan nodi bod diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed yn gymwys yn awtomatig i gael gwasanaethau estynedig yn unol â'r Cod hwn).

Adolygiadau o Droseddau Difrifol Pellach ac Adroddiadau Cryno i Ddiodefwyr

- 6.2 Mae'r dyletswyddau sydd ar **Dimau Troseddwr Ifanc** sy'n delio â throseddwr o dan 18 oed yr un fath â'r rhai ar gyfer oedolion. Felly mae'n ofynnol bod Timau Troseddwr Ifanc yn cyflawni'r dyletswyddau sydd arnynt yn unol ag Adran 6 o Bennod 3, Rhan A ac Adran 6 o Bennod 2, Rhan B. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i roi gwybod i'r diodefwr am hynt achos y troseddwr a darparu gwybodaeth am wasanaethau cymorth priodol i ddiodefwyr os bydd y diodefwr yn gofyn am gymorth ychwanegol. Cysylltir â'r diodefwr drwy Swyddog Cyswllt Dioddefwyr y gwasanaeth prawf mewn achosion lle y mae troseddwr (dan 18 oed) wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy am drosedd rhywiol neu dreisgar.

Adran 7: Cyfiawnder Adferol

- 7.1 Rhaid i'r darparwyr gwasanaeth perthnasol gyflawni'r dyletswyddau sydd arnynt yn unol â Phennod 2, Rhan B, Adran 7, a Phennod 3, Rhan A, Adran 7.

Adran 8: lawndal

- 8.1 Rhaid i'r Awdurdod lawndal am Anafiadau Troseddol a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf lawndal am Anafiadau Troseddol gyflawni'r holl ddyletswyddau sydd arnynt yn unol â Phennod 2, Rhan B, Adran 8, a Phennod 3, Rhan A, Adran 8.

Adran 9: Cwynion

- 9.1 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gyflawni'r holl ddyletswyddau sydd wedi'u disgrifio yn yr adran ar gwynion ym Mhennod 2, Rhan B, Adran 9.
- 9.2 Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth gydnabod a thrin diodefwyr sydd o dan 18 mlwydd oed mewn ffordd barchus heb wahaniaethu o unrhyw fath.

Pennod 4

Busnesau

Busnesau

- 1.1 **Mae'r hawliau canlynol gan bob busnes neu fenter (er enghraifft, elusen) sy'n dioddef o ganlyniad i drosedd:**
- cael gwasanaethau yn unol â'r Cod ar yr amod ei fod yn enwi pwynt cyswllt ar gyfer yr holl gyfathrebu rhwng y busnes a'r darparwr gwasanaeth;
 - gwneud Datganiad o Effaith. Gall y busnes ei gynnig yr un pryd â datganiad tyst os yw'n briodol, neu drwy ei gwblhau ei hun a'i anfon drwy'r post neu'r e-bost;
 - dweud a yw'r busnes yn dymuno i'r rhannau perthnasol o'r Datganiad o Effaith gael eu darllen yn uchel gan eiriolwr **GEG** cyn dedfrydu'r diffynnydd. Mater i'w benderfynu gan y Llys yw a fydd y cyfan neu ran o'r Datganiad o Effaith yn cael ei ddarllen yn uchel.
- 1.2 Gall busnesau o bob maint wneud Datganiad o Effaith. Bydd y Datganiad o Effaith yn disgrifio effaith y trosedd ar y busnes.
- 1.3 Rhaid i'r llys roi'r ddedfryd y mae'n ei gweld yn briodol ar ôl ystyried amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr ac, os yw'r llys yn ystyried bod hynny'n briodol, yr effaith ar unrhyw ddiodefwyr.
- 1.4 Bydd yr heddlu'n cyfeirio'r busnes at ganllawiau ar sut i gwblhau'r datganiad. Mae'r datganiad yn rhoi llais i'r busnes yn y broses cyfiawnder troseddol, ond ni ddylai ddatgan barn am y ddedfryd na'r gosb y dylai'r troseddwr ei chael.
- 1.5 Bydd yr unigolyn sydd wedi'i enwi'n bwynt cyswllt yn gallu cyflwyno'r datganiad i'r heddlu drwy'r e-bost neu'r post neu ar ffacs. Nid yw'r ffaith bod Datganiad o Effaith wedi'i wneud yn atal unigolyn sy'n ddiodefwyr rhag gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ar wahân. Gall y busnes wneud Datganiad o Effaith pellach i ychwanegu at neu egluro neu ddiwygio'r datganiad presennol yn ddiweddarach, ar yr amod ei fod yn gwneud hyn cyn i'r achos ddod i'r llys neu cyn rhoi'r ddedfryd. Rhaid sicrhau bod unrhyw ddatganiad a gyflwynir yn unol ag adran 9 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967.
- 1.6 Os bydd yr achos yn dod i'r llys, caiff y Datganiad o Effaith ei ddatgelu i'r amddiffyniad. Gellir mynnu bod yr unigolyn sydd wedi'i enwi'n bwynt cyswllt yn bresennol mewn gwrandawriad llys ac yn cael ei holi am y datganiad hwn.

Dyletswyddau

- 1.7 Rhaid i'r heddlu gynnig cyfle i'r unigolyn sydd wedi'i enwi'n bwynt cyswllt i wneud Datganiad o Effaith, ei gyfeirio at ganllawiau ar sut i'w gwblhau, ac anfon copi o'r datganiad ar ôl ei gwblhau i **GEG**.
- 1.8 Rhaid i **GEG** sicrhau bod y Datganiad o Effaith yn cael ei ddwyn i sylw'r llys os yw'n briodol.

³¹ Nid yw personau cyfreithiol 'e.e. Busnesau' yn gynnwysedig yn y diffiniad o ddiodefwyr, ond maent yn gymwys i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod hwn yn unol â Phennod 4.

Pennod 5

Dyletswyddau
Darparwyr
Gwasanaeth eraill

Dyletswyddau Darparwyr Gwasanaethau eraill

1.1. Mae'r Bennod hon yn nodi'r gwasanaethau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ym mharagraff 9 y rhagarweiniad (ac a ailadroddir ym mharagraff 1.2 isod) eu darparu i ddioedfwyr trosedd a pherthnasau agos mewn profedigaeth. Ynghyd â phenodau blaenorol y Cod Hwn, mae'n gweithredu darpariaethau perthnasol y Gyfarwyddeb Dioddefwyr³², ond mae'n delio â darparwyr gwasanaeth na chynhwyswyd yn fersiynau blaenorol o'r Cod hwn. Dylid trin diodefwyr troseddau mewn modd parchus, sensitif a phroffesiynol sydd wedi'i deilwra heb unrhyw fath o wahaniaethu.

Pa sefydliadau sy'n gorfod darparu gwasanaethau o dan y bennod hon o'r Cod?

1.2. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau canlynol ddarparu gwasanaethau i ddioedfwyr:

- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (Gorfodaeth Droseddol)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Y Comisiwn Hapchwarae
- Yr Adran Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Y Swyddfa Gartref (Gorfodaeth Mewnfudo)

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
- Yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd
- Y Swyddfa Twyll Difrifol

1.3. Mae gan y darparwyr gwasanaethau hyn swyddogaethau mewn perthynas â'r ymchwiliad a/neu erlyn trosedd. Fodd bynnag, yn wahanol i'r heddlu a GEG, sydd â chylch gwaith eang i ymchwilio ac erlyn troseddau, mae gan y darparwyr gwasanaeth yma gylch gwaith mwy cyfyng ac mae ganddynt rolau arbenigol yng nghyd-destun achosion troseddol. Yn aml mae eu swyddogaethau troseddol wedi eu cyfyngu i ymchwilio neu erlyn mathau penodol o droseddau, neu droseddau a gyflawnwyd o dan amgylchiadau penodol. I raddau helaeth mae'r swyddogaethau hyn yn pennu ym mha ffyrdd, a pha mor aml, y byddant yn dod i gysylltiad â diodefwyr.

1.4. Yn ddarostyngedig i baragraffau 1.5 a 1.6, mae'r Bennod hon yn gymwys os bydd y diodefwyr wedi gwneud honiad i'r darparwr gwasanaeth perthnasol ei fod wedi diodefwyr niwed (yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd) a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd, neu fod honiad o'r fath wedi cael ei wneud ar eich rhan, neu os bydd y darparwr gwasanaeth perthnasol yn cysylltu â'r diodefwyr fel diodefwyr yn ystod ymchwiliad troseddol.

³² Cyfarwyddeb yr UE sy'n pennu safonau sylfaenol ar gyfer hawliau diodefwyr troseddau, eu cynorthwyo a'u hamddiffyn (2012/29/EU).

- 1.5. Mae'r Bennod hon ond yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth i'r graddau bod y ddarparwr gwasanaeth wedi derbyn cyfrifoldeb am gynnal ymchwiliad troseddol i'r drosedd, ac wedi derbyn cyfrifoldeb ffurfiol am benderfynu erlyn y drosedd honno.
- 1.6. Mae gan rai o'r ddarparwyr gwasanaeth yn y Bennod hon ystod o bwerau gorfodi troseddol, sifil a rheoleiddiol. Mae'r Bennod hon ond yn gymwys i ddarparwyr gwasanaeth yng nghyd-destun eu swyddogaethau gorfodi troseddol.
- 1.7. Er bod y ddarparwyr gwasanaeth a restrir ym mharagraff 1.2 ond yn rhwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Bennod hon, efallai y bydd gan y diodefwyr hawl i dderbyn gwasanaethau gan ddarparwr gwasanaeth a restrir ym mharagraff 8 Rhagarweiniad y Cod hwn pan fo gan y ddarparwr gwasanaeth swyddogaethau perthnasol mewn perthynas ag achosion troseddol (er enghraifft, efallai bod gan y diodefwyr hawl i gael gwasanaeth cyfieithu yn ystod treial troseddol). Yn yr un modd, nid oes dim yn y Bennod hon sy'n rhwystro diodefwyr rhag riportio trosedd i'r heddlu, yn hytrach nag i un o'r asiantaethau arbenigol a restrir yn y Bennod hon.
- 1.8. Pan fo angen iddynt rannu gwybodaeth o dan y Cod hwn, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau wneud hynny yn effeithiol ac yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 1.9. Mae i'r cyfeiriadau at ddiodefwyr a geir yn y Bennod hon yr un ystyr ag ym mharagraff 4 y Rhagarweiniad, sef:
- person naturiol sydd wedi dioddef niwed, yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd³³;
 - perthynas agos (gweler yr eirfa) i berson yr achoswyd ei farwolaeth/marwolaeth yn uniongyrchol gan drosedd.
- 1.10. Nid yw personau cyfreithiol (e.e. Busnesau) yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ddiodefwyr. Nid oes gan fusnesau'r hawl i dderbyn y gwasanaethau o dan y Cod hwn yn unol â Phennod 4.
- 1.11. Mae gan ddiodefwyr hawl i dderbyn y gwasanaethau a nodir yn y Bennod hon os digwyddodd y drosedd yng Nghymru neu Loegr, neu os yw'r gwasanaeth yn gysylltiedig ag achos troseddol sy'n cael ei gynnal yng Nghymru neu Loegr³⁴. Mae gennych hawl cael mynediad i wasanaethau cymorth i ddiodefwyr ar unrhyw adeg, p'un a ydych wedi riportio trosedd neu beidio, ac ar ôl i'r ymchwiliad neu'r erlyniad ddod i ben. Pan na fo'r diodefwyr yn bresennol yng Nghymru a Lloegr neu wedi gadael tir Cymru neu Loegr, dylai pa bynnag wlad y mae'r diodefwyr yn bresennol ynddi ddarparu gwasanaeth cymorth i ddiodefwyr i'r diodefwyr hwnnw.
- Llefarydd ar ran teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i drosedd**
- 1.12. Os bydd teulu yn diodefwyr profedigaeth o ganlyniad uniongyrchol i drosedd, mae gan berthnasau agos yr ymadawedig hawl i enwi llefarydd ar ran y teulu fydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer derbyn gwasanaethau o dan y Bennod hon. Os na all y berthnasau agos ddewis llefarydd ar ran y teulu, mae'n rhaid i'r ddarparwr gwasanaeth ddewis llefarydd ar ran y teulu.

³³ At ddibenion y Bennod Hon, mae 'trosedd' yn golygu trosedd a gyflawnir, neu sy'n destun achos troseddol, yng Nghymru a Lloegr.

³⁴ Gall cymhwysedd i dderbyn iawndal gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ddibynnu ar eich preswylad a'ch cenedligrwydd oni bai eich bod yn cael eich clustnod'i'n bendant fel diodefwyr masnachu pobl, neu wedi derbyn lloches, gwarchodaeth ddyngarol neu ganiatâd dewisol i aros.

Y llefarydd ar ran y teulu ar gyfer diodefwyr troseddau sydd ag anabledd neu ar gyfer diodefwyr sydd wedi cael anafiadau mor ddrwg o ganlyniad i drosedd fel nad ydynt yn gallu cyfathrebu

- 1.13. Os oes gan y diodefwr anabledd, neu ei fod wedi cael anafiadau mor ddrwg o ganlyniad i drosedd fel nad yw yn gallu cyfathrebu, mae gan y diodefwr neu berthnasau agos iddo hawl i enwi llefarydd ar ran y teulu fydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer derbyn gwasanaethau o dan y Bennod hon.

Rhiant neu warchodwr diodefwr sy'n iau nag 18 oed

- 1.14. Os yw'r diodefwr yn iau nag 18 oed, mae gan y diodefwr a'i riant neu warchodwr fel arfer, hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Bennod hon.³⁵

Beth os nad yw'r diodefwr yn dymuno derbyn y gwasanaethau y mae ganddo hawl i'w cael yn unol â'r Cod hwn?

- 1.15. Mae'r Bennod hon yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Gall darparwyr gwasanaethau ddewis cynnig gwasanaethau ychwanegol a gall diodefwyr ddewis derbyn gwasanaethau sydd wedi'u teulwra ar gyfer eu hanghenion unigol nad ydynt wedi cyrraedd y safonau gofynnol.
- 1.16. Efallai y bydd y diodefwr yn penderfynu nad yw am gael rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth neu'r gwasanaethau y mae ganddo hawl i'w cael yn unol â'r Bennod hon, neu ei fod am roi'r gorau i dderbyn y rhain yn ddiweddarach. Os felly, gall y diodefwr drafod â'r darparwr gwasanaeth beth fyddai'r ffordd orau o deilwra'r hawliau hyn i'w anghenion.

- 1.17. Caiff y diodefwr ddewis aildechrau derbyn y gwasanaethau'n unol â'r Bennod hon ar unrhyw adeg tra bo'r ymchwilio i'r achos yn parhau.

Gwybodaeth a chymorth

Hawl i ddeall ac i gael eich deall

- 1.18. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyfathrebu â chi mewn iaith syml a hygyrch, gan gymryd camau rhesymol i helpu'r diodefwr i ddeall a chael ei ddeall. Wrth ystyried camau priodol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ystyried unrhyw nodweddion personol perthnasol allai effeithio ar allu'r diodefwr i ddeall neu i gael ei ddeall.
- 1.19. Os, o ganlyniad i effaith trosedd, bod angen cymorth amoch i ddeall neu i gael eich deall pan fyddwch yn cysylltu â'r heddlu y tro cyntaf, mae gennych hawl i gael cwmni person o'ch dewis oni bai fod y darparwr gwasanaeth yn ystyried y byddai hynny'n gwrthdaro â'ch buddiannau neu'n niweidiol i'r ymchwiliad neu'r erlyniad.

Hawl i gael gwasanaeth cyfieithu

- 1.20. Os nad ydych yn deall neu'n siarad Saesneg, mae gennych hawl i ofyn am wasanaeth cyfieithu i iaith yr ydych yn ei deall:
- wrth riportio trosedd³⁶; ac
 - wrth gael eich cyfweld gan y darparwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r drosedd.
- 1.21. Os nad ydych yn deall neu'n siarad Saesneg, mae gennych hawl i ofyn am gyfieithiad o'r wybodaeth ganlynol pryd bynnag y caiff ei gyflwyno i chi:
- cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r drosedd a riportiwyd;

³⁵ Oni bai bod eich rhiant neu warchodwr yn destun ymchwiliad neu wedi cael ei gyhuddo gan y darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r drosedd, neu os ym marn resymol y darparwr gwasanaeth dan sylw nad yw er budd pennaf i chi bod eich rhiant neu warchodwr yn derbyn y cyfryw wasanaethau.

³⁶ Mae gennych hawl riportio trosedd mewn iaith yr ydych yn ei deall neu gyda'r cymorth ieithyddol angenrheidiol os nad ydych yn siarad Saesneg.

- pan fo'n hanfodol at ddibenion y cyfweiliad neu'r achos llys i weld dogfen benodol a ddatgelir i chi, copi o rannau perthnasol o'r ddogfen honno;
 - y ddogfen sy'n eich hysbysu am ddyddiad, amser a lleoliad y treial; a
 - chanlyniad achos troseddol y mae gennych hawl ei dderbyn o dan y Bennod hon, a rhesymau cryno o leiaf am y penderfyniad pan fo hynny ar gael.
- 1.22. Gellir darparu cyfieithiad llafar neu grynoded o'r rhain, oni fyddai hynny'n effeithio ar degwch yr achos. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu o'r fath ar gael.
- 1.23. Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad i beidio â darparu gwasanaethau cyfieithu, mae gennych hawl i wneud cwyn i'r **darparwr gwasanaeth** perthnasol. Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol ystyried eich cais yn unol â'r weithdrefn gwyno a geir ym mharagraffau 1.49-1.53.

Gwybodaeth am hawliau diodefwyr

- 1.24. Mae gan y diodefwyr hawl i dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â beth ddylai ei dderbyn gan y system cyfiawnder troseddol, neu fanylion gwefan sy'n cynnwys y wybodaeth honno. Yn ddarostyngedig i baragraff 1.25, mae'n rhaid cynnig mynediad i'r wybodaeth ganlynol i chi yn dilyn eich cysylltiad cyntaf â'r darparwr gwasanaeth:
- o ble a sut mae cael cyngor neu gymorth, yn cynnwys mynediad i gymorth meddygol, unrhyw gymorth arbenigol arall (megis cymorth seicolegol) a chymorth arall ynglŷn â llety;
 - beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn riportio trosedd, a phwy ddylech gysylltu â hwy petai gennych unrhyw gwestiynau am yr achos;

- unrhyw fesurau sydd ar gael er mwyn eich gwarchod, os bydd angen hynny;
- sut i hawlio iawndal;
- y trefniadau sydd ar gael os nad yw'r diodefwyr yn bresennol yng Nghymru a Lloegr;
- argaeledd gwasanaethau cyfieithu;
- sut mae cwyno am ddarparwr gwasanaeth;
- argaeledd gwasanaethau cyfiawnder adferol;
- sut i adennill treuliau fel tyst mewn treial troseddol.

1.25. Gall swm neu fanylder y wybodaeth ym mharagraff 1.24 amrywio yn ddibynnol ar y math o drosedd, eich amgylchiadau personol, neu ei pherthnasedd i gam penodol yr ymchwiliad neu achos troseddol.

1.26. Mae'n rhaid i **ddarparwyr gwasanaeth** gynnwys gwybodaeth am y Cod hwn ar eu gwefannau. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gyfeirio diodefwyr at dudalennau perthnasol gwefan GOV.UK.

Cydnabod riportio trosedd

1.27. Pan fo diodefwyr yn riportio trosedd i **ddarparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y diodefwyr yn derbyn cydnabyddiaeth ysgrifenedig, yn cynnwys manylion sylfaenol am y drosedd. Gallai'r gydnabyddiaeth ysgrifenedig fod ar ffurf llythyr, hysbysiad electronig megis e-bost neu neges destun, neu gall fod yn neges a ysgrifennwyd â llaw. Efallai y bydd y diodefwyr yn gwneud cais i beidio â derbyn y cyfryw gydnabyddiaeth. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn ystyried y gall anfon y gydnabyddiaeth ysgrifenedig atoch arwain at risg o niwed i chi, efallai y byddant yn cytuno i beidio ag anfon un atoch.

Cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr

- 1.28. Pan fo diodefwyr yn riportio trosedd i ddarparwr gwasanaeth, mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** ofyn a yw'r diodefwyr yn dymuno cael ei gyfeirio at wasanaethau cymorth i ddiodefwyr neu beidio. Os bydd y diodefwyr yn dymuno cael ei gyfeirio, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth hwyluso'r cyfeirio hwnnw.
- 1.29. Pan na fo'r diodefwyr yn bresennol yng Nghymru a Lloegr neu wedi gadael tir Cymru neu Loegr, dylai pa bynnag wlad y mae'r diodefwyr yn bresennol ynddi ddarparu gwasanaeth cymorth i ddiodefwyr i'r diodefwyr hwnnw.

Asesiadau Unigol

- 1.30. Pan fo diodefwyr yn riportio trosedd i **ddarparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i droseddau, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y diodefwyr yn cael ei asesu'n unigol er mwyn canfod unrhyw anghenion gwarchod penodol a phenderfynu a fyddai, ac i ba raddau fyddai'r diodefwyr yn elwa o fesurau gwarchod penodol neu Fesurau Arbennig wrth gael ei gyfweld, neu Fesurau Arbennig wrth roi tystiolaeth³⁷. Bydd natur yr asesiad yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau, yn cynnwys difrifoldeb y drosedd a faint o niwed y mae'n ymddangos a ddiodeffodd y diodefwyr. Bydd raid i'r asesiad ystyried eich nodweddion personol, natur ac amgylchiadau'r trosedd, a'ch barn chi.
- 1.31. Os bydd y **darparwr gwasanaeth** yn ymwybodol bod amgylchiadau diodefwyr wedi newid yn arwyddocaol, mae'n rhaid iddo roi cyfle i'r diodefwyr gael ei ailasesu.

Cyfweliadau

- 1.32. Wrth gyfweld â diodefwyr, mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am ymchwilio i drosedd sicrhau ei fod:
- yn cynnal y cyfweliad heb oedi anghyfiawnadwy ar ôl derbyn cwyn bod trosedd wedi'i chyflawni;
 - yn cyfyngu nifer y cyfweliadau os yw'n bosibl a chynnal dim ond y cyfweliadau hynny sy'n gwbl angenrheidiol at ddibenion yr ymchwiliad;
 - yn caniatáu i'r diodefwyr gael rhywun o'i ddewis gydag ef, oni bai fod penderfyniad rhesymedig wedi'i wneud i'r gwrthwyneb; ac
 - yn ceisio archwiliadau meddygol pan eu bod yn gwbl angenrheidiol yn unig at ddiben yr achos troseddol, ac fel arall yn cyfyngu ar nifer yr archwiliadau meddygol.
- 1.33. Pan fo **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i drosedd yn cyfweld â diodefwyr, mae'n rhaid iddo, pan fo angen hynny, gymryd camau i sicrhau nad yw'r diodefwyr (a'i deulu) yn dod i gysylltiad diangen â'r unigolyn a amheuir.
- 1.34. Pan fo **darparwr gwasanaeth**, o ganlyniad i'r asesiad unigol, wedi canfod bod gan ddiodefwyr anghenion gwarchod penodol ac y byddai'n elwa o fesurau gwarchod penodol wrth gael ei gyfweld, mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i drosedd hefyd sicrhau, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau gweithredol ac ymarferol, bod y canlynol ar gael:
- sicrhau bod un person, pan fo'n bosibl, yn cynnal yr holl gyfweliadau (oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad);

³⁷ Nodir y mesurau arbennig yn Rhan 2 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (gweler Pennod 1, paragraff 1.13).

- bod y cyfweliad yn cael ei gynnal, pan fo hynny'n angenrheidiol, mewn lleoliad a ddyluniwyd neu a addaswyd at y diben hwnnw;
- bod cyfweliadau'n cael eu cynnal gan bobl broffesiynol sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer y diben hwnnw; a
- bod pob dioddefwr trais rhywiol, trais yn seiliedig ar ryw, neu drais domestig i gael cynnig person o'r un rhyw â nhw i gynnal y cyfweliad, Dylid cytuno â chais o'r fath os yn bosibl, oni bai y byddai gwneud hynny yn effeithio ar briodoldeb yr ymchwiliad.

Gwybodaeth

Hawl i dderbyn penderfyniad i beidio ag ymchwilio neu i derfynu ymchwiliad

1.35. Mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r drosedd, heb unrhyw oedi diangen, sicrhau bod dioddefwr yn cael gwybod am ei hawl i dderbyn penderfyniad i beidio parhau, neu i derfynu ymchwiliad i'r achos hwnnw.

Hawl i dderbyn gwybodaeth am erlyniad

1.36. Mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am erlyn y drosedd, heb unrhyw oedi diangen, sicrhau bod dioddefwr yn cael gwybod am ei hawl i dderbyn y wybodaeth ganlynol:

- a. penderfyniad i beidio ag erlyn unigolyn a amheuir;
- b. amser a lleoliad y treial a natur y cyhuddiadau yn erbyn yr unigolyn a amheuir.

1.37. Mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am erlyn y drosedd, heb unrhyw oedi diangen, sicrhau bod dioddefwr sy'n dyst mewn achos troseddol yn cael gwybod am ei hawl i dderbyn y wybodaeth ganlynol:

- a. gwybodaeth am hynt yr achos troseddol, oni bai, o dan amgylchiadau eithriadol, bod y darparwr gwasanaeth yn ystyried y byddai trosglwyddo gwybodaeth o'r fath yn effeithio'n niweidiol ar briodoldeb yr achos;
- b. y canlyniad terfynol mewn unrhyw dreial.

Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth ar gais a rhoi rhesymau

1.38. Os bydd dioddefwr yn gofyn am wybodaeth yn dilyn hysbysiad yn unol â pharagraffau 1.35-1.37 uchod, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth perthnasol sicrhau ei bod yn cael ei darparu. Wrth ddarparu'r wybodaeth a restrir ym mharagraffau 1.35, 1.36(a) a 1.37 (b), mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi crynodeb byr o leiaf o'r rhesymau am y penderfyniad o dan sylw (yn achos 1.37(b), dim ond pan fo'r cyfryw resymau ar gael). Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu rhesymau yn gymwys i ganlyniad terfynol achos rheithgor.

1.39. Pan fo nifer fawr o ddiodefwyr yn gysylltiedig ag achos, neu pan fo hynny'n briodol fel arall mewn achosion eithriadol, gall y darparwr gwasanaeth gyfathrebu gwybodaeth y mae gan ddiodefwyr hawl ei dderbyn o dan y Bennod hon drwy sianelau eraill megis gwefan y darparwr gwasanaeth.

1.40. Nid oes dim yn y Bennod hon sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth pan allai datgelu'r wybodaeth honno:

- arwain at niwed i unrhyw berson;
- effeithio ar briodoldeb unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad, neu niweidio unrhyw achos sifil neu droseddol fel arall;
- gwrthdaro, ym marn y darparwr gwasanaeth, â buddiannau diogelwch cenedlaethol.

Hawl i Adolygiad

1.41. Mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am erlyn y drosedd roi i ddiodefwyr yr hawl i adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn. Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r cyfryw hawl mewn perthynas â throseddau difrifol o leiaf (fel y penderfynir ar hynny gan y darparwr gwasanaeth)³⁸. Gall y darparwr gwasanaeth osod rheolau gweithdrefnol ar gyfer yr adolygiad. Pan fo diodefwr yn cael gwybod gan ddarparwr gwasanaeth (yn unol â pharagraff 1.38) am benderfyniad i beidio ag erlyn unigolyn a amheuir, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth, heb unrhyw oedi diangen, roi gwybod i'r diodefwr am ei hawl i adolygiad a darparu digon o wybodaeth i alluogi'r diodefwr i benderfynu p'un ai i ofyn am adolygiad neu beidio.

Treuliau

1.42. Mae'n rhaid i **ddarparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am erlyn trosedd gael rheolau ar gyfer rhoi'r posibilrwydd i ddiodefwyr gael ad-daliad am dreuliau sy'n gysylltiedig â mynychu'r llys i roi tystiolaeth.

Eiddo

1.43. Pan fo **darparwr gwasanaeth**, yn ystod achos troseddol, wedi cymryd eiddo y gellir ei adennill oddi wrth y diodefwr, a phan nad yw'n angenrheidiol mwyach i ddal yr eiddo hwnnw, mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddychwelyd yr eiddo hwnnw heb oedi.

Mesurau Arbennig

1.44. Pan ganfyddir bod gan ddiodefwr, o ganlyniad i'r asesiad unigol, anghenion gwarchod penodol ac y byddai'n elwa o Fesurau Arbennig wrth roi tystiolaeth, mae'n rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am erlyn y drosedd wneud cais i'r llys am y Mesur Arbennig priodol o dan Ran 2 Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

Plant a Phobl Ifanc

1.45. Rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth i **ddarparwr gwasanaeth** bob amser.

1.46. Os oes ansicrwydd ynghylch oed y diodefwr a bod lle i gredu bod yr unigolyn o dan 18 mlwydd oed, rhaid i ddarparwr gwasanaeth gymryd bod yr unigolyn o dan 18.

1.47. Ystyrir bod diodefwr sy'n blentyn angen mesurau gwarchod penodol ar gyfer cyfweliadau, ac mae'n gymwys i dderbyn Mesurau Arbennig wrth roi tystiolaeth.

1.48. Mae'n rhaid i **ddarparwr gwasanaeth** sy'n gyfrifol am ymchwilio i drosedd ofyn i ddiodefwr sy'n blentyn (neu ei riant/ gwarchodwr) a fyddai'n dymuno i'w gyfweliad gael ei recordio ar fideo fel y gellir defnyddio'r cyfweliad sydd wedi'i recordio fel tystiolaeth mewn achos troseddol.

³⁸ Nid yw'r paragraff hwn yn rhwystro darparu hawl ehangach i adolygiad, naill ai fel y'i darperir gan y darparwr gwasanaeth yn ôl ei ddisgresiwn, neu fe sy'n ofynnol yn ôl unrhyw reol gyfreithiol arall

Cwynion

- 1.49. Mae'n rhaid i **ddarparwyr gwasanaeth** sy'n derbyn cwyn gydnabod diodefwyr a'u trin mewn ffordd barchus, ystyriol a phroffesiynol heb wahaniaethu o unrhyw fath.
- 1.50. Rhaid i **ddarparwyr gwasanaeth** fod â phroses gwyno glir y gall diodefwyr ei defnyddio i wneud cwyn os nad yw'r hawliau sydd wedi'u disgrifio yn y bennod hon wedi cael eu gwireddu.
- 1.51. Rhaid i bob **darparwr gwasanaeth** ddarparu naill ai gydnabyddiaeth neu ymateb i'r diodefwr o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael ei gwyn. Os rhoddir cydnabyddiaeth, rhaid iddi nodi'n glir beth yw proses gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer anfon ymateb o sylwedd i'r gwyn lle y bo yn briodol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu manylion cyswllt clir i ddiodefwyr ar lefel leol a hefyd, os yw'n briodol, ar lefel genedlaethol fel y gallant wneud ymholiadau neu gwynion a rhaid iddynt eu rhoi i'r diodefwr ar ei gais.
- 1.52. Os bydd **darparwr gwasanaeth** (y darparwr cychwynnol) yn cael cwyn y dylid fod wedi'i hanfon at ddarparwr gwasanaeth gwahanol, bydd y darparwr cychwynnol yn gyfrifol am sicrhau bod y gwyn yn cael ei chyfeirio at y darparwr gwasanaeth priodol er mwyn cael ymateb. Bydd y darparwr cychwynnol yn parhau'n gyfrifol am y gwyn nes bydd y darparwr gwasanaeth priodol wedi cymryd cyfrifoldeb dros y gwyn.
- 1.53. Rhaid i'r **darparwr gwasanaeth** ddarparu ymateb llawn ac amserol sy'n hysbysu diodefwyr am y canlyniad i'w cwyn, ac yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gall y diodefwr godi ei gwyn ar lefel uwch gyda'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd os yw'n dymuno. Rhaid darparu'r ymateb mewn iaith a fformat hawdd eu deall.

Geirfa

Mae'r adran hon yn egluro'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol a geir yn y Cod hwn. Hefyd cewch grynodedb o'r holl Fesurau Arbennig sydd ar gael a'r wybodaeth am Gyfryngwyr Cofrestredig ym mharagraff 1.15 Pennod 1.

Achosion cymwys

Achosion lle y mae hawl gan deuluoedd mewn profedigaeth i gwrdd â GEG, sef: llofruddiaeth, dynladdiad, dynladdiad corfforaethol, dynladdiad teuluol, achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal dan ddylanwad diod neu gyffuriau, achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiotal neu drwy yrru'n anystyriol, achosi marwolaeth wrth yrru heb drwydded, dan waharddiad neu heb yswiriant a chymryd cerbyd yn waethygedig lle y caiff marwolaeth ei hachosi.

Achosion penodedig

Achosion lle y mae hawl gan ddiodefwyr i gwrdd â GEG, sef: achosion o gam-drin plant; troseddau rhywiol; troseddau gwaethygedig ar sail hil a chrefydd; troseddau sy'n cynnwys elfen homoffobig neu dransffobig; troseddau gwaethygedig gan elyniaeth wedi'i seilio ar anabled; ac achosion wedi'u hysgogi gan elyniaeth wedi'i seilio ar oed.

Amodau trwydded

Mae rhai carcharorion yn cael eu rhyddhau o'r carchar 'ar drwydded'. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu goruchwyllo gan y Gwasanaeth Prawf ac yn gorfod cydymffurfio ag amodau penodol ar gyfer diogelu'r cyhoedd, atal aildroseddu ac ailintgreiddio'r troseddwr yn y gymuned.

Apelio

Proses gyfreithiol lle y mae achos yn cael ei ddwyn gerbron llys uwch er mwyn adolygu penderfyniad gan lys is.

Asesiad o anghenion

Gwerthusiad gan ddarparwyr gwasanaeth i bennu'r math o gymorth y gallai fod ei angen ar ddiodefwr ar ôl trosedd. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd i bennu unrhyw Fesurau Arbennig y gallai fod ar ddiodefwr eu hangen os bydd yn rhoi tystiolaeth mewn llys.

Cleifion dan gyfyngiadau

Bydd claf yn cael ei roi dan gyfyngiadau os yw'r llys yn credu bod angen gwneud hyn i ddiogelu pobl eraill rhag niwed difrifol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â rheoli "Cleifion dan gyfyngiadau". Mae hyn yn golygu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniadau ynghylch adsefydlu'r troseddwr, ac y bydd Swyddog Cysylltu â Dioddefwyr yn cael ei neilltuo ar gyfer y diodefwr a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r diodefwr am ddatblygiadau allweddol. Mae "Cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau" yn cael eu rheoli gan glinigwyr, a gall rheolwyr ysbytai roi gwybodaeth i'r diodefwr am ddatblygiadau allweddol wrth adsefydlu'r troseddwr.

Cyfiawnder Adferol

Proses sy'n dod â'r rheini sydd wedi cael niwed oherwydd troseddu neu wrthdaro a'r rheini sy'n gyfrifol am y niwed at ei gilydd i ddod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen.

Cyhuddiad

Cyhuddiad ffurfiol yn erbyn unigolyn/unigolion gan y wladwriaeth.

Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

Cynllun statudol sy'n cael ei gynnig gan ymddiriedolaethau prawf i ddiodefwyr troseddwr sydd wedi cyflawni troseddau treisgar neu rywiol ac wedi cael dedfryd o 12 mis neu fwy yn y ddalfa neu wedi'u cadw mewn ysbyty am driniaeth. Gellir ei ddefnyddio i

hysbysu diodefwyr am ddatblygiadau allweddol yn nedfryd y troseddwr, ac i gael sylwadau gan ddiodefwyr am amodau y gellid eu gosod ar y troseddwr ar ôl ei ryddhau.

Darparwyr gwasanaeth

Sefydliad y mae'n ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cod hwn, fel y nodir yn y Rhagarweiniad, paragraffau 8 a 9.

Darparwr gwasanaethau prawf

Sefydliad sy'n darparu gwasanaethau prawf ar ran Yr ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder - naill ai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol.

Dedfryd

Y gosb sy'n cael ei rhoi i'r un a amheuir ar ôl ei gael yn euog gan y llys.

Eiriolwr

Person sy'n cynrychioli GEG neu'r diffynnydd yn y llys. Gall y person hwn fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr neu eiriolwr.

GEG (Gwasanaeth Erllyn y Goron)

GEG sy'n gyfrifol am erlyn mewn achosion troseddol y mae'r heddlu wedi ymchwilio iddynt yng Nghymru a Lloegr.

Goruchaf Lys y DU

Y llys apêl uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Gohirio

Atal y gwrandawriad mewn achos dros dro drwy orchymyn y llys.

Gwarant Arestio

Gwarant sy'n cael ei chyhoeddi gan y llys i roi awdurdod i arestio'r unigolyn a amheuir o gyflawni trosedd.

Gwarcheidwad i rywun o dan 18 oed

Unigolyn sy'n gyfrifol am y tro am ofalu am rywun sydd o dan 18 oed.

Gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth emosïynol ac ymarferol i ddiodefwyr troseddau.

Gwrandawriadau remand

Gwrandawriad llys i benderfynu a fydd yr un a amheuir yn cael ei gadw yn y ddalfa cyn ymddangos yn y llys eto.

Hawl

Gwasanaeth(au) sydd i gael eu darparu i ddiodefwyr ymddygiad troseddol gan y darparwr gwasanaeth perthnasol.

Hysbysu/rhoi gwybod i ddiodefwyr

Postio llythyr, gwneud galwad ffôn, cyfarfod wyneb yn wyneb neu anfon neges e-bost, ffacs, neges destun neu unrhyw fath arall o gyfathrebu y mae'r darparwr gwasanaeth yn ei ystyried yn fwyaf priodol.

Llys y Goron

Llys lle y mae achosion troseddol yn cael eu gwrandao o flaen barnwr a rheithgor. Mae Llys y Goron yn llys apêl hefyd ar gyfer achosion sydd wedi'u gwrandao a'u penderfynu gan y llysoedd ynadon a'r llysoedd ieuenctid.

Llys Ynadon

Llys lle y mae achosion troseddol yn cael eu gwrandao gan ynadon neu farnwyr rhanbarth sy'n ystyried y dystiolaeth a'r datganiadau a gyflwynir iddynt.

Mechnïaeth (ac amodau mechnïaeth)

Rhyddhau'r un a amheuir o'r ddalfa, tan ei ymddangosiad nesaf yn y llys. Weithiau mae hyn yn amodol ar roi meichiau a/neu gydymffurfio ag amodau mechnïaeth penodol, er enghraifft mynychu gorsaf heddlu'n rheolaidd.

Gweler hefyd 'mechnïaeth yr heddlu'.

Mechnïaeth yr heddlu

Trefniant lle y mae'r heddlu'n caniatáu i unigolyn a amheuir adael yr orsaf heddlu ar yr amod ei fod yn dychwelyd i'r orsaf heddlu neu i'r llys ar ddiwrnod arall.

Gweler hefyd "mechnïaeth".

Mesurau Arbennig

Y gwahanol fesurau y gall y llys eu gorchymyn i helpu tystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth i roi eu tystiolaeth orau yn y llys yn unol ag adrannau 16 i 30 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Ymhlith y mesurau hyn y mae cysylltiadau fideo byw, datganiadau wedi'u recordio ar fideo, sgriniau o amgylch y llwyfan tystio a chymorth i gyfathrebu, gan gynnwys defnyddio cyfryngwr. Mae rhestr lawn o'r mesurau ynghyd ag eglurhad ohonynt ym mharagraff 1.13 – 1.15 o Bennod 1

Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Mae'n ymchwilio i gwynion y mae wedi'u cael gan Aelodau Seneddol fod unigolion wedi'u trin yn annheg neu wedi cael gwasanaeth gwael gan adrannau neu asiantaethau llywodraeth.

Penderfyniadau y tu allan i'r llys

Opsiynau yn lle erlyn, fel rhybuddion, rhybuddion amodol a hysbysiadau cosb am anhrefn, ar gyfer delio â throseddu ar lefel isel, sydd wedi digwydd am y tro cyntaf yn aml, pan na fydd erlyn er budd i'r cyhoedd.

Perthnasau agos

Mae hyn yn golygu priod, partner, rhieni a phlant, brodyr a chwiorydd a dibynyddion y dioddefwr. Gellir cyfrif aelodau eraill o'r teulu'n berthnasau agos yn ôl disgrisiwn y darparwr gwasanaeth, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr.

Rhyddfarn

Cyfarwyddyd neu ganfyddiad ffurfiol bod yr un a amheuir yn ddieuog o'r cyhuddiad troseddol.

Swyddog Cyswllt Dioddefwyr

Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn staff prawf sy'n gweithio gyda dioddefwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn rhoi gwybod i ddiodefwyr am gamau neu ddigwyddiadau allweddol yn nedfryd y troseddwr ac yn sicrhau bod barn a phryderon y dioddefwr yn cael eu cyfleu i'r carchar neu'r Bwrdd Paròl pan fydd yn ystyried rhyddhau'r troseddwr.

Swyddog Cyswllt Teulu (SCT)

Swyddog heddlu sydd wedi'i hyfforddi i weithio gyda theuluoedd mewn profedigaeth i sicrhau eu hymddiriedaeth, i ddarparu cymorth a gwybodaeth am yr ymchwiliad ac asiantaethau cymorth, ac i gasglu gwybodaeth sy'n cyfrannu at yr ymchwiliad.

Treial

Y broses llys sy'n penderfynu a yw rhywun sydd wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd yn euog

Trosedd

Unrhyw drosedd y gellir rhoi cosb amdano yn Llys y Goron, mewn Llys Ynadon neu drwy wneud penderfyniad y tu allan i'r llys.

Troseddwr

Y person sy'n cyflawni'r drosedd.

Trosedd Casineb

Unrhyw drosedd sydd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol y dioddefwr.

Unigolyn a amheuir

Rhywun y mae'r heddlu'n credu sydd wedi cyflawni trosedd.

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Gwasanaeth cyfiawnder troseddol statudol yw'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n goruchwyllo troseddwr risg uchel sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gweithio yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (Gweler Swyddog Cyswllt Dioddefwyr' isod).

ISBN 978-1-4741-2539-0



9 781474 125390